

Gwerthuso'r Rhaglen Trawsnewid Dioddefwyr Diwedd Blwyddyn Dau: Adroddiad Technegol

Medi 2026

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Dyluniad Gwerthuso	2
Cyfyngiadau methodolegol	4
Fframwaith Gwerthuso	6
Damcaniaeth Newid	6
Fframwaith Canlyniadau	9
Cwestiynau ymchwil	9
Crynodeb o'r fethodoleg	10
1. Ymgysylltu ag Ymarferwyr	11
2. Ymgysylltu â dioddefwyr	30
3. Dadansoddiad Sampl Fach	37
4. Data OPRA	41
Penderfynu pryd i adrodd ar athreuliad dioddefwyr	48
5. Data monitro'r CPS	58
Dulliau Dadansoddi Cost a Budd (CBA)	60
1. Cyflwyniad	60
3. Costau	72
4. Buddion	73
Nodyn ar Fethodoleg CBA - Cymhareb Trosedd i Achos	87
Nodyn ar Fethodoleg CBA - Cofnodi Amser Tasgau	88
Ystyriaethau moesegol	91
Pwrpas yr ymchwil	92
Prosesau ymchwil ac ymgysylltu	93
Cydymffurfio â gofynion diogelu data	96

Cyflwyniad

Ers mis Ebrill 2024, mae Crest Advisory wedi gweithio gyda'r CPS i ddylunio a gweithredu gwerthusiad o'r Rhaglen Trawsnewid Dioddefwyr (VTP - a elwir hefyd yn Rhaglen Dioddefwyr). Nod y gwerthusiad yw deall pa mor effeithiol y mae'r Cynllun wedi cael ei roi ar waith, a'r effaith a'r gwerth am arian y mae'n ei ddarparu i'r CPS, i ddioddefwyr ac i'r system cyfiawnder troseddol ehangach.

Mae gan y VTP dri gwasanaeth craidd: y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol; y Gwasanaeth Ychwanegol ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol (o hyn ymlaen, y Gwasanaeth Ychwanegol [RASSO]); a'r Ganolfan Rhagoriaeth Dioddefwyr (VCE). Gyda'i gilydd, maent yn darparu gwasanaeth gwahaniaethol sy'n cael ei arwain gan anghenion i ddioddefwyr. Mae'r tri gwasanaeth o fewn cwmplas y gwerthusiad. Edrychwch ar yr Adroddiad Cryno i gael rhagor o wybodaeth gefndir am y VTP.

Mae'r Adroddiad Technegol hwn yn ategu'r Adroddiad Cryno, gan roi manylion ychwanegol am y ffynonellau data a'r dull dadansoddol a ddefnyddiwyd dros ddwy flynedd o weithgarwch gwerthuso. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r canlynol:

- Samplu a recriwtio ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, staff a dioddefwyr
- Samplu a lledaenu arolygon dioddefwyr a staff
- Dadansoddi data ansoddol
- Glanhau a dadansoddi data meintiol
- Sicrhau ansawdd
- Ystyriaethau moesegol.

Dyluniad Gwerthuso

Ym mlwyddyn gyntaf y gwerthusiad (Ebrill 2024 - Mawrth 2025), dyluniodd Crest y fframwaith gwerthuso gan geisio deall sut i roi'r VTP ar waith. Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaethom greu damcaniaeth newid (ToC) a fframwaith canlyniadau; systemau a phrosesau casglu data sefydledig; meithrin perthnasoedd â staff strategol a gweithredol; ac ymgysylltu â staff cyflawni'r Cynllun Peilot Cyffredinol ac Ychwanegol a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) i ddeall prosesau, galluogwyr a rhwystrau rhag cyflawni. Fe wnaethom gynhyrchu adroddiad Diwedd Blwyddyn mewnol yn nodi'r canfyddiadau ac argymhellion cynnar.

Yn ail flwyddyn y gwerthusiad (Ebrill 2025 - Mawrth 2026), fe wnaethom newid i adroddiadau thematig, gan dynnu data ansoddol a meintiol ynghyd o'r gwerthusiad o'r broses a'r effaith i ateb cwestiynau ymchwil y cytunwyd arnynt a hysbysu penderfyniadau strategol. Roedd yr adroddiadau thematig mewnol hyn yn ymdrin â'r canlynol:

- **Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol:** Nod yr adroddiad hwn oedd cefnogi penderfyniadau'r CPS ynghylch parhau i gyflawni Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol a'r posibilrwydd o'i ehangu. Roedd yr adroddiad yn ystyried tri maes allweddol: proses, effaith a gwerth am arian:
 - Roedd y gwerthusiad o'r broses yn archwilio sut roedd y Gwasanaeth Peilot wedi cael ei roi ar waith ac yn ystyried rhwystrau a galluogwyr i gyflawni. Roedd yn defnyddio gwybodaeth o arolwg staff y CPS, dadansoddiad sampl fach o gyfathrebu VTP (yn benodol llythyrau 'dim camau pellach' [NFA] a 'chynllun cyfathrebu a chysylltu â dioddefwyr' [VCL]), monitro a data perfformiad a gasglwyd gan y Gwasanaeth Peilot, ac ymgysylltu ansoddol â staff cyflawni'r CPS a phartneriaid ehangach (eiriolwyr dioddefwyr a'r heddlu).
 - Roedd y gwerthusiad effaith yn edrych ar effaith y Gwasanaeth Peilot ar ganlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir y VTP, sef profiad dioddefwyr, hyder a llesiant dioddefwyr, athreuliad dioddefwyr, ac effeithlonrwydd gwasanaethau. Roedd yn defnyddio data arolwg dioddefwyr yn ogystal â data OPRA ¹(data adborth a chwynion, data cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad [VRR], a data llwyth achosion).
 - Roedd yr asesiad gwerth am arian yn amcangyfrif costau a manteision cyffredinol y Gwasanaeth Peilot ar sail costau a manteision blynyddol o ystyried mai dim ond am gyfnod cymharol fyr y mae'r cynlluniau peilot wedi bod yn gweithredu'n llawn. Roedd yr asesiad yn seiliedig ar ddata Cofnodi Amser Tasgau (TTR), data OPRA, data arolygon dioddefwyr, a data costau VTP.
- **Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO):** Roedd y gwerthusiad hwn yn asesu gweithrediad ac effaith y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO). Defnyddiodd ddulliau cymysg, gan gyfuno gwybodaeth ansoddol o gyfweiliadau ac adborth ysgrifenedig gan ddiodyddefwyr, a grwpiau ffocws gyda staff y CPS a phartneriaid ehangach; gyda gwybodaeth feintiol o arolygon dioddefwyr, data OPRA, a data monitro a pherfformiad.
- **Hyfforddiant Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol (Canolfan Ragoriaeth i Ddiodyddefwyr):** Roedd y gwerthusiad hwn yn edrych ar ddyluniad, darpariaeth ac effaith pecyn cynefino Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol. Defnyddiodd ddulliau cymysg, gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol o adolygiad o ddogfennau, grwpiau ffocws gyda staff Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, a chyfweiliadau gydag arweinwyr VTP, ochr yn ochr â chanfyddiadau meintiol o arolwg o staff Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol.
- **Safonau Gwasanaeth i Ddiodyddefwyr (Canolfan Ragoriaeth i Ddiodyddefwyr):** Roedd y gwerthusiad hwn yn archwilio sut cafodd Safonau'r Gwasanaeth i Ddiodyddefwyr (VSS) eu datblygu a'u cyfleu, ac i ba raddau roeddent yn cefnogi staff i ddarparu gwasanaethau o

¹ Mae Perfformiad a Dadansoddiad Gweithredol (OPRA) yn un o dimau'r CPS sy'n gyfrifol am gasglu a dadansoddi data ar berfformiad y CPS.

ansawdd uchel i ddioddefwyr. Roedd yn defnyddio dulliau cymysg, gan gyfuno gwybodaeth ansoddol o grwpiau ffocws â staff y CPS a rhanddeiliaid allanol, a gwybodaeth feintiol gan staff ac arolygon a gynhaliwyd gan Gymorth i Ddioddefwyr.

Yn ogystal â'r adroddiadau thematig, gwnaethom hefyd ddatblygu:

- **Adroddiadau data canlyniadau:** Roedd yr adroddiadau hyn, a gynhyrchwyd bob chwarter, yn mesur perfformiad y VTP ar draws metrigau y cytunwyd arnynt ac yn nodi bylchau yn argaeledd a/neu ansawdd y data. Roedd yr adroddiadau'n cyd-fynd â'r ddamcaniaeth newid a'r fframwaith canlyniadau, ac yn asesu i ba raddau (a) y gellid mesur canlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir a (b) i ba raddau roeddent yn cael eu cyflawni.
- **Mewnwelediadau diweddaraf:** Cynhyrchwyd yr adroddiadau diweddarau byr hyn yn ôl yr angen ac fe'u cynlluniwyd i helpu'r CPS i nodi cryfderau a gwendidau'n gyflym wrth ddarparu gwasanaethau a llywio newidiadau i brosesau VTP. Roeddent yn cynnwys negeseuon e-bost a chyfarfodydd, lle darparodd Crest astudiaethau achos o arferion da neu rwystrau a galluogwyr penodol ar gyfer darparu gwasanaethau; ac adroddiad mewnwelediad ar gyfathrebu'r CPS â phlant sydd wedi dioddef trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol.

Mae'r **Adroddiad Cryno**, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Adroddiad Technegol, yn dwyn ynghyd wybodaeth o ddwy flynedd o weithgarwch gwerthuso, gan gynnwys mewnwelediadau ar draws yr allbynnau a ddisgrifir uchod. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r canlynol:

- Pa mor effeithiol y mae'r VTP wedi cael ei roi ar waith, gan ystyried y prosesau a'r strwythurau sy'n gysylltiedig â gweithredu a darparu, capasiti a gallu staff, a rhwystrau a galluogwyr mewnol ac allanol (e.e. cysylltiadau â phartneriaid a gallu technolegol).
- Effaith y VTP ar brofiadau dioddefwyr gan gynnwys ansawdd y gwasanaeth maen nhw'n ei gael, eu hymddiriedaeth a'u hyder yn y CPS, a'u llesiant.
- Effaith y VTP ar y System Cyfiawnder Troseddol ehangach, gan gynnwys effeithlonrwydd ac athreuliad dioddefwyr.
- A yw'r VTP yn darparu gwerth am arian i'r CPS. Mae hyn yn adeiladu ar ddadansoddiad cynharach i roi amcangyfrif o fanteision y rhaglen a ddaw yn sgil gwell llesiant i ddioddefwyr a gwell effeithlonrwydd mewnol, a chyfanswm cost adnoddau ar achosion sy'n chwalu oherwydd athreuliad dioddefwyr a'r arbedion posibl o ganlyniad i leihau hyn.

Cyfyngiadau methodolegol

- **Cyfraddau ymateb isel i'r arolwg dioddefwyr:** Mae'r cyfraddau ymateb i arolygon dioddefwyr wedi bod yn gyfyngedig. Ychydig iawn o ymatebion a gafodd rhai arolygon, os

o gwbl, a dim ond arolwg penderfynu cyhuddo Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r arolwg VCL mewn ardaloedd lleol² a gafodd dros 30 o ymatebion. Roedd y cyfraddau ymateb isel yn cyfyngu ar ein gallu i ddadansoddi'r data a chael gwybodaeth ystyrlon ohono. Er enghraifft, ni allem gynnal dadansoddiad casgliadol na chymharu canfyddiadau rhwng gwahanol garfannau o ddioddefwyr (e.e. dioddefwyr gwrywaidd, dioddefwyr benywaidd, ac ati) a phwyntiau cyswllt cyfathrebu.

- **Ymgysylltu uniongyrchol cyfyngedig â dioddefwyr:** Rhwng mis Chwefror 2025 a mis Ionawr 2026, bu Crest yn ymgysylltu â 13 o ddioddefwyr, gan gynnwys un dioddefwr a dderbyniodd Gynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a 12 dioddefwr a dderbyniodd y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO). Gan mai dim ond ag un dioddefwr a dderbyniodd y Gwasanaeth Peilot y gwnaethom ymgysylltu, nid oeddem yn gallu cynnal dadansoddiad manwl na chynnwys canfyddiadau am eu profiad yn yr Adroddiad Cryno, gan y byddai gwneud hynny'n peryglu eu anhysbysedd. Felly, mae'r Adroddiad Cryno yn gyfyngedig o ran faint o wybodaeth uniongyrchol am ddioddefwyr a gafwyd gan y rheini a oedd wedi cael y Gwasanaeth Peilot.
- **Data monitro o ansawdd gwael:** Roedd ansawdd y data a gasglwyd gan y tracwyr gwasanaeth yn amrywio'n sylweddol oherwydd gwahaniaethau mewn arferion cofnodi rhwng ardaloedd a thimau'r CPS. Roedd data anghyflawn a diffyg safoni mewn arferion cofnodi yn cyfyngu ar gwmpas a chadernid ein dadansoddiad. O ganlyniad, fe wnaethom ddefnyddio dadansoddiad cyfunol y CPS wedi'i olygu o'r data fel sail i'n hadroddiadau.
- **Cyflawni'r cynllun peilot fesul cam, ac amserlenni hir i achosion gael eu cwblhau:** Rhoddwyd y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol ar waith yn raddol, gyda gwahanol bwyntiau cyswllt yn cael eu lansio ar wahanol ddyddiadau rhwng diwedd 2024 a chanol 2025. Er enghraifft, dechreuodd Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol anfon cyfathrebiadau penderfynu cyhuddo ddiwedd 2024, a phenderfyniadau NFA a VCL ddechrau 2025, tra bod Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol wedi dechrau anfon cyfathrebiadau penderfynu cyhuddo ddechrau 2025, a phenderfyniadau VCL erbyn canol 2025. Roedd gan y gweithredu graddol hwn ddau oblygiad i'r data gwerthuso. Yn gyntaf, roedd yn cyfyngu ar swm y data, gan mai dim ond o ganol 2025 ymlaen yr oedd data ar gael gan y Gwasanaeth Peilot pan oedd yn gweithredu'n llawn. Yn ail, effeithiodd ar ansawdd y data a oedd ar gael gan fod prosesau cofnodi data yn anghyson yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n arbennig o anodd dadansoddi athreuliad dioddefwyr oherwydd dim ond ar ôl iddynt gael eu cwblhau y gellir cynnwys achosion, sy'n aml yn cymryd misoedd neu hyd yn oed flynyddoedd, yn enwedig ar gyfer RASSO neu achosion o gam-drin domestig. Byddai seilio casgliadau ar achosion sydd wedi'u cwblhau yn rhoi darlun anghywir o'r effaith.

²Anfonwyd yr arolwg VCL i ardaloedd lleol gan Unedau Cyswllt Dioddefwyr (VLU) y tu allan i gwmpas y VTP. Bwriad yr arolwg hwn oedd cynnig llinell sylfaen ar gyfer cyfathrebu VCL cyn ei gyflwyno o dan y VTP.

Fframwaith Gwerthuso

Mae'r fframwaith gwerthuso yn seiliedig ar ddamcaniaeth newid gynhwysfawr a fframwaith canlyniadau. Mae'r fframwaith gwerthuso yn sail i'r holl weithgareddau gwerthuso, gan gynnwys y canlyniadau a fesurwyd, y ffynonellau data a ddefnyddiwyd, a'r dulliau dadansoddi a ddefnyddiwyd.

Damcaniaeth Newid


Ym mlwyddyn gyntaf y gwerthusiad, bu Crest yn gweithio'n agos gydag arweinwyr cyflenwi gwasanaethau a'r VTP ehangach i ddatblygu damcaniaeth newid (ToC) gynhwysfawr. Mae'r ddamcaniaeth newid yn rhoi manylion y canlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir y disgwylir i'r VTP eu cyflawni, ac mae'n mynegi'n glir sut a pham y dylai gweithgareddau penodol arwain at y canlyniadau a ddymunir. Mae'n elfen hanfodol ar gyfer deall sut beth yw llwyddiant ar gyfer y VTP.

Damcaniaethau newid ar lefel gwasanaeth


Cydweithiodd Crest â'r tîm VTP i ddatblygu ToCs lefel gwasanaeth, sy'n cyd-fynd â'r tri gwasanaeth craidd sy'n rhan o'r VTP: y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol, y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO), a'r Ganolfan Rhagoriaeth i Ddioddefwyr (VCE). Fel y dengys y ffigurau isod, mae pob gwasanaeth yn gweithio tuag at yr un canlyniadau tymor hir:

- **Gwella llesiant dioddefwyr a hyder yn y CPS:** Sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwasanaeth cyson o ansawdd uchel gan y CPS.
- **Gwella athreuliad dioddefwyr:** Mae profiad gwell a phroses sydd wedi'i deall yn well yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd dioddefwyr yn tynnu'n ôl o'r broses cyfiawnder troseddol oherwydd materion y gellir eu hosgoi. Mae proses sy'n haws ei deall yn galluogi dioddefwyr i wneud y penderfyniadau iawn iddyn nhw eu hunain, hyd yn oed os yw hynny'n golygu eu bod yn tynnu'n ôl o'r broses yn gynt.
- **Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn effeithlon:** Sicrhau bod staff yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn effeithlon drwy gael yr adnoddau a'r hyfforddiant cywir, eu bod yn cael eu cefnogi gan ddiwylliant sy'n blaenoriaethu dioddefwyr, a'u bod yn fodlon yn eu rolau.


Ffigur 1: Crynodeb o ToC y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol



Ffigur 2: Crynodeb o ToC y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO)



Ffigur 3: Crynodeb o ToC y VCE




Damcaniaethau newid ar lefel gwasanaeth

Yn ogystal â ToCs lefel gwasanaeth, fe wnaethom ddatblygu ToC cyffredinol ar lefel rhaglen. Mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol 2030 y CPS, ac yn mapio'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer dioddefwyr, y CPS a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach.

1. **Canlyniadau Dioddefwyr:** Mae canlyniadau dioddefwyr yn canolbwyntio ar sut mae'r VTP yn gwella profiadau a llesiant dioddefwyr. Mae hyn yn cael ei siapia gan ddioddefwyr sy'n cael gwasanaeth o ansawdd uchel gan y CPS, wedi'i ddiffinio gan gyfathrebu clir ac empathig i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Mae canlyniadau'r VTP hyn sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr yn cysylltu ag egwyddorion [Strategaeth 2030 y CPS:](#)
 - “Mae dioddefwyr a thystion yn cael gwasanaeth cefnogol”
 - “Rydym yn deg yn y ffordd rydym yn mynd i'r afael â'n gwaith”
 - “Rydym yn bwrw ymlaen ag achosion yn brydlon”
 - “Mae'r cyhoedd yn deall yr hyn a wnawn”.
2. **Canlyniadau'r CPS:** Mae canlyniadau'r CPS yn ceisio sicrhau, drwy'r VCE a diwylliant mewnol y CPS, bod gan staff y CPS yr offer, yr wybodaeth a'r cymhelliant angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth rhagorol i ddioddefwyr yn gyson. Mae canlyniadau'r VTP hyn sy'n canolbwyntio ar y CPS yn cysylltu ag egwyddorion Strategaeth 2030 y CPS:
 - “Mae gennym y bobl sydd eu hangen arnom i lwyddo”
 - “Mae ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi”
 - “Mae ein pobl yn gynhyrchol ac yn broffesiynol”
 - “Mae ein pobl yn cael eu galluogi i weithio'n effeithiol”
 - “Mae ein pobl yn glynu wrth safonau cyfreithiol uchel”
 - “Rydym yn bwrw ymlaen ag achosion yn brydlon”
 - “Rydym yn deg yn y ffordd rydym yn mynd i'r afael â'n gwaith”
3. **Canlyniadau'r System Cyfiawnder Troseddol:** Nod canlyniadau'r System Cyfiawnder Troseddol yw gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y System Cyfiawnder Troseddol drwy symleiddio prosesau, lleihau oedi, a gwella'r cydlynw ar draws asiantaethau. Un ffocws allweddol yw lleihau athreuliad dioddefwyr drwy sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth ac felly'n parhau i gymryd rhan drwy gydol eu taith lle bo hynny'n briodol. Yn y pen draw, mae'r canlyniadau hyn yn cyfrannu at greu system decach lle mae cyfiawnder yn cael ei ddarparu'n deg ac yn gyson. Mae canlyniadau'r VTP hyn sy'n canolbwyntio ar y System Cyfiawnder Troseddol yn cysylltu ag egwyddorion Strategaeth 2030 y CPS:
 - “Rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi system cyfiawnder troseddol sy'n gydweithredol”
 - “Rydym yn deg yn y ffordd rydym yn mynd i'r afael â'n gwaith”
 - “Mae'r cyhoedd yn deall yr hyn a wnawn”.

Ffigur 4: Crynodeb o'r ToC lefel rhaglen



Fframwaith Canlyniadau

Mae'r ToCs lefel gwasanaeth a rhaglen yn cael eu hategu gan fframwaith canlyniadau sy'n amlinellu'r dangosyddion perfformiad allweddol, ffynonellau data sylfaenol ac eilaidd, a'r dulliau dadansoddi sydd eu hangen i fonitro cynnydd y VTP a gwerthuso effaith hirdymor.

Mae'n werth nodi bod y ToCs a'r fframwaith canlyniadau yn 'ddogfennau byw' a esblygodd wrth i'r gwaith o weithredu'r VTP fynd rhagddo ac wrth i heriau ymarferol ddod i'r amlwg (o ran casglu data, niferoedd ac ansawdd). Bu Crest yn cysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid allweddol yn y CPS i sicrhau bod y canlyniadau a oedd yn cael eu mesur yn glir ac yn berthnasol.

Bu Crest hefyd yn gweithio'n agos gydag arweinwyr y CPS i sicrhau bod olrhain a gwireddu buddion (ar gyfer y dadansoddiad cost a budd) yn cyd-fynd yn agos â'r rhesymeg a'r canlyniadau a ddiffinnir yn y ToC a'r fframwaith canlyniadau.

Cwestiynau ymchwil

Yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad, fe wnaethom ddefnyddio'r ToC a'r fframwaith canlyniadau i asesu a yw'r VTP yn cyflawni ei ganlyniadau disgwyledig. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r cwestiynau ymchwil allweddol canlynol:

Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol:

- A yw'r cynllun Peilot yn cael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n ei alluogi i gyflawni ei nodau (fel y'u mesurir drwy'r canlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir a amlinellir yn y ToC)?
 - Os ydyw, pa wersi y gellir eu dysgu i sicrhau bod cyflwyno ehangach yn mynd rhagddo'n effeithiol? Beth yw'r amodau a'r galluogwyr angenrheidiol i lwyddo?
 - Os nad ydyw, beth ellir ei wneud i roi'r gwasanaeth ar waith yn effeithiol? Pa rwystrau sydd angen eu goresgyn?
- A yw'r Cynllun Peilot yn cyflawni'r effaith a fwriadwyd?
 - Os ydyw, sut y gellir sicrhau'r effaith fwyaf?
- A yw neu a allai'r Cynllun Peilot gynrychioli gwerth am arian?
 - Pa rannau o'r gwasanaeth sy'n darparu gwerth a ble gellid cael mwy o werth?

Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO):

- A yw'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) sydd newydd gael ei roi ar waith yn cyflawni'r canlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir disgwyledig fel y'u diffinnir drwy'r ToC?
 - Os ydyw, sut y gellir sicrhau'r effaith fwyaf?
 - Os nad ydyw, beth yw'r rhwystrau rhag llwyddo?
 - A oes unrhyw dybiaethau y mae angen eu hailystyried neu ganfyddiadau sy'n awgrymu bod angen ailedrych ar gysail y gwasanaeth?
- A yw'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn cynrychioli gwerth am arian o ran cyflawni Blaenoriaethau Strategol y CPS y mae'n ceisio mynd i'r afael â nhw?
 - Ble gellir gwella'r gwasanaeth er mwyn darparu gwell gwerth am arian?

Canolfan Ragoriaeth i Ddiodefwyr:

- A yw'r VCE yn cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir fel y'u diffinnir drwy'r ToC?
 - Os ydyw, beth yw'r broses ar gyfer sicrhau ei bod yn parhau i iteru a gwella diwylliant y CPS?
 - Os nad ydyw, beth yw'r rhwystrau rhag llwyddo?
- Ble mae'r VCE yn cael yr effaith fwyaf ar gyflawni ei nodau cyffredinol, ac a oes unrhyw feysydd sydd angen mwy o ffocws arnynt i gyflawni newid?

Crynodeb o'r fethodoleg

Defnyddiodd Crest ddulliau cymysg i werthuso'r VTP. Defnyddiodd y dull hwn ddulliau meintiol i ddadansoddi samplau mwy o ddata a dulliau ansoddol i feithrin dealltwriaeth fanwl o brofiadau o'r gwasanaeth VTP, ac roedd yn cynnwys:

- **Ymgysylltu ag ymarferwyr**, gan gynnwys grwpiau ffocws gyda staff y CPS a phartneriaid allanol ym maes plismona a gwasanaethau i ddioddefwyr; astudiaethau arsylwadol o dimau darparu VTP; ac arolygon y CPS.
- **Ymgysylltu â dioddefwyr**, gan gynnwys cyfweiliadau â dioddefwyr sydd wedi cael profiad o wasanaethau VTP ac arolygon mewn mannau cyswllt VTP penodol.
- **Dadansoddiad sampl fach** o lythyrau a anfonwyd gan dimau darparu VTP i ddeall ansawdd y cyfathrebu.
- **Dadansoddiad data OPRA** gan gynnwys data ar athreuliad, VRRs, a chwynion i ddeall effaith y VTP ar effeithlonrwydd sefydliadol ehangach.
- **Dadansoddi data monitro'r CPS** gan gynnwys data lefel gwasanaeth ar alw i roi'r canfyddiadau mewn cyd-destun.

Nodir y dulliau hyn yn fanwl yn yr adrannau canlynol, ochr yn ochr â throsolwg o'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddi cost a budd, ac ystyriaethau moesegol ar draws pob dull.

1. Ymgysylltu ag Ymarferwyr

1a. Cyfweiliadau a grwpiau ffocws

Dyluniad casglu data

Cynhaliodd Crest gyfres o gyfweiliadau a grwpiau ffocws lled-strwythuredig gyda staff y CPS a rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys swyddogion yr heddlu, Swyddogion Gofal Tystion (WCO), Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA), Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA), a gweithwyr proffesiynol ym maes llunio polisiâu yn y sector gwirfoddol a chymunedol sy'n berthnasol i ddarparu'r VTP.

Defnyddiwyd cyfweiliadau i gofnodi disgrifiadau manwl ymarferwyr o'u profiadau o ddarparu gwasanaethau ac unrhyw rwystrau rhag gweithredu. Defnyddiwyd grwpiau ffocws i gasglu amrywiaeth o safbwyntiau a nodi amrywiadau yn y gwasanaethau a ddarperir ar draws ardaloedd CPS.

Dyluniwyd deunyddiau ymgysylltu ansoddol gan gyfeirio at nodau'r broses a gwerthusiadau effaith. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau trafod ar gyfer y cyfweiliadau ac ymgysylltu â grwpiau ffocws yn ogystal â gwybodaeth i gyfranogwyr a dogfennau cydsyniad ar sail gwybodaeth yn unol â fframwaith moesegol y gwerthusiad.

Samplu a recriwtio

Roedd Crest yn dibynnu ar y tîm VTP yn nodi cyfranogwyr gan ddefnyddio dyluniad samplu pwrpasol nad oedd yn seiliedig ar debygolrwydd. Defnyddiwyd y dull hwn i ddewis cyfranogwyr ar sail nodweddion ac arbenigedd penodol a oedd yn berthnasol i ofynion y gwerthusiad, yn hytrach na'u dewis ar hap.

Ar ôl nodi'r cyfranogwyr, anfonodd Crest negeseuon e-bost yn gwahodd staff i'r grŵp ffocws neu'r cyfweiliadau, a rhannodd wybodaeth am y prosiect, y grŵp ffocws neu'r cyfweiliadau, eu hawl i dynnu'n ôl, cyfrinachedd ac anhysbysrwydd, a sut byddai Crest yn defnyddio ac yn storio eu data personol a data sy'n ymwneud â'r prosiect. Ystyriwyd bod derbyn gwahoddiad yn fath o gydsyniad i gymryd rhan yn y prosiect, a gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd a oeddent yn cydsynio i'r ymgysylltu gael ei gofnodi. Yn ystod ail flwyddyn y gwerthusiad, nid oedd modd cynnal grŵp ffocws gydag OICs yr Heddlu gyda phrofiad o gefnogi dioddefwyr a dderbyniodd Gynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol oherwydd diffyg ymatebolrwydd a defnydd.

Dull samplu'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO)

Gydag arweinwyr VTP, nododd Crest chwe ardal CPS ar gyfer ymgysylltu ar gyfer y gwerthusiad o'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO). Dewiswyd yr ardaloedd ar sail meini prawf cynhwysiant penodol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ystod eang o ddulliau cyflenwi gwasanaeth. Dewiswyd chwe ardal CPS (o blith cyfanswm o bedwar ar ddeg) i gydbwysu'r adnoddau sydd ar gael i ymgysylltu â'r gwaith o gasglu mewnwelediadau manwl.

Meini prawf cynnwys ac eithrio

Datblygwyd y meini prawf cynnwys ac eithrio i nodi ac i ddewis ardaloedd sy'n gweithredu'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) mewn gwahanol ffyrdd. Fe wnaethom adolygu data RASSO y CPS ar lefel ardal i ddeall amrywiadau o ran gweithredu, a chytuno â Rheolwr Gwerthuso VTP y CPS i ganolbwyntio ein hymgysylltiad ar chwe ardal CPS. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahaniaethau mewn gweithredu yn yr ardaloedd ar gael yn Nhabl 1.

Tabl 1: Ardaloedd CPS a gymerodd ran yn y gwerthusiad o'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) a'u gwahaniaethau o ran gweithredu

Ardal CPS	Llythyr Penderfyniad i Gyhuddo	Defnydd o PtM ers ei roi ar waith (Awst 2024 ar y cynharaf)	Fformat PtM	Arweinydd PtM	Perthynas partneriaid

Ardal 1	Drafftwyd gan VLO	55% (uchaf)	100% rhithiol	Dan arweiniad erlynydd	Cadarnhaol, rhagweithiol
Ardal 2	Drafftwyd gan yr erlynydd	20%	67% wyneb yn wyneb	Dan arweiniad paragyfreithiwr ar y cyfan	Anhysbys
Ardal 3	Heb ei gyflawni ar hyn o bryd	7% (isaf)	46% wyneb yn wyneb	Dan arweiniad erlynydd, dim presenoldeb paragyfreithiol	Cadarnhaol gydag OICs
Ardal 4	Drafftwyd gan VLO	23%	15% wyneb yn wyneb	Dan arweiniad erlynydd	Cadarnhaol, gyda PtM yn cael ei drefnu drwy OIC
Ardal 5	Drafftwyd gan VLO	8%	23% wyneb yn wyneb	Dan arweiniad erlynydd	Anhysbys
Ardal 6	Drafftwyd gan VLO	13%	86% wyneb yn wyneb	Dan arweiniad erlynydd	Cadarnhaol gyda phartneriaid allanol

Crynodeb o'r ymgysylltu

Mae Tabl 2 yn cynnwys crynodeb o ymgysylltu ag ymarferwyr ar draws dwy flynedd y gwerthusiad.

Tabl 2: Crynodeb o ymgysylltu ag ymarferwyr

Ymgysylltu	Manylion	Dyddiad Cynnal	Meini prawf cynnwys	Y sampl arfaethedig o'i gymharu â'r sampl a gyflawnwyd
Gweithdy gyda staff Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Gweithdy dwy ran gyda phedwar aelod o dîm cyflawni a rheoli Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Awst 2024	Staff rheng flaen a rheolwyr sy'n ymwneud â Chynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol.	Amh
Grwpiau ffocws gyda staff a phartneriaid Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Grŵp ffocws gyda saith aelod o staff yr Uned Gofal Tystion yn Swydd Gaer, Glannau Mersi a De Swydd Efrog ym mis Tachwedd 2024	Tachwedd 2024	Heddluoedd sy'n gweithio gyda'r CPS ar hyn o bryd i gydlynu'r gwaith o gyfleu penderfyniadau cadarnhaol ynghylch cyhuddo i ddioddefwyr.	Gwahoddwyd saith Swyddog Gofal Tystion a gytunodd i gymryd rhan yn y grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda phedwar Swyddog Cyfrifol (OIC) yn Swydd Gaer, Glannau Mersi a De Swydd Efrog ym mis Rhagfyr 2024	Rhagfyr 2024	Heddluoedd sy'n gweithio gyda'r CPS ar hyn o bryd i gydlynu'r gwaith o gyfleu penderfyniadau cadarnhaol ynghylch cyhuddo i ddioddefwyr.	Gwahoddwyd chwech o OICs yr Heddlu a chytunodd pedwar i gymryd rhan yn y grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gydag wyth aelod o dîm cyflawni Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, gan gynnwys dau B2, dau B1, a thri A2 ym mis Chwefror 2025	Chwefror 2025	Staff ar lefelau amrywiol yn ymwneud â darparu'r gwasanaeth.	Gwahoddwyd wyth aelod o staff Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a gytunodd i gymryd rhan yn y grŵp ffocws.
Grwpiau ffocws ar yr Archwiliad Dwfn i'r Llythyr Rhagarweiniol	Grŵp ffocws gyda thri Swyddog Cyswllt Dioddefwyr RASSO o Ogledd Llundain a Thames a Chiltern	Medi 2024	Profiad o ddrafftio'r llythyrau rhagarweiniol fel rhan o Ymgyrch Soteria.	Gofynnwyd am Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr RASSO o chwe ardal CPS.
	Grŵp ffocws gyda phump o OICs yr	Medi 2024	Ymarferwyr o ardaloedd CPS lle nodwyd bod y	Gofynnwyd am OICs yr Heddlu o bum

	Heddlu		CPS yn treialu llythyrau rhagarweiniol fel rhan o Ymgych Soteria.	ardal CPS.
	Grŵp ffocws gyda chwech o Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol o Swydd Derby, Swydd Gaerlŷr, Llundain a Swydd Nottingham	Medi 2024	Ymarferwyr o ardaloedd CPS lle nodwyd bod y CPS yn treialu llythyrau rhagarweiniol fel rhan o Ymgych Soteria.	Gofynnwyd am Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol o chwe ardal CPS.
Grwpiau ffocws ar ddysgu o gyfarfodydd cyn treial gyda Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO)	Grwpiau ffocws (x2) 14 Swyddog Cyswllt Dioddefwyr RASSO o Gymru, Dwyrain Lloegr, Mersi-Swydd Gaer, Gogledd Ddwyrain Lloegr, De Ddwyrain Lloegr, Wessex, a Gorllewin Canolbarth Lloegr	Chwefror 2025	Staff y CPS a phartneriaid o naw ardal CPS (Dwyrain Lloegr; Mersi a Swydd Gaer; Gogledd Ddwyrain Lloegr; De Ddwyrain Lloegr; De Orllewin Lloegr; Cymru; Wessex; Gorllewin Canolbarth Lloegr; a Swydd Efrog a Humberside) sydd â phrofiad o gydlyn, darparu neu gefnogi cyfarfodydd cyn-treial.	Fe wnaethom ofyn am fanylion cyswllt 18 o Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr RASSO ar draws naw ardal CPS a chymerodd 14 ran yn y grŵp ffocws.
	Grwpiau ffocws (x2) Naw VLM/Rheolwr Busnes o Gymru, Dwyrain Lloegr, Mersi-Swydd Gaer, Gogledd Ddwyrain Lloegr, De Ddwyrain Lloegr, De Orllewin Lloegr, Wessex, a Gorllewin Canolbarth Lloegr	Chwefror 2025		Fe wnaethom ofyn am fanylion cyswllt 18 o Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr RASSO ar draws naw ardal CPS a chymerodd naw ran yn y grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda phedwar cyfreithiwr adolygu o Gymru, De Ddwyrain Lloegr, Wessex a Gorllewin Canolbarth Lloegr	Chwefror 2025		Gofynnwyd am fanylion cyswllt naw cyfreithiwr adolygu ar draws naw ardal CPS a chymerodd pedwar ran yn y grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda dau swyddog paragyfreithiol o Gymru a Mersi-Swydd Gaer	Chwefror 2025		Gofynnwyd am fanylion cyswllt naw swyddog neu gynorthwydd paragyfreithiol ar draws naw ardal CPS a chymerodd dau ran yn y grŵp ffocws. Roedd cyfyngiadau ar nifer y swyddogion paragyfreithiol a fynychodd gyfarfod cyn treial wedi lleihau cyfranogiad.

	Grŵp ffocws gyda saith ISVA o Ddwyrain Lloegr, Mersi a Swydd Gaer, De Ddwyrain Lloegr, a Chymru	Chwefror 2025		Gofynnwyd am fanylion cyswllt 18 ISVA ar draws naw ardal CPS ac roedd saith wedi cymryd rhan yn y grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda phedwar OIC yr Heddlu o Ddwyrain Lloegr, Mersi-Swydd Gaer, a De Orllewin Lloegr	Chwefror 2025		Gofynnwyd am fanylion cyswllt 18 OIC yr Heddlu ar draws naw ardal CPS a chymerodd pedwar ran yn y grŵp ffocws. Roedd cyfyngiadau ar nifer y OICs yr Heddlu a fynychodd gyfarfod cyn treial wedi lleihau cyfranogiad.
Grwpiau Ffocws ar Fabwysiadwyr Cynnar y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO)	Grŵp ffocws gyda chwe aelod o staff Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) o ardaloedd 'Mabwysiadwyr Cynnar' ym Mersi-Swydd Gaer a Swydd Efrog a Humberside	Medi 2024	Staff y CPS sy'n ymwneud â threialu Gwasanaeth Ychwanegol RASSO, gan gynnwys Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr RASSO, PBMs a staff cyfreithiol.	Gofynnwyd am fanylion cyswllt chwe i wyth aelod staff ar draws dwy ardal CPS ac roedd chwech wedi cymryd rhan yn y grŵp ffocws.
Grŵp Ffocws ar dempledi llythyrau VCE a chanllawiau	Grŵp ffocws gyda phedwar erlynydd CPS o Ddwyrain Lloegr, Llundain, Wessex, a Swydd Efrog a Humberside	Mawrth 2025	Erlynwyr a ddangosodd ddiddordeb mewn rhannu eu barn ar y broses o baratoi a rheoli cyfathrebiadau VCL sy'n rhoi gwybod i ddioddefwyr am newid cyhuddiad (e.e. Gollwng cyhuddiad, addasiad sylweddol, neu heb gynnig unrhyw dystiolaeth). Wedi'i nodi gan dîm Cyfarwyddiaeth Ddigidol a Gwybodaeth (DID) Pencadlys y CPS drwy Gyfathrebiadau Wythnosol y Pencadlys ar gyfer erlynwyr Ynadon, y Goron a RASSO ac Eiriolwyr y Goron.	Fe wnaethom ofyn am fanylion cyswllt yr erlynwyr a nodwyd gan dîm DID y CPS. Cawsom bedwar cyswllt a chymerodd y pedwar ohonynt ran yn y grŵp ffocws.
Cyfweiliadau ar astudiaeth achos gohirio VLO	Cyfweiliad gydag un VLO y CPS	Medi 2024	Eu profiad o dreialu cyfathrebu â dioddefwyr RASSO ar adeg gohiriad arwyddocaol yn yr achos	Amh
	Cyfweiliad gydag un aelod o staff	Hydref 2024	Nodwyd eu bod wedi cefnogi dioddefwyr a	Amh

	WCU		oedd wedi cael cyswllt gan y VLO adeg y gohirio	
Grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda staff a phartneriaid y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol (Adroddiad y Cynllun Peilot)	Grŵp ffocws gyda phum aelod o staff Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol ³	Gorffennaf 2025	Staff rheng flaen a rheolwyr sy'n ymwneud â Chynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol.	Gwahoddwyd dau A2, tri B1, dau B1, ac un B3 i'r grŵp ffocws.
	Cyfweliad gydag un cyfreithiwr sy'n cefnogi Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Gorffennaf 2025	Cyfreithiwr sy'n ymwneud â chefnogi Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol i ddanfon llythyrau NFA a VCL.	Gwahoddwyd un cyfreithiwr i'r cyfweliad.
	Grŵp ffocws gyda phum Swyddog Cyswllt Dioddefwyr Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol	Gorffennaf 2025	Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn ymwneud â Chynllun Peilot y Gwasanaethau Ychwanegol.	Gwahoddwyd naw Swyddog Cyswllt Dioddefwyr i'r grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda thri VLM Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol	Gorffennaf 2025	VLMs yn ymwneud â Chynllun Peilot y Gwasanaethau Ychwanegol.	Gwahoddwyd pedwar VLM Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol i'r grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda thri aelod o staff Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol, gan gynnwys dau Swyddog Cyswllt Dioddefwyr ac un VLM	Gorffennaf 2025	Staff Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol o ardal Wessex.	Gwahoddwyd dau Swyddog Cyswllt Dioddefwyr ac un VLM i'r grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda phedwar cyfreithiwr a weithiodd gyda Chynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol	Gorffennaf 2025	Cyfreithwyr â phrofiad o ddrafftio llythyrau ar y cyd â Chynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol.	Gwahoddwyd wyth cyfreithiwr i'r grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda phedwar IDVA	Gorffennaf 2025	IDVAs â phrofiad o gefnogi dioddefwyr a dderbyniodd Gynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol.	Gwahoddwyd saith IDVA i'r digwyddiad ymgysylltu.
	Cyfweliad gydag un IDVA	Gorffennaf 2025	IDVAs â phrofiad o gefnogi dioddefwyr a dderbyniodd Gynllun Peilot y Gwasanaeth	

³Yn cynnwys gwahanol raddau o fewn y CPS (dau A2 a thri B1)

			Ychwanegol.	
	Grŵp ffocws gyda chwe WCO	Gorffennaf 2025	WCOs â phrofiad o gefnogi dioddefwyr a dderbyniodd Gynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol neu Ychwanegol.	Gwahoddwyd 24 o Swyddogion Gofal Tystion i'r grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda naw WCO	Gorffennaf 2025	WCOs â phrofiad o gefnogi dioddefwyr a dderbyniodd Gynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol neu Ychwanegol.	
	Chwe chyfweliad gydag uwch arweinwyr polisi ac arweinwyr rhaglenni VTP	Awst a Medi 2025	Uwch arweinwyr rhaglenni a pholisi ar draws y CPS sy'n ymwneud â Chynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol VTP.	Gwahoddwyd chwe uwch arweinydd rhaglenni a pholisi i gyfweliad.
Cyfweliadau â staff RASSO y CPS (Ymgysylltu â Dioddefwyr sy'n Blant: Adroddiad Mewnwelediadau Gwerthuso)	Pum cyfweliad gyda staff RASSO, gan gynnwys pedwar Swyddog Cyswllt Dioddefwyr RASSO ac un Uwch Erlynydd	Awst 2025	Staff y CPS sydd â phrofiad o ymgysylltu â dioddefwyr RASSO sy'n blant.	Gwahoddwyd un Rheolwr Busnes Paragyfreithiol, dau swyddog paragyfreithiol, wyth Swyddog Cyswllt Dioddefwyr, a thri Uwch Erlynydd i gyfweliad.
Grwpiau ffocws gyda staff a phartneriaid RASSO y CPS (Adroddiad Gwasanaeth Ychwanegol [RASSO])	Grŵp ffocws gyda chwe VLO RASSO a phedwar VLM RASSO	Tachwedd 2025	VLOs a VLMs o chwe ardal CPS dethol (a ddisgrifir uchod yn adran ' <u>Dull samplu'r Gwasanaeth Ychwanegol [RASSO]</u> ') sy'n ymwneud â threialu'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO).	Gwahoddwyd deg VLO RASSO a phum VLM i'r grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda phum cyfreithiwr	Tachwedd 2025	Cyfreithwyr adolygu ac erlyn o chwe ardal CPS dethol (a ddisgrifir uchod yn adran ' <u>Dull Samplu'r Gwasanaeth Ychwanegol [RASSO]</u> ') gyda phrofiad o gydlyn gyda'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO).	Gwahoddwyd deuddeg cyfreithiwr adolygu ac erlyn i'r grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda saith	Tachwedd	Swyddogion a chynorthwyywyr	Gwahoddwyd deuddeg swyddog a

	swyddog/cynorthwydd paragyfreithiol	2025	paragyfreithiol o chwe ardal CPS dethol (a ddisgrifir uchod yn adran ' <u>Dull Samplu'r Gwasanaeth Ychwanegol [RASSO]</u> ') gyda phrofiad o gydlynu gyda'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO).	chynorthwydd paragyfreithiol i'r grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda saith o OICs yr Heddlu	Tachwedd 2025	OICs yr Heddlu o chwe ardal CPS dethol (a ddisgrifir uchod yn adran ' <u>Dull samplu'r Gwasanaeth Ychwanegol [RASSO]</u> ') gyda phrofiad o fynychu cyfarfodydd cyn-treial (neu ymgysylltu â Gwasanaeth RASSO os oes diffyg OICs yn mynychu PTMs yn yr Ardal).	Gwahoddwyd pedwar ar bymtheg o OICs yr Heddlu i'r grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda deg WCO	Tachwedd 2025	WCOs o chwe ardal CPS dethol (a ddisgrifir uchod yn adran ' <u>Dull Samplu'r Gwasanaeth Ychwanegol [RASSO]</u> ') gyda phrofiad o gydlynu gyda'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO).	Gwahoddwyd pymtheg WCO i'r grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda phum ISVA	Tachwedd 2025	ISVAs o chwe ardal CPS dethol (a ddisgrifir uchod yn adran ' <u>Dull samplu'r Gwasanaeth Ychwanegol [RASSO]</u> ') gyda phrofiad o fynychu cyfarfodydd cyn-treial (neu ymgysylltu â Gwasanaeth RASSO os oes diffyg ISVAs yn mynychu PTMs yn yr Ardal).	Gwahoddwyd pymtheg ISVA i'r grŵp ffocws.
Grwpiau ffocws gyda staff y CPS a phartneriaid allanol (Adroddiad Safonau Gwasanaeth i Ddioddefwyr VCE)	Grŵp ffocws gyda thri VLM, pedwar VLO, a dau gyfreithiwr	Tachwedd 2025	RVLMS a VLOs o bum ardal benodol y CPS (Gogledd-ddwyrain Lloegr, De-ddwyrain Lloegr, De-orllewin Lloegr, Tafwys a Chiltern, a Gorllewin Canolbarth Lloegr). Dewiswyd ardaloedd CPS ar sail eu hymgysylltiad cyfyngedig hyd yma â'r gwerthusiad a	Gwahoddwyd pedwar VLM, pump VLO, a dau gyfreithiwr i'r grŵp ffocws.

			chytunwyd arnynt gyda Rheolwr Gwerthuso VTP y CPS.	
	Grŵp ffocws gyda phedwar cyfreithiwr a chwe swyddog a chynorthwydd paragyfreithiol	Tachwedd 2025	Swyddogion a chynorthwywyr paragyfreithiol o bum ardal CPS benodol (Gogledd-ddwyrain Lloegr, De-ddwyrain Lloegr, De-orllewin Lloegr, Tafwys a Chiltern, a Gorllewin Canolbarth Lloegr). Dewiswyd ardaloedd CPS ar sail eu hymgysylltiad cyfyngedig hyd yma â'r gwerthusiad a chytunwyd arnynt gyda Rheolwr Gwerthuso VTP y CPS.	Gwahoddwyd pum cyfreithiwr a chwe swyddog a chynorthwydd paragyfreithiol i'r grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gydag wyth Eiriolwr Dioddefwyr	Tachwedd 2025	Rhanddeiliaid allanol mewn rolau llunio polisiâu yn y sector gwirfoddol a chyfiawnder troseddol. Cafodd cysylltiadau cychwynnol eu nodi a'u dewis gan Gyfarwyddiaeth Polisi y CPS.	Gwahoddwyd deg Eiriolwr Dioddefwyr i'r grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda phum lluniwr polisi	Tachwedd 2025	Rhanddeiliaid allanol sy'n gweithio mewn rolau sy'n ymwneud â dioddefwyr fel ISVAs ac IDVAs. Cafodd cysylltiadau cychwynnol eu nodi a'u dewis gan Gyfarwyddiaeth Polisi y CPS.	Gwahoddwyd naw lluniwr polisi i'r grŵp ffocws.
Grwpiau ffocws gyda staff y CPS (Adroddiad Gwerthuso Pecyn Cynefino a Hyfforddiant Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol VCE)	Grŵp ffocws gyda dau VLO a VSO	Tachwedd 2025	Staff nad ydynt yn rheolwyr yng Nghynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a gwblhaodd rywfaint neu'r cyfan o Becyn Cynefino a Hyfforddi'r Gwasanaeth Cyffredinol, gan gynnwys VLOs, VSOs a VSAs.	Gwahoddwyd dau VLO, tri VSO, a phum VSA i'r grŵp ffocws.
	Grŵp ffocws gyda thri VSM	Tachwedd 2025	Staff rheoli yng Nghynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a gwblhaodd rywfaint neu'r cyfan o Becyn Cynefino a Hyfforddi'r Gwasanaeth Cyffredinol, gan gynnwys VSMs	Gwahoddwyd pedwar VSM i'r grŵp ffocws.

Dyluniad casglu data

Cofnododd a thrawsgrifodd Crest bob cyfweiliad a grŵp ffocws i'w dadansoddi. Roeddem wedi defnyddio dull hybrid o gynnal dadansoddiad ansoddol o grwpiau ffocws ymarferwyr i ateb cwestiynau'r gwerthusiad. Roedd hyn yn cynnwys ymgorffori dull anwythol a diddwythol o godio a chynhyrchu thema. Roedd codio diddwythol yn cynnwys adolygu'r data drwy lens gwybodaeth bresennol am y VTP, ac roedd codio anwythol yn caniatáu i fewnwelediadau newydd, annisgwyl gael eu nodi yn y data. Gwnaethom godio a dadansoddi data'r grŵp ffocws a'r cyfweiliadau gan ddefnyddio Google Sheets a meddalwedd NVivo 15.

Sicrhau Ansawdd

Cyn ymgysylltu, cafodd y canllawiau trafod eu treialu'n fewnol yn nhîm Crest a'u rhannu â'r VTP canolog i'w hadolygu a'u cymeradwyo. Rhannwyd yr holl ganllawiau trafod ag arweinwyr gwasanaeth y CPS ymlaen llaw i sicrhau bod y cwestiynau'n adlewyrchu prosesau, terminoleg a darpariaeth gwasanaeth yn gywir. Rhannwyd canllawiau trafod terfynol â'r CPS drwy Sharepoint. Yn dilyn yr adolygiad hwn, ymgorfforwyd unrhyw adborth yn y canllawiau trafod fel y bo'n briodol.

Mae Rheolwr Prosiect Crest a'r Uwch Swyddog Cyfrifol wedi sicrhau ansawdd y dadansoddiad drwyddo draw, gan gynnwys glynu wrth yr egwyddorion a amlinellir yn ein fframwaith moesegol. Yn ein hadroddiadau, mae gwybodaeth o grwpiau ffocws ymarferwyr yn cael ei thriongli â data arall (gan gynnwys data arolwg) i roi mewnwelediad i ddarpariaeth ac effaith ar lefel gwasanaeth.

1b. Astudiaethau arsylwi

Bu Crest yn cysgodi staff y CPS yn y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol yn Lerpwl dair gwaith drwy gydol y gwerthusiad. Roedd hyn yn cynnwys arsylwi staff wrth iddynt gyflawni tasgau a gweithgareddau nodweddiadol, gan gynnwys llunio negeseuon e-bost, gwneud galwadau ffôn, a chofnodi manylion ar systemau rheoli achosion. Nod y gweithgaredd oedd gwella ein dealltwriaeth o lwyth achosion dyddiol nodweddiadol a thasgau'r staff sy'n cyflawni'r cynlluniau peilot, ac egluro prosesau i sicrhau cywirdeb yn ein dadansoddiad a'n hadroddiadau.

Cyn yr ymweliadau, drafftiodd tîm Crest gynllun arsylwi yn amlinellu nodau allweddol yr ymweliad arsylwi, gan gynnwys casglu gwybodaeth am weithgareddau dyddiol staff, profiadau o ran cyswllt â dioddefwyr, amser a dreuliwyd ar draws tasgau, llwyth gwaith a chapasiti, ac offer a ddefnyddiwyd i gyflawni eu gweithgareddau.

Lluniodd Crest nodiadau ar y gweithgareddau a arsylwyd drwy gydol yr ymweliad i roi dadansoddiad ansoddol a meintiol craidd y gwerthusiad mewn cyd-destun ac i lywio ymgysylltiad ymarferwyr.

1c. Arolwg staff cyfan

Dyluniad casglu data

Datblygodd Crest yr arolwg staff mewn partneriaeth ag arweinwyr strategol a gweithredol VTP. Cafodd ei sgriptio gan ddadansoddwyr o Crest a'i gynnal ar Walr, llwyfan arolygu ar-lein wedi'i ardystio gan ISO27001. Diweddarwyd yr arolwg ar ôl blwyddyn 1 mewn cytundeb â Rheolwr VTP y CPS i gyd-fynd â'r blaenoriaethau gwerthuso diweddaraf.

Roedd y rhan fwyaf o gwestiynau'r arolwg yn rhai amlddewis gyda nifer fach o gwestiynau testun agored dewisol i gasglu gwybodaeth ansoddol. Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys nifer o gwestiynau demograffig a chwestiynau sy'n seiliedig ar rôl, fel rôl, oedran, ethnigrwydd, rhywedd ac ardal CPS. Bwriad y cwestiynau hyn oedd ein helpu i ddeall gwahaniaethau o ran safbwyntiau a phrofiadau staff ar draws y CPS. Roedd angen ymateb i bob cwestiwn ar wahân i gwestiynau demograffig.

Cafodd cwestiynau sgrinio eu creu i sicrhau bod staff yn cael cwestiynau a oedd yn berthnasol i'w rôl. Roedd y prif gwestiwn roeddem yn ei ddefnyddio i sgrinio ymatebwyr yn seiliedig ar ymgysylltu â dioddefwyr, gydag ymatebwyr nad ydynt yn ymgysylltu â dioddefwyr yn eu rôl (mewn unrhyw ffordd) yn cael llai o gwestiynau na'r rheini sy'n gwneud hynny.

Er mwyn sicrhau bod staff yn teimlo'n hyderus wrth ymateb i'r arolwg, a darparu ymatebion cywir, gwnaethom gymryd y camau canlynol i sicrhau anhysbysrwydd a chyfrinachedd:

- Yn y cyflwyniad, fe wnaethom gadarnhau ein hymrwymiad i sicrhau bod ymatebion unigol i'r arolwg yn cael eu cadw'n gyfrinachol, gyda chanfyddiadau cyfanredol a dyfyniadau dienw yn unig - dim byd a fyddai'n datgelu manylion personol - yn cael eu rhannu â'r CPS.
- Roedd cwestiynau sy'n seiliedig ar rôl a demograffeg yn ddewisol.

Fe wnaethom ddilysu sgript yr arolwg yn fewnol gyda thîm Crest i gadarnhau hyd, ac yna dilysu defnyddioldeb a chynnwys allanol gyda thîm VTP.

Lledaenu a samplu

Defnyddiodd yr arolwg broses o samplu ymatebion gwirfoddol heb fod ar hap, lle'r oedd cyfranogwyr wedi dewis optio i mewn i gwblhau'r arolwg.

Er mwyn cael cydsyniad, gofynnwyd i staff y CPS a fyddent yn hoffi cymryd rhan yn yr arolwg drwy sianeli cyfathrebu mewnol fel negeseuon e-bost a negeseuon ar y Fewnwrwyd. Ar ôl i staff fynd i

mewn i'r arolwg, fe'u hysbyswyd ar y dechrau y byddai cwblhau'r arolwg yn cael ei ystyried yn gydsyniad ganddynt. Er mwyn sicrhau bod cydsyniad i gymryd rhan yn yr arolwg yn seiliedig ar wybodaeth, roedd yr arolwg yn cynnwys adran wybodaeth fer a oedd yn ymdrin â'r canlynol:

- Pwrpas yr ymchwil
- Pwysigrwydd cydsyniad cyfranogwyr, gan gynnwys y gellir tynnu hyn yn ôl ar unrhyw adeg cyn cyflwyno'r arolwg drwy adael yr arolwg a'i adael yn anghyflawn
- Bydd yr ymatebion hynny i'r arolwg yn ddienw ac ni fydd modd adnabod cyfranogwyr
- Beth fydd yn digwydd i'r data sy'n cael ei gasglu

Dosbarthodd y CPS hysbysiad preifatrwydd a oedd ynghlwm wrth yr arolwg hefyd. Roedd hwn yn amlinellu i'r cyfranogwyr sut byddai Crest yn defnyddio ac yn prosesu eu data, ac yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- Y math o wybodaeth mae Crest yn ei chasglu
- Sail gyfreithlon Crest ar gyfer prosesu'r data hwn a hawliau cyfreithiol cyfranogwyr sy'n ymwneud â'r data hwn
- Pwy fydd yn cael gweld yr wybodaeth hon
- Sut bydd Crest yn defnyddio'r data hwn.

Tra bod yr arolwg yn fyw, buom yn gweithio gyda'r CPS i fonitro'r ymatebion ac i hyrwyddo'r arolwg mewn ardaloedd lle roedd y cyfraddau ymateb yn isel. Roedd hyn yn bwysig er mwyn gwella cyfraddau ymateb o feysydd diddordeb allweddol (h.y. gan rai rolau staff ac ardaloedd CPS).

Y sampl terfynol

Aeth arolwg staff blwyddyn 1 yn fyw ar 27/01/25 ac roedd ar agor am dair wythnos, gan gau ar 14/02/25. Roedd yn agored i holl staff y CPS, gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt rolau sy'n ymdrin â dioddefwr. At ei gilydd, roedd gan yr arolwg gyfradd ymateb o 10%, gyda 775 o ymatebion o gyfanswm poblogaeth y CPS o 7,664.

Aeth arolwg staff blwyddyn 2 yn fyw ar 19 Ionawr 2026 ac roedd ar agor am bedair wythnos, gan gau ar 14 Chwefror. Roedd yn agored i holl staff y CPS, gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt rolau sy'n ymdrin â dioddefwr. At ei gilydd, roedd gan yr arolwg gyfradd ymateb o 8%, gyda 631 o ymatebion o gyfanswm poblogaeth y CPS o 7,664.

Er bod cyfraddau ymateb i'r arolwg ar ben uchaf y cyfraddau ymateb disgwyledig ar gyfer arolygon staff gwirfoddol (5-10%), oherwydd diffyg data demograffig staff sydd ar gael gan y CPS, ni allwn gadarnhau pa mor gynrychioliadol oedd yr arolwg o'r holl staff ar draws y CPS.

Manylion glanhau data

Ar ôl cau'r arolwg, cafodd data crai yr arolwg ei allgludo a'i lanhau drwy'r camau canlynol:

- **Ailgodio ymatebion a fewnbynnwyd yn anghywir:** Cafodd yr ymatebion i gwestiynau demograffig a chwestiynau sy'n seiliedig ar rôl eu hailgodio mewn achosion lle'r oedd yn ymddangos eu bod wedi'u mewnbynnu'n anghywir - er enghraifft, lle'r oedd ymatebwyr wedi dewis 'Arall (rhowch fanylion)' ac wedi darparu ymateb a oedd yn cynnwys opsiynau ateb eraill.
- **Adolygu a dileu ymatebion 'cyflym'.** Ystyriwyd bod yr ymatebion hyn wedi cael eu cwblhau'n rhy gyflym i fod wedi ymateb yn gywir i bob cwestiwn. Adolygwyd yr ymatebion a gwblhawyd mewn llai na thri munud, a lle'r oedd yr ymatebion yn ymddangos yn annilys neu o ansawdd gwael, cafodd y rhain eu hepgor o'r dadansoddiadau. Cafodd un ymateb ei dynnu ym mlwyddyn 1.

Cafodd ymatebion rhannol eu cynnwys yn ein dadansoddiad.

Manylion dadansoddi data

Dadansoddiad o arolwg Blwyddyn 1

Ar ôl glanhau'r data, cafodd ei brosesu i gynhyrchu tablau data gyda chroes-doriadau i'w dadansoddi. Defnyddiwyd y croes-doriadau canlynol ar gyfer blwyddyn 1:

- Ymgysylltu â dioddefwyr:
 - Y rheini sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â dioddefwyr;
 - Ymgysylltu'n anuniongyrchol â dioddefwyr (neu gefnogi ymgysylltu â dioddefwyr); neu
 - ddim yn ymgysylltu â dioddefwyr o gwbl.
- Rôl y CPS:
 - Erlynwyr a rheolwyr cyfreithiol: Diffiniwyd fel y rheini a oedd wedi'u codio fel M1 / DCP (lefel D), LM2 / SDCP (Lefel E), Uwch Erlynnydd Arbenigol, Erlynnydd Arbenigol, Uwch Erlynnydd y Goron, Erlynnydd y Goron, Erlynnydd Cyswllt (1 a 2)
 - VLOs: Diffiniwyd fel pobl a oedd wedi'u codio fel Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr a Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr RASSO
 - Uwch arweinyddiaeth: Diffiniwyd fel pobl a oedd yn wedi'u codio fel CCP, DCCP, neu ABM.
- Ardal CPS:
 - Ardaloedd y cynllun peilot (Mersi-Swydd Gaer a Swydd Efrog a Humber)
 - Ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot (pob ardal arall).

I ddadansoddi'r arolwg, defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys:

- **Dadansoddiad disgrifiadol** i grynhoi ac i ddelweddu patrymau ymateb cyffredinol
- **Dadansoddiad casgliadol** i archwilio gwahaniaethau rhwng grwpiau a nodi tueddiadau arwyddocaol. Gan nad oedd y data'n dilyn dosbarthiad normal, defnyddiwyd profion amharametrig (yn benodol, Prawf U Mann-Whitney a'r prawf Kruskal-Wallis). Mae'r profion hyn yn darparu gwerth-p; mae gwerth-p o 0.05 neu is yn awgrymu nad yw'r gwahaniaeth a welir rhwng y ddwy sampl yn debygol o gael ei arsylwi ar hap ac felly bod y gwahaniaeth yn real.
- **Dau ddadansoddiad atchweliad** i archwilio'r cysylltiadau rhwng canfyddiadau staff a ffactorau penodol. Gwnaethom ddatblygu dau fodel ystadegol gan ddefnyddio dadansoddiadau atchweliad logistaidd, a oedd yn cynnwys pum newidyn dryslyd a nodwyd drwy ddadansoddiad cydberthynas.

Dadansoddiad o arolwg Blwyddyn 2

Ar ôl glanhau'r data, cafodd ei brosesu i gynhyrchu tablau data gyda chroes-doriadau i'w dadansoddi. Defnyddiwyd y croes-doriadau canlynol ar gyfer blwyddyn 2:

- Ymgysylltu â dioddefwyr:
 - Y rheini sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â dioddefwyr;
 - Ymgysylltu'n anuniongyrchol â dioddefwyr (neu gefnogi ymgysylltu â dioddefwyr); neu
 - ddim yn ymgysylltu â dioddefwyr o gwbl.
- VLO/VLM ym mhob gwasanaeth:
 - **Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol:** Swyddog / Cynorthwydd Gwasanaeth Dioddefwyr (Gwasanaeth Cyffredinol) a Rheolwr Gwasanaeth Dioddefwyr (Gwasanaeth Cyffredinol)
 - **Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol:** Swyddog Cyswllt Dioddefwyr Cam-drin Domestig Ychwanegol a Rheolwr Cyswllt Dioddefwyr Cam-drin Domestig Ychwanegol
 - **Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO):** Swyddog Cyswllt Dioddefwyr RASSO a Rheolwr Cyswllt Dioddefwyr RASSO
 - **BAU VLU:** Swyddog Cyswllt Dioddefwyr a Rheolwr Uned Cyswllt Dioddefwyr
- Rôl y CPS:
 - **Erlynwyr a rheolwyr cyfreithiol**
 - **VLOs:**
 - **Pencadlys**
- Ardaloedd y CPS: Pencadlys, Cymru, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Dwyrain Lloegr, Gogledd Llundain, De Llundain, Mersi a Swydd Gaer, Gogledd Ddwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr, De Ddwyrain Lloegr, De Orllewin Lloegr, Dyffryn Tafwys a Chiltern, Wessex,

Gorllewin Canolbarth Lloegr (gan gynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain), Swydd Efrog a Humberside, CPS Direct, Cyfarwyddiaeth Ryngwladol a Throseddau Cyfundrefnol Economaidd Difrifol (SEOCID), Is-adran Troseddu Arbennig a Gwrthderfysgaeth (SCCTD).

Gwnaethom ddefnyddio dadansoddiad disgrifiadol i grynhoi ac i ddelweddu patrymau ymateb cyffredinol i holl gwestiynau'r arolwg.

1d. Arolwg hyfforddi a chynefino staff Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol

Dyluniad casglu data

Cynhaliodd Crest arolwg o dîm Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol fel rhan o'r gwerthusiad o becyn Cynefino a Hyfforddi'r Gwasanaeth Cyffredinol. Cafodd yr arolwg ei gyd-ddylunio gyda thimau gwerthuso VTP, VCE a gwasanaethau dysgu i fesur mesurau llwyddiant allweddol mewn perthynas ag ansawdd ac effaith.

Lledaenu a samplu

Defnyddiodd yr arolwg broses o samplu ymatebion gwirfoddol heb fod ar hap, lle'r oedd cyfranogwyr wedi dewis optio i mewn i gwblhau'r arolwg. Cafodd ei rannu â thîm cyfan Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol ym mis Tachwedd 2025, ar ôl i'r rhan fwyaf o'r staff gwblhau'r hyfforddiant. Nid oedd arolwg 'cyn-hyfforddiant' yn ymarferol oherwydd bod yr hyfforddiant wedi cael ei gyflwyno fesul cam ac oherwydd amseru'r gwerthusiad. Roedd hyn yn cyfyngu ar gywirdeb a dibynadwyedd canfyddiadau sy'n ymwneud â chanfyddiadau staff o'u gwybodaeth a'u sgiliau cyn yr hyfforddiant. Cafwyd cyfanswm o 19 o ymatebion i'r arolwg (allan o 21 posibl).

Manylion dadansoddi data

Cynhaliodd Crest ddadansoddiad disgrifiadol o'r data hwn i ddeall tueddiadau o ran ansawdd ac effaith gyffredinol yr hyfforddiant.

1e. Arolwg hyfforddi staff Llys y Goron

Dyluniad casglu data

Nododd y CPS angen strategol i wella gallu staff i ymgysylltu â dioddefwyr a chyfathrebu â nhw. Mewn ymateb, fe wnaethant ddatblygu a darparu hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer staff cyflawni gweithredol. Roedd hyn yn rhan o fenter uwchsgilio ehangach ac roedd wedi'i strwythuro ar draws gwahanol fodiwlau, gyda modiwl eDdysgu (Modiwl 2) a modiwl dysgu Modiwl 3 'Empathi ar Waith'. Gwerthusodd Crest y cynllun peilot hyfforddiant Modiwl 3 'Empathi ar Waith', a gyflwynwyd fel sesiwn hanner diwrnod gan brofi dau ddull cyflwyno posibl.

Dosbarthodd Crest ddau arolwg i asesu ansawdd a fformat cyflwyno'r hyfforddiant a oedd yn cael ei dreialu. Roedd dau bwrpas i'r arolygon:

- Asesu ansawdd yr hyfforddiant ac a oedd yn cyflawni amcanion dysgu'r modiwl.

- Gwerthuso a oedd gwahaniaeth sylweddol mewn canlyniadau yn seiliedig ar y dull cyflwyno - yn benodol a oedd dulliau hyfforddi wyneb yn wyneb (F2F) neu hyfforddiant rhithwir dan arweiniad hyfforddwr (VILT) wedi arwain at wahanol lefelau o ymgysylltu a chanlyniadau dysgu.

Defnyddiodd y gwerthusiad ddyluniad cyn ac ar ôl, gyda dull samplu haenedig ar hap yn cael ei ddefnyddio i neilltuo cynrychiolwyr hyfforddi i naill ai'r garfan F2F neu VILT. Roedd y strata'n cynnwys:

- Swydd (Rheolwr Llys y Goron, Cynorthwydd Paragyfreithiol, Swyddog Paragyfreithiol)
- Rhywedd (Gwryw, Benyw)
- Amser yn y Swydd (hyd at flwyddyn, un i bum mlynedd, dros bum mlynedd).

Roedd y garfan lawn yn cynnwys 66 o gynrychiolwyr, ond roedd rhai eisoes wedi cael eu dyrannu ymlaen llaw i ddulliau cyflwyno penodol gan ardaloedd CPS. O ganlyniad, o'r 66 cynrychiolydd, dim ond 41 a ddyrannwyd ar sail haenu ar hap. Newidiodd nifer fach (o dan bump) o'r cynrychiolwyr y dull cyflwyno yn ystod yr arbrawf am resymau ymarferol (e.e. salwch, argaeledd oherwydd anghenion cystadleuol). Darparodd yr un tiwtoriaid hyfforddiant F2F a VILT i leihau rhagfarn mewn canlyniadau.

Cafodd dau arolwg eu creu, i'w dosbarthu i'r ddwy garfan - un cyn i'r hyfforddiant gael ei gwblhau, ac un ar ôl yr hyfforddiant. Creodd yr arolwg 'cyn' linell sylfaen ar gyfer dealltwriaeth cynrychiolwyr o'r pynciau dan sylw, eu hyder wrth gwblhau'r tasgau a drafodwyd yn hyfforddiant Modiwl 3, p'un a oeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant rhagofynnol, a'u disgwyliad ar gyfer hyfforddiant Modiwl 3. Roedd yr arolwg 'ar ôl' yn cynnwys yr un cwestiynau ynghylch hyder a dealltwriaeth er mwyn gallu mesur newidiadau yn y canfyddiadau hyn cyn ac ar ôl cwblhau'r hyfforddiant. Roedd yr arolwg 'ar ôl' hefyd yn cynnwys cwestiynau manwl am ganfyddiadau'r cynrychiolwyr o'r hyfforddiant - er enghraifft, bodlonrwydd â'r hyfforddiant, pa mor ddiddorol oedd yr hyfforddiant, eglurder yr esboniadau/enghreiffiau, yr hyfforddwyr, yn ogystal â meysydd cryfder a datblygiad pellach. Y bwriad oedd nodi unrhyw wahaniaethau mewn ansawdd oherwydd y dull cyflwyno yn ogystal ag ansawdd cyffredinol yr hyfforddiant. Cafodd yr arolygon eu sgriptio gan Crest a'u cynnal ar lwyfan arolwg WALR.

Lledaenu a samplu

Dosbarthodd Crest rag-arolygon i gynrychiolwyr yr wythnos cyn iddynt gwblhau'r hyfforddiant. Er mwyn sicrhau'r cyfraddau ymateb gorau posibl, gweithiodd Crest mewn cydweithrediad agos â'r CPS i anfon negeseuon e-bost atgoffa drwy gydol cyfnod yr arolwg, gan helpu i gynnal cyfranogiad cyson ar draws y ddau fformat hyfforddi. Dosbarthwyd yr arolwg wythnos ar ôl i'r cynrychiolwyr gwblhau'r hyfforddiant ac unwaith eto, cydweithiodd y CPS a Crest i atgoffa'r cynrychiolwyr i gwblhau eu harolygon. Cafodd y cynrychiolwyr ddolenni arolwg unigryw drwy e-bost ar gyfer yr

arolygon cyn ac ar ôl yr hyfforddiant, a oedd yn golygu bod modd olrhain ymatebion unigol yn gywir a chefnogi Crest a'r CPS i fynd ar drywydd unigolion perthnasol yn unig.

Cafodd yr holl arolygon eu cwblhau rhwng 28 Chwefror a 19 Mawrth, 2025. Roedd yr union ddyddiadau ar gyfer pob unigolyn yn amrywio yn ôl pryd y trefnwyd eu sesiwn hyfforddi.

Y sampl terfynol

Cafwyd cyfradd ymateb uchel i'r arolygon, ac roedd y ddwy garfan yn cyfateb yn dda ar draws newidynnau demograffig a phroffesiynol allweddol, gan roi hyder bod y canfyddiadau'n gadarn ac yn annhebygol o gynnwys rhagfarn. O'r 66 o gynrychiolwyr a ddewiswyd yn wreiddiol i gymryd rhan yn yr hyfforddiant, ymatebodd 77% i'r arolwg cyn yr hyfforddiant, a chwblhaodd 72% yr arolwg ar ôl yr hyfforddiant.

Arolwg cyn yr Hyfforddiant:

- **Cyfanswm yr ymatebion:** 51 cynrychiolydd
- **Rhywedd:** 71% benywaidd, 29% gwrywaidd
- **Hyd gwasanaeth:** Roedd 39% wedi bod gyda'r CPS am 1-2 flynedd
- **Swydd:** Roedd 49% yn Gynorthwywyr Paragfreithiol.

Arolwg ar ôl yr Hyfforddiant:

- **Cyfanswm yr ymatebion:** 48 cynrychiolydd
- **Rhywedd:** 79% benywaidd, 21% gwrywaidd
- **Hyd gwasanaeth:** Roedd 35% wedi bod gyda'r CPS am 1-2 flynedd
- **Rôl:** Roedd 48% yn Gynorthwywyr Paragfreithiol.

Er mwyn asesu newid ar lefel unigol rhwng yr arolygon cyn ac ar ôl yr hyfforddiant, defnyddiwyd sampl pâr o 43 o gynrychiolwyr. Yn y sampl gyfatebol hon:

- roedd 77% yn fenywod
- roedd 51% yn Gynorthwywyr Paragfreithiol
- roedd 37% wedi bod gyda'r CPS am 1-2 flynedd.

O fewn y grŵp cyfatebol, roedd 54% wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant F2F ac roedd 46% wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant VILT.

Manylion glanhau data

Dim ond arolygon wedi'u cwblhau'n llawn a gynhwyswyd yn y dadansoddiad disgrifiadol i sicrhau dibynadwyedd a chysondeb y canfyddiadau. O ystyried pa mor gryno oedd yr arolwg, ni chafodd hyd yr amser ymateb ei ddefnyddio fel maen prawf hidlo. Cafodd yr holl ddata ei allgludo o WALR

ar 18 Mawrth 2025, ac ni chafodd unrhyw gyflwyniadau a gafwyd ar ôl y dyddiad hwn eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Yn ystod cam yr arolwg cyn yr hyfforddiant, nodwyd bod un cyfranogwr wedi cyflwyno dau ymateb. Ar ôl adolygu, cafodd yr ymateb cyntaf ei gadw i'w ddadansoddi, gan fod yr ail yn dangos newid nodedig a disymwth - o adrodd am hyder isel i hyder uchel - gan awgrymu'r posibilrwydd o ragfarn ymateb neu anghysondeb.

Manylion dadansoddi data

Defnyddiodd dadansoddiad yr arolwg ystadegau disgrifiadol a chasgliadol:

- **Dadansoddiad disgrifiadol** i grynhoi ac i ddelweddu patrymau ymateb cyffredinol arolwg ar draws y ddau arolwg
- **Dadansoddiad casgliadol** i archwilio gwahaniaethau rhwng grwpiau a nodi tueddiadau arwyddocaol. Gan nad oedd y data'n cael ei ddosbarthu fel arfer, cynhaliwyd prawf U Mann-Whitney.

2. Ymgysylltu â dioddefwyr

2a. Grŵp cyd-ddylunio profiad bywyd

Ym mlwyddyn gyntaf y gwerthusiad VTP, fe wnaethom gwrdd bob chwarter â grŵp o saith unigolyn a oedd â phrofiad personol a phroffesiynol o'r CPS. Rhoddodd y grŵp cyd-ddylunio hwn wybodaeth ac adborth gwerthfawr a ymgorfforwyd gennym yn ein gwaith o ddylunio a chyflawni'r gwerthusiad, yn enwedig o ran y pynciau canlynol:

- Deall anghenion dioddefwyr;
- Ein dull o ymgysylltu;
- Hygyrchedd deunyddiau ymchwil;
- Ffyrdd o gynnwys y sector cymunedol gwirfoddol.

Yn ail flwyddyn y gwerthusiad, fe wnaethom gynnull grŵp cyd-ddylunio o eiriolwyr dioddefwyr a oedd yn ein galluogi i ddysgu o brofiad rheng flaen o weithio gyda dioddefwyr. Cyfarfu'r grŵp hwn o bump o unigolion (yn bennaf mewn rolau ISVA ac IDVA) ddwywaith i ddarparu mewnbwn a her adeiladol ar y dulliau gwerthuso a'r adnoddau ymchwil canlynol:

- Adolygu a phrofi cryfder addasiadau hygyrchedd a llwybrau ar gyfer ymgysylltu â dioddefwyr (yn seiliedig ar brofiad o anghenion dioddefwyr amrywiol);

- Trafod risgiau cyd-destunol/diogelu i ddioddefwyr (gan gynnwys risgiau cyd-destunol gwahanol i wahanol garfannau);
- Archwilio opsiynau i gryfhau ac i ehangu cydweithrediad ISVA ac IDVA â'r gwerthusiad i wella cyfranogiad dioddefwyr mewn arolygon a chyfweliadau.

Rhoddwyd tâl cydnabyddiaeth neu rodd i'r holl aelodau cyd-ddylunio (neu i'w sefydliad) i gydnabod eu hamser a mynegi ein diolch am eu mewnbwn.

Yn ogystal â'r grwpiau cyd-ddylunio hyn, fe wnaethom fynychu sesiynau gyda dau grŵp o ddioddefwyr â phrofiad bywyd sy'n cael eu rhedeg gan Gymorth i Ddioddefwyr ac Ymddiriedolaeth y Goroeswyr ar ran y CPS. Fe wnaethom ofyn am fewnbwn ar y dulliau gwerthuso a'r dull gweithredu gan y ddau grŵp i lywio'r gwaith parhaus o fireinio ymgysylltu â dioddefwyr.

2b. Cyfweliadau â dioddefwyr

Dyluniad casglu data

Cynigiodd Crest gyfweliadau lled-strwythuredig i ddioddefwyr a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) i ddeall eu profiadau a'u safbwyntiau ar y cyfathrebu a'r cymorth a gawsant gan y CPS. Cynigiwyd cyfweliadau ar-lein neu wyneb yn wyneb ar adeg ac mewn lleoliad a oedd yn gyfleus i bob cyfranogwr. Rhannwyd taflenni gwybodaeth a ffurflenni cydsynio â phob cyfranogwr cyn y cyfweliad.

Roedd y cyfweliadau'n ystyriol o drawma, gan ddefnyddio dull a oedd yn cael ei arwain gan y dioddefwr. Eglurodd hwyluswyr Crest fod pob cwestiwn yn ddewisol ac y gallent gymryd seibiant neu ddod â'r cyfweliad i ben ar unrhyw adeg. Roedd cyfarfod ymlaen llaw â phob cyfranogwr yn gyfle i hwyluswyr Crest feithrin perthynas, egluro pwrpas y cyfweliad a'r gwerthusiad, ac ateb unrhyw gwestiynau am y cyfweliad. Roedd hyn hefyd yn gyfle i ddioddefwyr rannu unrhyw wybodaeth am bynciau i'w hosgoi, sbardunau neu ofynion hygyrchedd. Gallai cyfranogwyr wahodd eu gweithiwr cymorth (er enghraifft, eu Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol) neu oedolyn dibynadwy i'w cefnogi yn ystod y cyfweliad yn ôl yr angen.

Rhannwyd taleb i bob cyfranogwr ar ôl y cyfweliad i gydnabod eu hamser ac i ddiolch iddynt am gymryd rhan. Gweler '[Ystyriaethau Moesegol](#)' i gael rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu.

Samplu a recriwtio

Defnyddiwyd dyluniad samplu cyfleus gennym i ganfod dioddefwyr a oedd â diddordeb ac a oedd ar gael i gymryd rhan mewn cyfweiliad. Lluniodd Crest daflen wybodaeth i Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr a gwasanaethau i ddioddefwyr ei rhannu'n uniongyrchol â dioddefwyr a oedd wedi derbyn gwasanaeth o dan VTP. Roedd y daflen wybodaeth yn cynnwys dolen a chod QR i ddioddefwyr gofrestru i gymryd rhan mewn cyfweiliad. Gallai dioddefwyr hefyd roi cydsyniad i'w gwybodaeth gyswllt gael ei rhannu gan y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr neu weithiwr cymorth yn uniongyrchol â Crest drwy e-bost diogel. Cysylltodd hwyluswyr Crest â'r holl ddioddefwyr a fynegodd ddiddordeb mewn cymryd rhan i rannu rhagor o wybodaeth am y cyfweiliad a'r gwerthusiad, ac i gynnig cyfarfod ymlaen llaw i ateb unrhyw gwestiynau a threfnu'r cyfweiliad.

Rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2025, fe wnaethom gynnal 12 cyfweiliad â dioddefwyr sy'n oedolion a dderbyniodd y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO).

Roedd yna heriau sylweddol o ran recriwtio dioddefwyr i gael cyfweiliad, sy'n debygol o fod o ganlyniad i'r amgylchiadau anodd y mae dioddefwyr ynddynt tra bo'r achos yn fyw, gyda chyfranogiad mewn ymchwil yn flaenoriaeth is i lawer o ddioddefwyr. Adolygwyd y broses ar gyfer ymgysylltu â dioddefwyr yn barhaus gyda thîm gwerthuso VTP a grwpiau cyd-ddylunio o ddioddefwyr a goroeswyr i sicrhau bod ein dull gweithredu a'n deunyddiau ymchwil yn hygyrch.

Manylion dadansoddi

Dadansoddwyd y cyfweiliadau gan ddefnyddio dull thematig anwythol a diddwythol cyfun yn NVivo Fersiwn 15 i nodi themâu allweddol.

2c. Grwpiau ffocws dioddefwyr

Ym mis Hydref 2024, hwylusodd Ymddiriedolaeth y Goroeswyr bedwar grŵp ffocws o bell ar ran y gwerthusiad gyda deg dioddefwr trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol er mwyn deall eu safbwyntiau a'u profiadau o gyfathrebiadau llythyr rhagarweiniol gan y CPS. Roedd un o'r deg cyfranogwr wedi cael llythyr rhagarweiniol; ac nid oedd naw wedi cael llythyr, neu nid oeddent yn cofio cael llythyr. Dadansoddwyd yr wybodaeth o'r grwpiau ffocws hyn yn thematig a hysbysodd adroddiad interim ar ddefnyddio llythyrau rhagarweiniol.

Ym mis Ionawr 2026, hwylusodd Crest grŵp ffocws gyda dioddefwyr a gefnogwyd gan Galop i hysbysu ein dealltwriaeth o anghenion a gofynion dioddefwyr ar gyfer cymorth y CPS. Defnyddiwyd y mewnwelediad hwn yn yr Adroddiad Cryno i gydgrynhoi a rhoi cyd-destun i'n dealltwriaeth o wasanaeth o ansawdd uchel.

2d. Ffurflenni adborth

Creodd Crest ffurflen ar-lein ar gyfer dioddefwyr a dderbyniodd wasanaeth o dan y VTP i rannu adborth ysgrifenedig dienw ar eu profiad, gan gynnwys sut roedd cyfathrebu gan y CPS yn gwneud iddynt deimlo. Rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2025, cawsom adborth gan ddau ddioddefwr a dderbyniodd y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) drwy'r ffurflen ar-lein. Cafodd yr adborth hwn ei ddadansoddi'n thematig a'i gynnwys yn yr Adroddiad Cryno ochr yn ochr â gwybodaeth o gyfweiliadau â dioddefwyr.

2e. Arolygon Dioddefwyr Crest

Trosolwg o arolygon dioddefwyr

Mae 14 o arolygon dioddefwyr yn fyw ar hyn o bryd. Mae Tabl 3 'Ymatebion i'r holl arolygon dioddefwyr ar 4 Chwefror 2026' yn yr [adran Lledaenu a samplu](#) isod yn amlinellu'r holl arolygon dioddefwyr, y dyddiad yr aethon nhw'n fyw, a'r ymatebion presennol.

Dyluniad casglu data

Mae pob arolwg dioddefwyr yn gysylltiedig â phwynt cyswllt a gwasanaeth penodol, sy'n ein galluogi i ddeall profiadau dioddefwyr yn well ar wahanol gamau yn y broses cyfiawnder troseddol a chymharu carfannau o ddioddefwyr.

Dyluniwyd yr arolygon mewn ymgynghoriad ag arweinwyr gwasanaeth VTP a staff rhaglenni. Mae'r gwaith maes ar gyfer pob arolwg yn barhaus, ac mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn anfon dolenni at ddioddefwyr ochr yn ochr â gohebiaeth reolaidd gan y CPS.

Er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn teimlo'n hyderus yn rhannu eu profiadau heb fod mewn perygl o gael eu hadnabod, rhoddodd Crest y mesurau canlynol ar waith:

- Roedd cyflwyniad yr arolwg a'r daflen wybodaeth gysylltiedig yn nodi'n glir ein hymrwymiad i gadw anhysbysrwydd a chyfrinachedd ymatebwyr.
- Tynnwyd sylw at annibyniaeth yr arolwg yn y daflen wybodaeth, gan nodi bod yr arolwg yn cael ei weinyddu gan werthuswr annibynnol, ac nid gan y CPS. Atgyfnerthwyd annibyniaeth yr arolwg ymhellach drwy frandio a fformatio deunyddiau'r arolwg yn ofalus.
- Gofynnwyd i'r ymatebwyr beidio â chynnwys unrhyw wybodaeth personol nac adnabyddadwy yn eu ymatebion testun agored.
- Dim ond yn eu crynswth yr adroddwyd ar y canfyddiadau, ac roedd unrhyw ddyfyniadau a gynhwyswyd yn ddienw i sicrhau nad oedd unrhyw wybodaeth adnabyddadwy yn cael ei rhannu â'r CPS.

Mae'r CPS yn gyfrifol am sicrhau bod dolenni i'r arolwg yn cael eu cynnwys mewn cyfathrebiadau presennol i leihau'r risg o gael effaith negyddol ar lesiant dioddefwyr drwy anfon gohebiaeth ychwanegol atynt gan Crest neu'r CPS.

Lledaenu a samplu

Dyluniwyd arolygon dioddefwyr i fesur effaith y cyfathrebu y mae'r CPS yn ei anfon at ddioddefwyr. Er mwyn cynyddu ein hyder i fesur unrhyw effaith o ganlyniad i'r cyfathrebu (heb ffactorau eraill a oedd yn drysu'r mesur), rhannwyd arolygon gan y CPS ynghyd â'r cyfathrebiadau hynny, er mwyn cael ymateb ar unwaith i'r ffordd y mae dioddefwyr wedi derbyn y cyfathrebiad. Roedd hyn yn well na dosbarthu arolygon dioddefwyr yn unol ag amserlen benodol (e.e. bob chwarter) gan ei fod yn mesur yr effeithiau a fwriadwyd ar yr adeg y disgwylir iddynt ddigwydd (fel y nodir yn y ddamcaniaeth newid a'r fframwaith canlyniadau) ac yn gwneud mwy na chofnodi canfyddiadau a phrofiadau cyffredinol dioddefwyr yn unig.

Mae set gyson o gwestiynau wedi'u cynnwys ym mhob arolwg er mwyn gallu cymharu pwyntiau cyfathrebu a mynd i'r afael â'r canlyniadau hirdymor allweddol a nodir yn y ddamcaniaeth newid. Mae ymatebion i'r arolwg yn ddienw ac felly ni ellir cysylltu canlyniadau'r arolwg â manylion achosion hysbys, er bod rhywfaint o ddata demograffig yn cael ei gasglu.

Arolygu dioddefwyr ym mhob pwynt cyswllt allweddol oedd y ffordd fwyaf cadarn o fesur pob rhyngweithiad ac roedd yn ein galluogi i ofyn cwestiynau wedi'u targedu. Roedd dosbarthu dolen yr arolwg i bob dioddefwr yn sicrhau bod pob dioddefwr yn cael cyfle i roi ei farn. Drwy atodi dolen yr arolwg i ohebiaeth bresennol y CPS, gallem sicrhau bod yr arolwg yn cael ei gyflwyno ar adeg briodol, o'i gymharu ag arolwg chwarterol a fyddai'n cyrraedd dioddefwyr ar wahanol adegau yn y broses ac o bosibl yn cyrraedd ar adeg amhriodol.

Roedd pob arolwg dioddefwyr yn defnyddio dulliau samplu ymateb gwirfoddol heb fod ar hap, gyda'r holl ddioddefwyr yn ein cwmpas yn cael yr opsiwn i gymryd rhan yn yr arolwg. Mae hwn yn fath o hunanddewis.

Er mwyn gwella hygyrchedd yr arolygon hyn, gallai dioddefwyr ofyn am gopi papur a fyddai'n cael ei anfon gydag amlen barod. Yn ail flwyddyn y gwerthusiad, rhoddwyd yr opsiwn i ddioddefwyr gwblhau'r arolwg dros y ffôn gyda hwylusydd Crest, yn hytrach nag ar-lein.

Tabl 3: Ymatebion i'r holl arolygon dioddefwyr ar 4 Chwefror 2026

Math o arolwg	Dyddiad lansio	Nifer a gwblhawyd
---------------	----------------	-------------------

Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol - penderfyniad i gyhuddo	17 Hydref 2024	89 ⁴
Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol - VCL	18 Rhagfyr 2024	2
Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol - dim camau pellach	10 Chwefror 2025	5 ⁵
Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol - penderfyniad i gyhuddo a dim camau pellach	9 Mai 2025	0
Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol - penderfyniad i gyhuddo	18 Chwefror 2025	2
Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol - VCL	24 Ebrill 2025	0
Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol - dim camau pellach	24 Ebrill 2025	2
Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol - penderfyniad i gyhuddo a dim camau pellach	9 Mai 2025	0
Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol - chyfathrebu ar ôl gwrandawriad	31 Hydref 2025	0
Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) - penderfyniad i gyhuddo	18 Chwefror 2025	0
Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) - dim camau pellach	24 Ebrill 2025	1
Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) - gwahoddiad i gyfarfod cyn treial	5 Chwefror 2025	6
Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) - gwrthodwyd cyfarfod cyn-treial	17 Hydref 2025	0

4

5

Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) - cyfathrebu ar ôl cyfarfod cyn treial	17 Hydref 2025	0
--	----------------	---

Nid yw'n glir o hyd pam mae'r cyfraddau ymateb ar gyfer y rhan fwyaf o arolygon yn isel, er bod hyn yn debygol o fod o ganlyniad i'r amgylchiadau anodd y mae dioddefwyr ynddynt tra bo'r achos yn fyw, gyda chyfranogiad mewn ymchwil yn flaenoriaeth is i lawer o ddioddefwyr. Mae iaith yr arolygon wedi cael ei haddasu dros amser i annog dioddefwyr i'w llenwi a bu ymdrech i wneud manylion yr arolwg yn fwy amlwg mewn cyfathrebiadau â dioddefwyr.

Y sampl terfynol

Cafodd holl ddata'r arolwg dioddefwyr ei allgludo ar 4 Chwefror 2026. Ar y dyddiad hwn, roedd 107 o ymatebion ar draws yr holl arolygon wedi dod i law. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion o arolwg Penderfyniad i Gyhuddo Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, sy'n golygu na ellir cyffredinoli'r canfyddiadau i bob gwasanaeth a phwynt cyswllt.

Manylion glanhau data

Glanhaodd Crest ddata'r arolwg yn Excel. Oherwydd nifer isel yr ymatebion ar draws y rhan fwyaf o'r arolygon dioddefwyr, cafodd ymatebion o'r holl arolygon a'r holl bwyntiau cyswllt eu cyfuno i ddarparu mewnwelediadau mwy cadarn. I greu'r set ddata gyfun hon, cysylltwyd cwestiynau cyffredin a ofynnwyd ar draws gwahanol arolygon â'i gilydd. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn golygu cysylltu cwestiynau a oedd yn debyg o ran cynnwys, ac eithrio gwahaniaethau o ran mynegiant. Er enghraifft, mae sawl arolwg yn gofyn a yw'r dioddefwr yn cytuno neu'n anghytuno bod y CPS yn poeni am yr achos. Yn dibynnu ar y pwynt cyswllt, gofynnir hyn naill ai yn amser gorffennol y ferf ("roedd y CPS yn poeni am yr achos") neu yn amser presennol y ferf ("mae'r CPS yn poeni am yr achos").

Manylion dadansoddi data

Cynhaliwyd dadansoddiad disgrifiadol o'r set ddata gyfunol i grynhoi patrymau ymateb cyffredinol ar draws yr arolygon. Ochr yn ochr â hyn, cafodd arolwg Penderfyniad i Gyhuddo Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol ei ddadansoddi ar ei ben ei hun oherwydd y nifer uwch o ymatebion.

2e. Arolygon Cymorth i Ddioddefwyr

Cynhaliwyd dau arolwg ychwanegol mewn partneriaeth ag unigolion a oedd yn cael eu cefnogi neu a oedd yn arfer cael eu cefnogi gan yr elusen annibynnol, Cymorth i Ddioddefwyr. Cynhaliwyd yr arolygon drwy ap ar gyfer dyfeisiau symudol Cymorth i Ddioddefwyr.

Cynlluniwyd yr arolygon mewn partneriaeth â Chymorth i Ddioddefwyr, ac fe’u rhannwyd â thîm gwerthuso’r VTP i’w hadolygu a’u cymeradwyo. Pwrpas yr arolygon hyn oedd casglu safbwyntiau profiad bywyd ar sut dylai’r CPS gyfathrebu â dioddefwyr a’u cefnogi, yn ogystal â safbwyntiau ar Safonau Gwasanaeth Dioddefwyr y CPS.

Cynhaliodd Crest ddadansoddiad disgrifiadol o’r ddau arolwg. Cafwyd 44 o ymatebion i’r arolwg cyntaf a chafwyd 39 o ymatebion i’r ail arolwg.

3. Dadansoddiad Sampl Fach

Adolygodd Crest y cynllun Cyfathrebu a Chyswllt Dioddefwyr (VCL) a llythyrau Dim Camau Pellach (NFA) fel rhan o’r gwerthusiad o’r VTP, gan gynnwys llythyrau a anfonwyd gan y Gwasanaeth Peilot ac Unedau Cyswllt Dioddefwyr (VLU) nad ydynt yn rhai VTP. Dadansoddwyd llythyrau yn ôl y themâu ehangach a gymerwyd o ddogfennau Canllawiau Llythyr Templed y CPS (2024) a ddefnyddiwyd fel meini prawf llwyddiant. Roedd y dull hwn yn caniatáu i ni asesu ansawdd llythyrau VCL a NFA.

Mae Tabl 4 yn amlinellu’r sampl o lythyrau y gofynnwyd amdanynt ac a adolygwyd fel rhan o samplau bach NFA a VCL.

Tabl 4: Nifer y llythyrau yn samplau bach NFA a VCL

Gwybodaeth yn y llythyr	Llythyrau a adolygwyd
Sampl fach VCL (blwyddyn 1)	
VLU, holl ardaloedd y CPS cyn cyflwyno’r templedi llythyrau VCL diwygiedig (Mehefin 2022-Mawrth 2024)	125
VLU, holl ardaloedd y CPS ar ôl cyflwyno’r templedi llythyrau VCL diwygiedig (Mai-Medi 2024)	90
Sampl fach NFA (blwyddyn 2)	
Cynllun Peilot y Gwasanaethau Ychwanegol, Mersi-Swydd Gaer (Mai-Gorffennaf 2025)	10
Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol, Swydd Efrog-Humberside (Mai-Mehefin 2025)	12
Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol (Mawrth-Gorffennaf 2025)	16

Sampl fach VCL (blwyddyn 2)	
VLU (Cyn y Gwasanaeth Peilot) ⁶ , Mersi-Swydd Gaer (Mawrth-Ebrill 2025)	10
VLU (Cyn y Gwasanaeth Peilot) ⁷ , Swydd Efrog a Humberside (Mehefin ac Awst 2024)	9
Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol (Mehefin-Gorffennaf 2025)	10
Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol, Swydd Efrog a Humberside (Mehefin 2025)	5
Cynllun Peilot y Gwasanaethau Ychwanegol, Mersi-Swydd Gaer (Mehefin-Gorffennaf 2025)	5

Dull dadansoddol

Roedd samplau bach NFA a VCL yn canolbwyntio ar ddeall a oedd ardal neu wasanaeth perthnasol y CPS yn anfon llythyrau o ansawdd uchel yn gyson. Roedd dadansoddiad sampl fach VCL a gynhaliwyd yn ail flwyddyn y gwerthusiad hefyd yn archwilio a oedd unrhyw wahaniaethau yn ansawdd y llythyrau a anfonwyd gan y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol o'i gymharu â llythyrau a anfonwyd gan y VLU rhanbarthol cyn y VTP. Diffinnir llythyrau o ansawdd uchel fel a ganlyn:

- **Clir a chryno:** Dylai'r llythyr NFA gyfleu penderfyniad y CPS yn glir i'r dioddefwr.
- **Empathig ac yn ystyriol o drawma:** Dylai'r llythyr gydnabod yr hyn y mae'r dioddefwr wedi mynd drwyddo, effaith y drosedd, ac effaith penderfyniad y CPS ar y dioddefwr. Dylai fod yn ystyriol, ac ni ddylai feio'r dioddefwr.
- **Wedi'i deilwra:** Ni ddylai'r llythyr ymddangos yn gyffredinol, a dylid ei deilwra i'r dioddefwr a'r achos.

Mae manylion y meini prawf llwyddiant a sut y cawsant eu mesur i'w gweld yn Nhabl 5.

Tabl 5: Meini prawf llwyddiant sampl fach NFA a VCL

Rhif	Meini prawf llwyddiant	Sut cafodd hyn ei fesur
1	Cyfathrebu empathig:	Sensitifrwydd ac empathi:

⁶Roedd y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros anfon llythyrau cynllun Cyfathrebu a Chyswllt â Dioddefwyr (VCL) gan yr Unedau Cyswllt Dioddefwyr (VLU) rhanbarthol ym mis Mehefin 2025.

⁷ Ibid.

	• Sensitifrwydd ac empathi • Dim iaith amhriodol neu ansensitif	• A yw'r awdur yn cydnabod yr effaith gorfforol, emosiynol neu seicolegol y mae'r drosedd neu broses y llys wedi'i chael ar y dioddefwr? • A yw'r awdur yn dangos cydnabyddiaeth o amgylchiadau penodol y dioddefwr? • A yw'r awdur yn defnyddio iaith empathig? • Beth yw ansawdd yr empathi hwn? Diffinnir ansawdd yn y dadansoddiad hwn fel cynnwys empathi a oedd yn glir, yn gyson ac wedi'i deilwra i'r dioddefwr a'i amgylchiadau. • A yw empathi'n mynd y tu hwnt i ymadroddion wedi'u sgriptio neu dempledi? Iaith amhriodol neu ansensitif: • A yw'r awdur yn defnyddio unrhyw iaith amhriodol neu ansensitif?
2	Cyfathrebu wedi'i deilwra: • Manylion sy'n benodol i'r dioddefwr • Diolch yn briodol ac yn bwrpasol • Cydnabyddiaeth o bwy sydd wedi riportio'r drosedd i'r heddlu • Cyfeirio at wasanaethau cymorth perthnasol	Manylion sy'n benodol i'r dioddefwr • A yw'r awdur yn cyfeirio at fanylion sy'n unigryw i'r dioddefwr hwnnw, eu perthynas â'r achos, neu ei amgylchiadau? E.e. cydnabod teimladau tuag at yr achos neu'r anafiadau a gafwyd. Diolch yn briodol ac yn bwrpasol • A yw'r awdur yn diolch i'r dioddefwr mewn unrhyw ffordd yn y llythyr? Cydnabyddiaeth o bwy sydd wedi riportio'r drosedd i'r heddlu: • A yw'r awdur yn cydnabod pwy sydd wedi riportio'r drosedd i'r heddlu yn y cyflwyniad? Cyfeirio at wasanaethau cymorth perthnasol • A yw'r llythyr yn cynnwys y blwch 'Rhagor o Gefnogaeth a Rhagor o Wybodaeth'? • A oes tystiolaeth bod gwasanaethau cymorth wedi cael eu hargymhell i ddioddefwyr a'u teilwra i'w hamgylchiadau? • A oes cyfeiriad at y daflen Dioddefwyr sydd ynghlwm a beth sydd ynddi?

3	Cyfathrebu clir: • Fformat arall wedi'i gynnig • Osgoi jargon neu fyrfoddau diangen • Dim gwallau na thestun templed gweddilliol • Mae cynllun Hawl Dioddefwr i Adolygiad yn cael ei gynnig a'i egluro'n ddigonol	Fformat arall wedi'i gynnig • A yw dioddefwyr yn cael cynnig fersiwn arall o'r llythyr at ddibenion hygyrchedd? Osgoi jargon neu fyrfoddau diangen • A yw jargon cyfreithiol yn cael ei egluro lle mae'n cael ei ddefnyddio? Dim gwallau na thestun templed gweddilliol • A oes unrhyw wallau sillafu, gramadeg neu atalnodi amlwg? • A oes unrhyw destun templed gweddilliol y bwriedir ei dynnu neu ei olygu cyn ei anfon at y dioddefwr? Mae cynllun VRR yn cael ei gynnig a'i egluro'n ddigonol • A yw'r cynllun Hawl Dioddefwr i Adolygiad yn cael ei gynnig a'i egluro'n ddigonol?
---	--	---

Roedd ein dadansoddiad yn cynnwys codio cyffredinol ansawdd yr empathi a oedd wedi'i gynnwys ym mhob llythyr. Gall diffinio ansawdd a'r defnydd o empathi a sensitifrwyd mewn llythyr cyfreithiol fod yn arbennig o oddrychol, yn rhannol oherwydd yr angen i gydbwysu tegwch, cywirdeb ffeithiol ac empathi. I greu ein fframwaith codio cychwynnol, roeddem wedi defnyddio adborth a gafwyd gan y CPS gan ddioddefwyr a staff ar yr hyn y dylai ac na ddylai llythyrau VCL ei gynnwys. Cymhwyswyd y fframwaith cychwynnol hwn i hapsampl o ddeg llythyr. Yna cafodd y fframwaith ei fireinio ymhellach i adlewyrchu sut mae llythyrau'n mynegi empathi a sensitifrwyd ar hyn o bryd, cyn cael ei gymhwyso i weddill y sampl. Rhoddodd y fframwaith codio terfynol sgôr i lythyrau yn amrywio o sero i dri yn dibynnu ar eu defnydd o iaith empathig wedi'i sgriptio a heb ei sgriptio yn Nhabl 6.

Tabl 6: Fframwaith codio iaith empathig sampl fach VCL ac NFA

Sgôr	Esboniad o'r Sgôr
0	Mae llythyrau'n cael sgôr o 0 pan nad oes iaith empathig wedi'i chynnwys yn y llythyr. Dim ond i lythyrau <u>nad ydynt yn cynnwys</u> iaith wedi'i sgriptio o'r templed neu'r canllawiau y dylid rhoi'r sgôr hon.

1	Mae llythyrau'n cael sgôr o 1 pan fydd yr empathi a ddangosir yn y llythyr yn seiliedig ar iaith wedi'i sgriptio o'r templed / canllawiau. Mae iaith wedi'i sgriptio yn cynnwys: <i>“Roedd yn ddrwg gen i glywed am yr hyn rydych chi wedi bod drwyddo”</i> <i>“Rwy'n deall y gallai hwn fod wedi bod yn gyfnod anodd i chi, ac rwy'n gobeithio bod yr esboniad hwn wedi eich helpu i ddeall mwy am sut rwyf wedi dod i'm penderfyniad”</i> Pan fydd yr enghreifftiau hyn yn cael eu defnyddio ar eu pen eu hunain, rhoddir sgôr o 1.
2	Mae llythyrau'n cael sgôr o 2 pan fydd yna un frawddeg ychwanegol heb ei sgriptio gan ddefnyddio iaith empathig sy'n cydnabod effaith y drosedd ar y dioddefwr. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw iaith wedi'i sgriptio sydd yn y templed / canllawiau.
3	Mae llythyrau'n cael sgôr o 3 pan fydd yna fwy nag un frawddeg ychwanegol heb ei sgriptio gan ddefnyddio iaith empathig sy'n cydnabod effaith y drosedd ar y dioddefwr. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw iaith wedi'i sgriptio sydd yn y templed / canllawiau. Mae'r llythyrau hyn yn dangos empathi clir a chyson, lle mae'r iaith heb ei sgriptio a ddefnyddir wedi'i theilwra i amgylchiadau'r dioddefwr. Mae iaith heb ei sgriptio yn adrannau cyflwyno a chau'r llythyr, o leiaf.

4. [Data OPRA](#)

4a. Athreuliad dioddefwyr

Disgrifiad o'r data a rannwyd â Crest

Rhannodd y VTP ddata ar lefel achosion yn ymwneud â phob achos a gofrestrwyd ar systemau'r CPS a arweiniodd at benderfyniad cyn cyhuddo neu ganlyniad o euogfarn neu ddim euogfarn (athreuliad ar ôl cyhuddo) rhwng mis Ebrill 2023 a mis Hydref 2025. Hefyd, rhannodd y VTP ddata yn ymwneud â'r holl dderbyniadau a dderbyniwyd i'r Llysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron rhwng mis Ebrill 2023 a mis Hydref 2025 ar gyfer achosion a gwblhawyd ac achosion parhaus. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r holl golofnau data yn y tair set ddata:

Tabl 7: Rhestr o'r holl golofnau data a'r set(iau) data y cawsant eu cadw ynddynt

Disgrifiad o'r golofn	Athreuliad cyn cyhuddo	Athreuliad ar ôl cyhuddo	Derbyniadau
Dyddiad cofrestru'r achos	Y	Y	Y
Dyddiad cwblhau'r achos	Y	Y	Y
Enw ardal Gwasanaeth Erlyn y Goron	Y	Y	Y
Enw ardal yr heddlu	Y	Y	Y
Beth oedd y math o waith achos (CC, MC, neu RASSO)	Y	Y	Y
Categori'r prif drosedd	Y	Y	Y
Oedd gan yr achos fflag cam-drin domestig?	Y	Y	Y
A oedd gan yr achos fflag trais rhywiol?	Y	Y	Y
Oedd gan yr achos fflag cam-drin plant?	Y	Y	Y
A oedd gan yr achos fflag dioddefwr agored i niwed neu dan fygythiad?	Y	Y	Y
A gyhuddwyd yr achos gan Wasanaeth Erlyn y Goron?	Y	Y	Y
A yw'r unigolyn a amheuir yn yr achos wedi cael ei gwblhau tra'n aros am ymateb?	Y	Y	N
A gwblhawyd adolygiad cyngor cynnar ar gyfer yr unigolyn a amheuir yn yr achos?	Y	Y	N
Sawl adolygiad cyn cyhuddo cyfreithiol a gynhaliwyd yn yr achos?	Y	Y	N
Sawl tro oedd yr unigolyn a amheuwyd yn yr achos wedi cael ei gwblhau tra'n aros am ymateb?	Y	Y	N
Beth oedd y canlyniad yn yr achos?	Y (h.y. a aeth ymlaen i erlyniad ai peidio?)	Y (h.y. a arweiniodd yr achos at euogfarn neu ddim euogfarn?)	N
Beth oedd y rheswm dros ganlyniad y penderfyniad cyn cyhuddo?	Y	N	N

Sawl diwrnod oedd yna rhwng derbyn yr achos yn y lle cyntaf a'r penderfyniad cyn cyhuddo terfynol?	Y	N	N
Sawl diwrnod oedd rhwng yr adolygiad cyfreithiol cyntaf o'r achos a'r penderfyniad cyn cyhuddo terfynol?	Y	N	N
Sawl diwrnod oedd rhwng yr adolygiad cyfreithiol cyntaf nad oedd yn ymwneud â chynghor cynnar a'r penderfyniad cyn cyhuddo terfynol?	Y	N	N
Beth oedd y math o lys (CC neu MC)?	N	Y	N
Sawl diwrnod oedd rhwng cwblhau'r adolygiad cyfreithiol cyntaf a'r penderfyniad ynghylch cyhuddo?	N	Y	N
Sawl diwrnod oedd rhwng cwblhau'r adolygiad cyfreithiol cyntaf nad oedd yn ymwneud â chynghor cynnar a'r penderfyniad ynghylch cyhuddo?	N	Y	N
Sawl diwrnod oedd rhwng y penderfyniad ynghylch cyhuddo a chwblhau'r achos?	N	Y	N
Beth oedd y math o ganlyniad euogfarn neu ddim euogfarn?	N	Y	N
Ar ba gam y derbyniwyd canlyniad yr euogfarn neu ddim euogfarn?	N	Y	N
Beth oedd categori a'r rheswm dros y canlyniad dim euogfarn?	N	Y	N

Cafodd y setiau data hyn eu rhannu'n ddiogel â Crest drwy Sharepoint y CPS. Cawsant eu lanlwytho i yriant diogel a rennir Crest, sydd ar gael i unigolion sy'n gweithio ar y prosiect yn unig. Cynhaliwyd yr holl ddadansoddiadau dilynol yn R.

Manylion dadansoddi

Cynhaliwyd dadansoddiad ar gyfer y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol yn unig. Y rheswm am hyn yw'r cyfnod hir (blynyddoedd yn aml⁸) rhwng cofrestru achos RASSO gyda'r CPS a chwblhau'r canlyniad. Mae hyn yn golygu bod unrhyw ddadansoddiad o athreuliad dioddefwyr ar gyfer achosion RASSO sydd wedi'u cwblhau yn y 12 mis ers lansio'r gwasanaeth yn debygol o gamgynrychioli effaith wirioneddol y gwasanaeth, gan ei fod yn cyfrif am ychydig llai na hanner yr holl achosion a ddechreuodd ers lansio'r gwasanaeth. Disgwylir y bydd dadansoddiad o effaith y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) ar athreuliad dioddefwyr angen o leiaf ddwy flynedd o ddata gwasanaeth cyn y gellir dechrau llunio canfyddiadau credadwy. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn bosibl yn ystod haf 2026.

Cyn y dadansoddiad, roedd achosion yn cael eu diffinio fel rhai a oedd yn gymwys ar gyfer y Gwasanaeth Cyffredinol neu'r Gwasanaeth Ychwanegol os oeddent yn bodloni meini prawf penodol, a amlinellir yn Nhabl 8. Oherwydd cyfyngiadau data, mae'r meini prawf a ddefnyddiwyd yn brocsi ar gyfer cymhwysedd ac ymgysylltiad gwirioneddol. Ar sail data a gofnodwyd gan bob gwasanaeth ar nifer y dioddefwyr cymwys a nifer y dioddefwyr y cyfathrebwyd â nhw, gwyddom fod y meini prawf hyn yn goramcangyfrif, rhwng 10% a 15%, pwy sy'n gymwys ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol. Cyn cynnal unrhyw ddadansoddiad, cytunwyd bod y dull procsi hwn yn darparu lefel dderbyniol o gywirdeb o ystyried y diffyg dewisiadau eraill. Ar ôl defnyddio'r hidlyddion hyn, roedd 34,161 o achosion yn dal yn gymwys ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a 13,911 o achosion yn gymwys ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol.

Tabl 8: Meini prawf ar gyfer dewis achosion cymwys ar gyfer y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol

Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol
Cafodd yr achos ei gofrestru ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2024	Cafodd yr achos ei gofrestru ar neu ar ôl 1 Ebrill 2025
Cofrestrwyd yr achos ar Lannau Mersi a Swydd Gaer neu Swydd Efrog a Humberside	Cofrestrwyd yr achos ar Lannau Mersi a Swydd Gaer neu Swydd Efrog a Humberside
Nid oes gan yr achos fflag DA	Mae gan yr achos fflag DA
Nid oes gan yr achos fflag trais rhywiol	Nid oes gan yr achos fflag trais rhywiol
Nid oes gan yr achos fflag cam-drin plant	Nid oes gan yr achos fflag cam-drin plant

⁸Yr amser cymedrig rhwng penderfyniad cyhuddo a chwblhau oedd 444 diwrnod ar gyfer achosion a gwblhawyd ym mis Gorffennaf i fis Hydref 2025

Chafodd yr achos ddim ei neilltuo i CCU na RASSO	Chafodd yr achos ddim ei neilltuo i CCU na RASSO
Nid lladdiad yw categori'r prif drosedd	Nid lladdiad yw categori'r prif drosedd
Cyhuddwyd yr achos gan y CPS	Cyhuddwyd yr achos gan y CPS

Cynhaliodd Crest ddadansoddiad disgrifiadol a chasgliadol o'r data hwn. Defnyddiwyd dadansoddiad disgrifiadol i ddeall a oedd y tueddiadau a welwyd mewn athreuliad cyn cyhuddo yn amlwg yn wahanol rhwng ardaloedd y cynllun peilot a'r ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot. Ar gyfer data athreuliad ar ôl cyhuddo, defnyddiwyd dadansoddiad disgrifiadol i:

- Bennu cyfanswm nifer a chyfran yr achosion a arweiniodd at ganlyniad heb euogfarn ar ôl cyhuddo oherwydd athreuliad dioddefwyr mewn ardaloedd y cynllun peilot ac ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot; a
- Deall yr amser rhwng penderfyniad i gyhuddo a chwblhau achosion ar gyfer achosion sy'n cau oherwydd athreuliad dioddefwyr yn ardaloedd y cynllun peilot a'r ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot.

Roedd ein dadansoddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar ddata athreuliad ar ôl cyhuddo, a gafodd ei gyfuno â gwybodaeth gyffredinol am dderbyniadau achosion. Gan ddefnyddio'r data crai, cafodd set ddata gyfun o achosion ei chreu ar sail ardal CPS a mis i grynhoi:

- Cyfanswm nifer yr achosion - a ddiffinnir fel cyfanswm yr achosion a gofrestrwyd y mis hwnnw ac yn yr ardal CPS honno
- Nifer yr achosion o athreuliad - sy'n cael eu diffinio fel y rheswm ar ôl cyhuddo am beidio â chael euogfarn, sef "V82 Y dioddefwr yn methu â bod yn bresennol/gwrthod rhoi tystiolaeth/amhriodol i'w orfodi" fesul mis cofrestru ac ardal CPS
- Cyfran yr achosion a oedd yn perthyn i gategori pob prif drosedd - a ddiffinnir fel nifer yr achosion ym mhob categori wedi'i rannu â chyfanswm nifer yr achosion ym mhob mis cofrestredig ac ardal CPS.

Defnyddiwyd yr hidlyddion a ddisgrifir yn Nhabl 8 hefyd i ddiffinio pa achosion yr oedd derbyniadau o fewn cwrmpas pob gwasanaeth. Cafodd y data derbyniadau ei gyfuno i gyfrifo nifer y derbyniadau bob mis ac ardal CPS, a chafodd hyn ei gyfuno â'r set ddata achosion cyfanredol yn seiliedig ar newidynnau ardal CPS a mis. Yna, cafodd newidyn ychwanegol ei greu i ddiffinio a oedd y rhes yn ymwneud â chyfnod triniaeth, sy'n ein galluogi i gofnodi effaith y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol neu Ychwanegol ar athreuliad dioddefwyr.

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod ein dadansoddiad wedi'i gynnal ar sail y mis y *cofrestrwyd* achos gyda'r CPS. Roedd hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod achosion yn cael eu dyrannu

mor gywir â phosibl i grwpiau ymyrryd a rheoli ar gyfer y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol gan nad oedd dyddiadau penderfyniadau cyhuddo ar gael. Mae data'r CPS yn cael ei ddadansoddi'n fewnol yn bennaf yn ôl mis cwblhau achosion ac felly mae'r gwahaniaeth hwn yn un pwysig a dylid ei ystyried wrth gymharu unrhyw ddadansoddiad a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad â metrigau eraill y CPS.

Ar gyfer set ddata Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, cafodd newidyn 'universal_pilot' ei greu a'i ddiffinio fel "1" (h.y. Gwir) os:

- roedd y mis yn hafal i neu ar ôl Rhagfyr 2024; a'r
- ardal CPS oedd Glannau Mersi a Swydd Gaer neu Swydd Efrog a Humberside.

Ar gyfer set ddata Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol, cafodd newidyn 'enhanced_pilot' ei greu a'i ddiffinio fel "1" (h.y. Gwir) os:

- roedd y mis yn hafal i neu ar ôl Ebrill 2025; a'r
- ardal CPS oedd Glannau Mersi a Swydd Gaer neu Swydd Efrog a Humberside.

Gan symud y tu hwnt i'r dadansoddiad disgrifiadol, defnyddiwyd y pecyn *gsynth* yn R i greu model rheoli synthetig cyffredinol o athreuliad, gyda maint cyffredinol yr athreuliad fel ein newidyn canlyniad, a nifer y derbyniadau a chyfran pob prif gategori o drosedd fel cyd-newidynnau. Mae angen yr wybodaeth ganlynol ar gyfer y swyddogaeth - yr unig wahaniaeth rhwng y modelau ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a Chynllun Peilot y Gwasanaeth ychwanegol yw cynnwys "universal_pilot" neu "enhanced_pilot" yn y fformiwla enghreifftiol. Mae Tabl 9 yn rhoi trosolwg o'r canlyniadau a'r wybodaeth ddisgrifiadol a ddarperir gan y dull hwn.

- **Enw'r set ddata i'w dadansoddi** - yn yr achos hwn, ein set ddata gyfun uchod.
- **Fformiwla** - disgrifiad symbolaidd o'r model i'w osod ar ffurf:
 - Canlyniad ~ Triniaeth + Cyd-newidynnau. Yn ein model penodol ni, roedd hyn yn:
 - `attrition_cases ~ universal_pilot NEU enhanced_pilot + receipts + violence_prop + sexual_prop + burglary_prop + robbery_prop + theft_prop + fraud_prop + crim_dam_prop + drugs_prop + public_order_prop + other_crime_prop`
- **Mynegai** - nodi'r dangosyddion uned ac amser. Dyma ardal CPS a mis cofrestru'r achos yn y drefn honno.
- **SE** - fflag ar gyfer a ddylid cynhyrchu amcangyfrifon ansicrwydd. Gosodwyd hyn fel GWIR.
- **Casgliad** - fflag ynghylch a ddylid defnyddio dulliau casgliadol parametrig neu amharametrig. Roedd hyn wedi'i osod fel parametrig, sy'n cael ei argymhell pan fydd nifer yr unedau triniaeth yn fach.
- **EM** - fflag ar gyfer a ddylid defnyddio'r algorithm Cynyddu Disgwyliadau. Gosodwyd hyn fel GWIR.
- **Grym** - llinyn yn dangos a fydd effeithiau uned neu amser-sefydlog yn cael eu cyfrifo. Cafodd hyn ei osod fel "ddwy ffordd" i sicrhau bod y model yn ceisio rhoi cyfrif am effeithiau sy'n seiliedig ar amser ac unedau.

- **CV** - fflag sy'n dangos a ddylid croes-ddilysu i nodi'r nifer optimaidd o ffactorau i ddod o hyd i'r model sy'n gweddu orau. Gosodwyd hyn fel GWIR.
- **R** - mae hwn yn nodi nifer y ffactorau y dylid eu profi. Gosodwyd hyn i brofi o 0 i 3 ffactor.
- **nboots** - mae hwn yn nodi sawl rhediad ymlwytho y dylid eu cynnal. Mae ymlwytho yn golygu ail-redeg y modelu drwy ailsamplu'r data (yn aml dewis 80% o bwyntiau data ar hap) ac ail-redeg y modelu i brofi am amrywiad mewn canlyniadau. Gosodwyd nifer y rhediadau ymlwytho i 1000.
- **Hedyn** - mae hyn yn sicrhau bod yr ymlwytho, bob tro y caiff y cod ei ail-redeg, yn dilyn yr un broses ac yn ailsamplu'r un data bob tro. Gosodwyd hyn ar 1729.

Tabl 9: Trosolwg o'r canlyniadau neu'r wybodaeth a ddarparwyd gan fodelau rheoli synthetig cyffredinol

Math o ganlyniad neu wybodaeth	Esboniad
ATT - Amcangyfrif	Mae'r gwerth hwn yn cynrychioli'r Effaith Trin Cyfartalog ar wrthrych y Driniaeth (ATT). Mae'r ATT yn fesur o effaith gyfartalog ac amcangyfrifedig y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol ar ganlyniad penodol fesul ardal CPS, bob mis. Mae amcangyfrif negatif yn awgrymu bod canlyniad penodol wedi gostwng (e.e. llai o achosion yn arwain at athreuliad dioddefwyr). Mae amcangyfrif positif yn awgrymu bod canlyniad penodol wedi cynyddu (e.e. mwy o achosion yn arwain at athreuliad dioddefwyr).
ATT - S.E (Gwall Safonol)	Mae'r gwerth hwn yn cynrychioli manylder amcangyfrif yr ATT. Mae S.E. mawr, o'i gymharu ag amcangyfrif yr ATT, yn awgrymu bod yr amcangyfrif yn llai manwl gywir. Mae S.E bach, o'i gymharu ag amcangyfrif yr ATT, yn awgrymu bod yr amcangyfrif yn fwy manwl gywir.
ATT - Cl.isaf & Cl.uchaf (Cyfwng Hyder)	Mae'r gwerthoedd hyn yn darparu amrediad â therfynau terfyn isaf ac uchaf gwahaniaeth neu gysylltiad (amcangyfrif yr ATT) a fyddai'n gredadwy ar gyfer poblogaeth. Mae CI o 95% (a ddefnyddir yma) yn dangos pe bai astudiaeth yn cael ei chynnal 100

	gwaith, byddai'r ystod yn cynnwys y gwir werth 95 gwaith.
ATT - gwerth-p	Mae'r gwerth hwn yn cynrychioli'r tebygolrwydd y byddai'r effaith a arsylwyd (amcangyfrif yr ATT) wedi digwydd ar hap pe na bai gwir effaith mewn gwirionedd. Ystyrir bod data sy'n rhoi gwerth-p o 0.05 neu is yn ystadegol arwyddocaol.
ATT - cyfnodau cyn ac ar ôl triniaeth unigol	Mae'r gwerthoedd hyn yn dangos amcangyfrif yr ATT (gan gynnwys yr holl wybodaeth ddisgrifiadol arall fel cyfeiliornad safonol, cyfyngau hyder a gwerthoedd-p) ar bob cyfnod amser mewn perthynas â'r driniaeth.
Cyd-newidynnau - beta	Mae'r gwerth hwn yn cynrychioli amcangyfrif o faint mae canlyniad yn newid pan fydd cyd-newidyn penodol yn cynyddu un uned, gan gadw'r lleill i gyd yn gyson. Mae gwybodaeth ddisgrifiadol, gan gynnwys cyfeiliornad safonol, cyfyngau hyder, a gwerthoedd-p, hefyd yn cael eu darparu ar gyfer cyd-newidynnau. Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â'r amcangyfrif o beta (tra mae'n ymwneud â'r amcangyfrif o ATT uchod).


Penderfynu pryd i adrodd ar athreuliad dioddefwyr

Oherwydd cyfyngiadau data, dim ond ar ôl i'r achos gael ei gwblhau y gellir mesur athreuliad dioddefwyr. Mae hyn yn her i'r gwerthusiad gan fod yr amserlenni ar gyfer achosion - o gofrestru achosion i gwblhau - yn gallu bod yn flynyddoedd. Gan fod ein dadansoddiad yn seiliedig ar y mis y cofrestrir yr achos, mae swm y data coll yn cynyddu po agosaf y mis at yr amser presennol a gallai gael effaith ar ddilysrwydd ein dadansoddiad. Dangosir hyn yn Siart 1 isod ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol ac mae'n dangos, o'i gymharu â'n llinell sylfaen yn hanner cyntaf 2023, bod nifer yr achosion terfynol ar gyfer mis penodol yn gostwng yn raddol dros y 10 mis cyn diwedd ein cyfnod data.


Nid yw hyn yn ddelfrydol ar gyfer y dadansoddiad, ond ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, mae'r ffaith bod cyfran y data coll bron yr un fath mewn ardaloedd y cynllun peilot ag ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd y cynllun peilot yn rhoi hyder i ni y gall ein dull rheoli synthetig gyfrif am y data coll. Gan fod y rheolaeth synthetig yn cynnwys yr hyn sy'n digwydd mewn

gwirionedd mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot, a bod y duedd gyffredinol yn yr ardaloedd hyn yr un fath ag ardaloedd y cynllun peilot, dylai ein model roi cyfrif i raddau helaeth am y dirywiad a pharhau i fod yn ddilys.

Siart 1: Achosion wedi'u cwblhau fesul mis a gofrestrwyd ar gyfer achosion sy'n gymwys ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol - wedi'i fynegio i H1 2023




Siart 2: Achosion wedi'u cwblhau fesul mis a gofrestrwyd ar gyfer achosion sy'n gymwys ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol - wedi'i fynegio i H1 2023



Gan ganolbwyntio ar y cyfnod pan oedd y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol ar waith (Siart 3), gwelwn fod gan Gynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol gydberthynas llawer gwell rhwng ardaloedd y cynllun peilot ac ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot yn ystod y cyfnod hwn, gyda gwahaniaeth o lai na 5% ar gyfartaledd rhwng y ddwy garfan yn ystod y cyfnod ers i'r gwasanaeth fynd yn fyw. Mewn cymhariaeth, mae gan Gynllun Peilot y Gwasanaethau Ychwanegol wahaniaeth cyfartalog o 13%, ac roedd y modelau rheoli synthetig yn dangos anwadalrwydd sylweddol yn y canlyniadau.

Siart 3: Cwblhau achosion cyfeirio fesul mis sydd wedi cofrestru ar gyfer y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol ers lansio'r gwasanaeth hyd at y torbwynt a ddefnyddiwyd ar gyfer modelu



Mae hyn yn golygu y gallai unrhyw wahaniaethau a nodwyd wrth ddadansoddi cyfraddau athreuliad mewn ardaloedd y cynllun peilot ac ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot fod yn arteffact o'r cyfraddau gwahanol o gwblhau achosion, yn hytrach na gwir adlewyrchiad o effaith y gwasanaeth. Am y rheswm hwn, penderfynodd y tîm gwerthuso beidio ag adrodd ar ganfyddiadau sy'n ymwneud ag athreuliad yng Nghynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol ar hyn o bryd. Ar sail y dadansoddiad a gynhaliwyd ar gyfran yr achosion nad ydynt wedi cael eu cwblhau, cyfnod o 12 mis ar ôl cofrestru yw'r amserlen sylfaenol cyn i'r canlyniadau sefydlogi ac y gellir adrodd yn hyderus arnynt. Mewn geiriau eraill, dim ond o ddiwedd mis Ebrill 2026 ymlaen y byddai data ar gyfer achosion a gofrestrwyd ym mis Ebrill 2025 (mis cyntaf gweithredu Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol) yn ddilys i'w ddadansoddi (ac ar y pwynt hwnnw dyma fyddai'r unig ddata fyddai'n addas i'w ddadansoddi).

Mae'r tîm gwerthuso'n rhagweld y bydd adrodd ar effaith Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol ar athreuliad dioddefwyr yn adroddadwy o fis Hydref 2026 yn seiliedig ar achosion a gofrestrwyd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025 - chwe mis cyntaf gweithredu'r gwasanaeth.

4b. Ceisiadau Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR)

Disgrifiad o'r data a rannwyd â Crest

Roedd y VTP yn rhannu data o Ap Cyswllt y CPS sy'n ymwneud â'r holl VRRs sydd wedi cael eu cyflwyno i'r CPS rhwng mis Ebrill 2021 a mis Hydref 2025. Roedd y set ddata yn cynnwys y colofnau canlynol:

- Rheswm dros y VRR
- Dyddiad penderfyniad gwreiddiol y CPS
- Dyddiad y daeth y cais VRR i law'r CPS
- Statws y VRR
- Enw'r ardal CPS sy'n gyfrifol am y VRR
- Enw'r uned sy'n gyfrifol am y VRR
- Pwy wnaeth y penderfyniad ar y VRR
- Pwy ofynnodd am y VRR
- Canlyniad penderfyniad Cam 1
- Dyddiad penderfyniad Cam 1
- Canlyniad penderfyniad Cam 2
- Dyddiad penderfyniad Cam 2
- A oedd gan yr achos y codwyd y VRR ar ei gyfer fflag trais domestig?
- A oedd gan yr achos y codwyd y VRR ar ei gyfer fflag trais rhywiol?
- A oedd gan yr achos y codwyd y VRR ar ei gyfer fflag cam-drin plant?
- Categori'r prif drosedd.

Cafodd y data hwn ei rannu'n ddiogel â Crest drwy Sharepoint y CPS. Cawsant eu lanlwytho i yriant diogel a rennir Crest, sydd ar gael i unigolion sy'n gweithio ar y prosiect yn unig. Cynhaliwyd yr holl ddadansoddiadau dilynol yn R.

Manylion dadansoddi

Cynhaliodd Crest ddadansoddiad disgrifiadol a chasgliadol o'r data hwn. Defnyddiwyd dadansoddiad disgrifiadol i ddeall faint o VRRs oedd yn cael eu cyflwyno yn ardaloedd y cynllun peilot ac ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot, cyn ac ar ôl cyflwyno'r VTP.

Cyn y dadansoddiad, diffiniwyd VRRs fel rhai a oedd yn gymwys ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol neu'r Gwasanaeth Ychwanegol

(RASSO) os oeddent yn bodloni meini prawf penodol, a amlinellir yn Nhabl 10. Ar ôl defnyddio'r hidlyddion hyn:

- Roedd 2,326 VRR yn gymwys ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol
- Roedd 447 VRR yn gymwys ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol
- Roedd 1,191 VRR yn gymwys ar gyfer y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO).

Tabl 10: Meini prawf ar gyfer dewis VRRs cymwys ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO)

Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol	Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO)
Cafodd y VRR ei gyflwyno ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2024	Cafodd yr VRR ei gyflwyno ar neu ar ôl 1 Ebrill 2025	Cafodd y VRR ei gyflwyno ar neu ar ôl dyddiadau gweithredu penodol fesul rhanbarth
Cyflwynwyd y VRR yng Nglannau Mersi a Swydd Gaer neu Swydd Efrog a Humber	Cyflwynwyd y VRR yng Nglannau Mersi a Swydd Gaer neu Swydd Efrog a Humber	Cafodd yr achos y codwyd y VRR ar ei gyfer ei aseinio i RASSO
Nid oes gan yr achos y codwyd y VRR ar ei gyfer fflag DA	Mae gan yr achos y codwyd y VRR ar ei gyfer fflag DA	Nid lladdiad yw categori'r prif drosedd
Nid oes gan yr achos y codwyd y VRR ar ei gyfer fflag trais rhywiol	Nid oes gan yr achos y codwyd y VRR ar ei gyfer fflag trais rhywiol	Ni chafodd y VRR ei ganslo, ei wrthod na'i ddyblygu
Nid oes gan yr achos y codwyd y VRR ar ei gyfer fflag cam-drin plant	Nid oes gan yr achos y codwyd y VRR ar ei gyfer fflag cam-drin plant	
Ni chafodd yr achos y codwyd y VRR ar ei gyfer ei aseinio i CCU na RASSO	Ni chafodd yr achos y codwyd y VRR ar ei gyfer ei aseinio i CCU na RASSO	
Nid lladdiad yw categori'r prif drosedd	Nid lladdiad yw categori'r prif drosedd	
Ni chafodd y VRR ei ganslo, ei wrthod na'i ddyblygu	Ni chafodd y VRR ei ganslo, ei wrthod na'i ddyblygu	

Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol

Gan ddefnyddio'r data crai, cafodd set ddata VRR cyfanredol ei chreu i grynhoi cyfanswm nifer y VRRs a gyflwynwyd bob mis ym mhob ardal CPS. Yna, cafodd newidyn ychwanegol ei greu i ddiffinio a oedd y rhes yn ymwneud â chyfnod triniaeth, sy'n ein galluogi i gofnodi effaith y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol neu Ychwanegol ar VRRs.

Ar gyfer set ddata Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, cafodd newidyn ei greu a'i ddiffinio fel "1" (h.y. Gwir) os:

- roedd y mis yn hafal i neu ar ôl Rhagfyr 2024; a'r
- ardal CPS oedd Glannau Mersi a Swydd Gaer neu Swydd Efrog a Humberside.

Ar gyfer set ddata Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol, cafodd newidyn ei greu a'i ddiffinio fel "1" (h.y. Gwir) os:

- roedd y mis yn hafal i neu ar ôl Ebrill 2025; a'r
- ardal CPS oedd Glannau Mersi a Swydd Gaer neu Swydd Efrog a Humberside.

Yn debyg i athreuliad dioddefwyr, defnyddiwyd y pecyn *gsynth* yn R i greu model rheoli synthetig cyffredinol o VRRs, gyda swm cyffredinol y VRRs fel newidyn ein canlyniad. Mae angen yr wybodaeth ganlynol ar gyfer y swyddogaeth - yr unig wahaniaeth rhwng y modelau ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a Chynllun Peilot y Gwasanaeth ychwanegol yw cynnwys "universal_pilot" neu "enhanced_pilot" yn y fformiwla enghreifftiol.

- **Enw'r set ddata i'w dadansoddi** - yn yr achos hwn, ein set ddata gyfun uchod.
- **Fformiwla** - disgrifiad symbolaidd o'r model i'w osod ar ffurf:
 - Canlyniad ~ Triniaeth Yn ein model penodol ni, roedd hyn yn:
 - `vr_count ~ universal_pilot NEU enhanced_pilot`
- **Mynegai** - nodi'r dangosyddion uned ac amser. Dyma'r ardaloedd CPS sy'n gyfrifol am y VRR a'r mis pan gyflwynwyd y VRR yn y drefn honno.
- SE, Casgliad, EM, Grym, CV, R, nboots, Hedyn - gosodwyd pob elfen o'r swyddogaethau hyn yn union yr un fath ag yr oeddent yn y model athreuliad yn Adran 4a.

Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO)

Roedd y dull dadansoddi a ddefnyddiwyd ar gyfer VRRs a gyflwynwyd o dan y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn wahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol neu Ychwanegol. Y rheswm am hyn yw bod pob ardal wedi rhoi'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) ar waith ar ryw adeg yn ystod cyfnod y data, sy'n golygu nad oes grŵp rheoli ar ôl pwynt penodol i ffurfio sefyllfa wrthffeithiol sy'n sail i fodel rheoli synthetig cyffredinol.

Yn hytrach, defnyddiwyd model cymysg llinol cyffredinol binomaidd negatif. Cynhaliwyd hyn gan ddefnyddio'r pecyn *glmmTMB* yn R. Mae'r dull hwn yn briodol ar gyfer data cyfres amser gydag

ymyriad lle mae data canlyniad yn cael ei gasglu cyn ac ar ôl ymyriad (h.y. gweithredu'r Gwasanaeth Ychwanegol [RASSO]). Ei nod yw ateb a newidiodd lefel neu duedd VRRs ar ôl cyflwyno'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) ac a oedd hynny'n amrywio ar draws ardaloedd y CPS.

Fel man cychwyn, gan ddefnyddio'r data crai, cafodd set ddata VRR cyfanredol ei chreu i grynhoi cyfanswm nifer y VRRs a gyflwynwyd bob mis ym mhob ardal CPS a oedd yn gymwys ar gyfer y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO). Yna, cafodd newidyn ychwanegol ei greu i ddiffinio a oedd y rhes yn ymwneud â chyfnod triniaeth.

Ar gyfer set ddata'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO), cafodd newidyn ei greu a'i ddiffinio fel "1" (h.y. Gwir) os:

- roedd y mis yn hafal i neu ar ôl Medi 2024; a'r
 - ardal CPS oedd Glannau Mersi a Swydd Gaer
- roedd y mis yn hafal i neu ar ôl Hydref 2024; a'r
 - ardal CPS oedd Swydd Efrog a Humberside
- roedd y mis yn hafal i neu ar ôl Tachwedd 2024; a'r
 - ardal CPS oedd Dwyrain Canolbarth Lloegr, Wessex, Dwyrain Lloegr, De Llundain, Gogledd Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Cymru, Thames a Chiltern, De Orllewin Lloegr, De Ddwyrain Lloegr a Gogledd Orllewin Lloegr
- roedd y mis yn hafal i neu ar ôl Rhagfyr 2024; ac
 - Gogledd Ddwyrain Lloegr oedd ardal CPS.

Mae angen yr wybodaeth ganlynol ar gyfer y swyddogaeth:

- **Enw'r set ddata i'w dadansoddi** - yn yr achos hwn, ein set ddata gyfun uchod.
- **Fformiwla** - disgrifiad symbolaidd o'r model i'w osod ar ffurf:
 - $\text{Outcome} \sim \text{months_since_treatment} + \text{post_treatment} + \text{post_treatment_slope} + (1 + \text{months_since_t} \mid \text{review_area})$
 - Mae'r fformiwla hon yn rheoli effeithiau sefydlog, sef rhagfynegyddion sy'n cael eu hamcangyfrif a'u cyffredinoli ar draws y boblogaeth. Yn y model hwn, mae "months_since_treatment", "post_treatment" a "post_treatment_slope" yn effeithiau sefydlog gan mai'r nod yw mesur, ar gyfartaledd, beth yw effaith y driniaeth (gweithredu'r Gwasanaeth Ychwanegol [RASSO]) ar nifer y VRRs.
 - Mae hefyd yn rheoli effeithiau ar hap, sy'n rhagfynegyddion sy'n cofnodi'r amrywiad ar draws gwahanol grwpiau. Yn y model hwn, mae'r rheini'n ardaloedd CPS a allai fod â thueddiadau a niferoedd gwahanol o VRRs. Mae pob ardal yn derbyn ei ryng-gipiad ei hun (cyfrif sylfaenol o VRRs) ac mae tuedd sylfaenol benodol yn nifer y VRRs dros amser yn cael ei modelu (months_since_treatment).

- **Teulu** - mae hwn yn diffinio sut mae cymedr y canlyniad yn cael ei fodelu ac o ba fath o ddata y daw. Gosodwyd hyn ar *n_binom2* oherwydd bod y canlyniad yn ddata cyfrif a bod tystiolaeth o or-wasgaru (amrywiant y data yn fwy na'r cymedr).
- **Fformiwla gwasgariad** - mae hwn yn caniatáu modelu'r paramedr gwasgariad sy'n rheoli sut mae amrywiant yn berthnasol i'r cymedr. Cadwyd hyn ar y gosodiad diofyn, sef "~1", sy'n tybio bod gwasgariad yn gyson ar draws yr holl arsylwadau yn y data.

Tabl 11: Trosolwg o'r canlyniadau neu'r wybodaeth a ddarparwyd gan fodel cymysg llinol binomaidd negatif

Math o ganlyniad neu wybodaeth	Esboniad
Rhyng-gipio	Mae'r gwerth hwn yn cynrychioli'r cyfrif log disgwylledig pan fydd pob rhagfynegydd arall yn sero. Er mwyn dehongli'r canlyniad hwn mewn perthynas â'n data, rhaid mynegi'r cyfrif log. Ar ôl gwneud hynny, mae'r canlyniad yn dweud wrthym beth yw'r cyfrif sylfaenol disgwylledig o VRRs a gofnodwyd mewn mis fesul ardal, cyn gweithredu'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO).
Misoedd ers y driniaeth	Mae'r gwerth hwn yn cyfleu'r duedd sylfaenol mewn cyfrifon log dros amser, ni waeth beth yw'r driniaeth. Mae canlyniad positif yn awgrymu bod nifer y VRRs yn cynyddu gyda phob mis ychwanegol, o'r linell sylfaen rhyng-gipio.
Ar ôl y driniaeth	Mae'r gwerth hwn yn mesur y newid mewn cyfrifon log ar adeg y driniaeth, gan gadw'r duedd sylfaenol (<i>months_since_treatment</i>) yn gyson. Mae canlyniad positif yn awgrymu bod cyflwyno'r driniaeth wedi cael effaith ar unwaith ar y canlyniad.
Llethr ar ôl y driniaeth	Mae'r gwerth hwn yn cynrychioli'r newid yn y duedd sylfaenol mewn cyfrifon log ar ôl y pwynt triniaeth, o'i gymharu â'r llethr cyn triniaeth. Felly, rhaid edrych ar unrhyw ganlyniad positif neu negatif mewn perthynas â'r gwerth <i>months_since_treatment</i> .

4c. Cwynion

Disgrifiad o'r data a rannwyd â Crest

Roedd y VTP yn rhannu data o Ap Cyswllt y CPS sy'n ymwneud â'r holl gwynion sydd wedi cael eu cyflwyno i'r CPS rhwng mis Ebrill 2021 a mis Hydref 2025. Roedd y set ddata yn cynnwys y colofnau canlynol:

- Dyddiad derbyn y gŵyn
- Dyddiad y digwyddiad gwreiddiol
- Enw'r ardal CPS sy'n gyfrifol am y gŵyn
- Enw'r uned sy'n gyfrifol am y VRR
- Math o gŵyn
- Statws y gŵyn a'r rheswm dros ei statws
- Y cam pan gafodd y gŵyn ei datrys
- Canlyniad y gŵyn
- Dyddiad datrys y gŵyn
- Categori'r prif drosedd
- Math o achwynydd
- Categoriâu niferus (n=25) yn disgrifio natur benodol y gŵyn.

Cafodd y data hwn ei rannu'n ddiogel â Crest drwy Sharepoint y CPS. Cafodd hyn ei lanlwytho i yriant diogel a rennir Crest, sydd ar gael i unigolion sy'n gweithio ar y prosiect yn unig. Cynhaliwyd yr holl ddadansoddiadau dilynol yn R.

Manylion dadansoddi

Cynhaliodd Crest ddadansoddiad disgrifiadol a chasgliadol o'r data hwn. Defnyddiwyd dadansoddiad disgrifiadol i ddeall faint o gwynion oedd yn cael eu cyflwyno yn ardaloedd y cynllun peilot ac ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot, cyn ac ar ôl cyflwyno'r VTP.

Yn wahanol i VRRs, roedd hi'n anoddach nodi cwynion a fyddai wedi bod yn gymwys ar gyfer y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol neu Ychwanegol. Nid oedd y data hwn yn cynnwys fflagiau a oedd yn dangos a oedd yr achos yn cynnwys cam-drin domestig, trais rhywiol, cam-drin plant, neu unigolyn agored i niwed. O ganlyniad, defnyddiwyd diffiniad mwy llac (fel yr amlinellir yn Nhabl 12) a oedd yn debygol o arwain at oramcangyfrif nifer y cwynion a gyflwynwyd mewn perthynas ag achosion a gafodd eu trin o dan y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol neu Ychwanegol. Ar ôl defnyddio'r hidlyddion hynny, cafodd 1,647 o gwynion eu cynnwys fel rhai a oedd yn gymwys ar gyfer y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol. Cofnodwyd 247 o'r cwynion hynny yn nwy ardal y cynllun peilot.

Tabl 12: Meini prawf ar gyfer dewis cwynion cymwys ar gyfer y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol

Meini Prawf
Cafodd y gŵyn ei chyflwyno ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2024
Ardal CPS a oedd yn gyfrifol am y gŵyn oedd Glannau Mersi a Swydd Gaer NEU Swydd

Efrog a Humberside
Ni chafodd yr achos yr oedd y gŵyn yn gysylltiedig ag ef ei neilltuo i CCU na RASSO
Nid lladdiad oedd y prif gategori trosedd ar gyfer yr achos yr oedd y gŵyn yn gysylltiedig ag ef.
Nid “canslwyd”, “gwrthodwyd” na “dyblyg” oedd statws y gŵyn
Roedd yr achwynydd yn ddioddefwr

Gan ddefnyddio'r data crai, cafodd set ddata cwynion cyfanredol ei chreu i grynhoi cyfanswm nifer y cwynion a gyflwynwyd bob mis ym mhob ardal CPS. Yna, cafodd newidyn ychwanegol ei greu i ddiffinio a oedd y rhes yn ymwneud â chyfnod triniaeth.

Ar gyfer y set ddata cwynion, cafodd newidyn ei greu a'i ddiffinio fel “1” (h.y. Gwir) os:

- roedd y mis yn hafal i neu ar ôl Rhagfyr 2024; a'r
- ardal CPS oedd Glannau Mersi a Swydd Gaer neu Swydd Efrog a Humberside.

Gan symud y tu hwnt i'r dadansoddiad disgrifiadol, defnyddiwyd y pecyn *gsynth* yn R i greu model rheoli synthetig cyffredinol o gwynion, gyda nifer cyffredinol y cwynion a gyflwynwyd fel newidyn i'n canlyniad. Mae angen yr wybodaeth ganlynol ar gyfer y swyddogaeth, a amlinellir isod. Yn wahanol i'r dull o ymdrin ag athreuliad neu VRR, dim ond un fersiwn o'r model sydd yna ar gyfer cwynion, gan na ellid gwahanu cwynion sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol neu Ychwanegol.

- **Enw'r set ddata i'w dadansoddi** - yn yr achos hwn, ein set ddata gyfun uchod.
- **Fformiwla** - disgrifiad symbolaidd o'r model i'w osod ar ffurf:
 - Canlyniad ~ Triniaeth Yn ein model penodol ni, roedd hyn yn:
 - cwynion ~ cynllun peilot
- **Mynegai** - nodi'r dangosyddion uned ac amser. Dyma ardal CPS sy'n gyfrifol am y gŵyn a mis cofrestru'r gŵyn yn y drefn honno.
- **SE, Casgliad, EM, Grym, CV, R, nboots, Hedyn** - gosodwyd pob elfen o'r swyddogaethau hyn yn union yr un fath ag yr oeddent mewn modelau athreuliad a VRR yn Adrannau 4a a 4b yn y drefn honno.

5. Data monitro'r CPS

Rhannwyd nifer o setiau data yn ymwneud â gweithgarwch VTP â Crest. Mae trosolwg o'r setiau data allweddol a rannwyd sydd wedi cael eu dadansoddi fel rhan o'n hadroddiadau wedi'u hamlinellu isod.

- **Data llywodraethu** - darparodd y data hwn nifer y dioddefwyr a oedd o fewn y cwrpas ac y cysylltwyd â nhw'n llwyddiannus gan y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol rhwng mis Mehefin 2025 a mis Ionawr 2026. Roedd y data hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth fonitro, a oedd yn ymwneud â'r dull cysylltu a ffefrir gan ddioddefwr, a chyfradd llwyddiant galwadau ffôn i ddioddefwyr.
- **Data misol RASSO** - darparodd y data hwn nifer y dioddefwyr a oedd wedi cael cynnig (yn ogystal â derbyn) cyfarfodydd cyn-treial fel rhan o ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) rhwng mis Mai 2025 a mis Ionawr 2026. Mae gwybodaeth ddisgrifiadol am y cyfarfodydd hynny, gan gynnwys cyfran y cyfarfodydd hynny a gynhaliwyd wyneb yn wyneb neu a arweiniwyd gan erlynydd CPS, hefyd wedi'i chynnwys.
- **Logiau cyfathrebiadau i mewn ac allan** - darparodd y data hwn swm y cyfathrebiadau i mewn ac allan sy'n cael eu hanfon at ddioddefwyr o dan y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol.

Glanhau data a dull dadansoddol

Ychydig iawn o lanhau data a wnaed ar y setiau data hyn. Roedd y dadansoddiad a gynhaliwyd yn ddisgrifiadol ac yn ymdrin â sawl maes. Defnyddiwyd data llywodraethu a data misol RASSO i ddeall cyfanswm nifer y dioddefwyr a dderbyniodd naill ai Gynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol neu'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO). Defnyddiwyd data misol RASSO hefyd i ddarparu gwybodaeth ddisgrifiadol am gyfarfodydd cyn-treial a gynhaliwyd ar gyfer dioddefwyr o dan y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO). Defnyddiwyd data cyfathrebiadau i mewn ac allan hefyd i helpu i ddisgrifio natur y galw ar y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol.

Dulliau Dadansoddi Cost a Budd (CBA)

1. Cyflwyniad

1a. Pwrpas a nodau Dadansoddi Cost a Budd

Un o'r prif gwestiynau gwerthuso oedd asesu gwerth am arian, yn benodol:


- A yw'r VTP yn cynnig gwerth am arian, neu a allai wneud hynny?
 - Pa rannau o'r gwasanaethau sy'n darparu gwerth a ble gellid cael mwy o werth?

Mesurwyd gwerth am arian gan ddefnyddio dadansoddiad cost a budd (CBA) i asesu costau a manteision ariannol y rhaglen. Cynhaliwyd CBA ar lefel rhaglen a gwasanaeth (Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol, y Gwasanaeth Ychwanegol [RASSO]) ar gyfer y VTP. Mae cynnal Dadansoddiad Cost a Budd ar lefel y rhaglen ac ar lefel y gwasanaeth yn sicrhau bod gan y CPS asesiad cyffredinol o werth am arian y rhaglen a'r gallu i asesu pa rannau o'r rhaglen sy'n cyfrannu'r gwerth mwyaf am arian. Gellir defnyddio CBA hefyd i roi syniad o sut y gallai gwerth am arian y rhaglen newid wrth iddi gael ei hehangu neu ei newid yn y dyfodol.

1b. Crynodeb o'r dull gweithredu

Aseswyd y CBA drwy ddull pedwar cam, fel sy'n cael ei grynhoi yn Ffigur 5.

Ffigur 5: Crynodeb o'r fethodoleg



Cafodd y CBA ei hysbysu gan y canlynol:

- **Adolygiad o ddogfennau** - Adolygodd ymchwilwyr Fortia Insight ddogfennau'r rhaglen, gan gynnwys model costio mewnol y CPS, a ddefnyddiwyd i amcangyfrif a rhagweld costau'r rhaglen;

- **Damcaniaeth Newid (ToC) a Fframwaith Canlyniadau** - Datblygodd Crest, gyda chyfraniad Fortia Insight, ToC a fframwaith canlyniadau fel rhan o'r gwerthusiad VTP cyffredinol i hysbysu'r gwerthusiad o'r effaith;
- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid** - Arweiniodd ymchwilwyr Fortia Insight gyfres o weithdai a chyflwyniadau gyda staff y CPS a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys ymgysylltu â staff cyllid y CPS a Gweithgor Athreuliad Dioddefwyr y CPS;
- **Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth (RER)** - Cynhaliodd Fortia Insight RER ar ddulliau moneteiddio a ddefnyddir mewn gwerthusiadau tebyg yn y sector cyhoeddus yn y DU a gwledydd perthnasol eraill; a
- **Chofnodi Amser Tasgau (TTR)** i gasglu data ar yr amser a gymerir i gyflawni tasgau cyfathrebu a thasgau nad ydynt yn ymwneud â chyfathrebu ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a Chynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol⁹.

Roedd Gweithgor Dadansoddiad Cost a Budd y CPS wedi helpu i nodi'r ffynonellau data ar gyfer yr Adroddiad Cryno. Mae'r costau a nodwyd yn cynnwys costau staff (gan gynnwys costau cyflog a chostau llety), costau lleoliad, costau teithio, a chostau argraffu.

Cafodd y manteision a nodwyd eu grwpio gyda'i gilydd o dan dri chategori buddion cyffredinol:

- **Buddion effeithlonrwydd**, sy'n darparu budd nad yw'n rhyddhau arian parod i'r CPS drwy leihau'r adnoddau sydd eu hangen ar weithgareddau cyfathrebu a gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chyfathrebu.
- **Canlyniadau i ddioddefwyr**, sy'n darparu buddion nad ydynt yn rhyddhau arian parod i ddioddefwyr, fel gwell ymddiriedaeth, tegwch a llesiant.
- **Llai o athreuliad dioddefwyr**, sy'n darparu buddion nad ydynt yn rhyddhau arian parod drwy leihau'r adnoddau a 'wastraffwyd' sy'n cael eu gwario ar achosion nad ydynt yn arwain at dreial yn ogystal â'r amser cynhyrchiol sy'n cael ei dreulio ar achosion a fyddai fel arall wedi cael eu cau oherwydd athreuliad dioddefwyr. Sylwch nad yw'r buddion hyn o reidrwydd yn arbedion cost, gan fod yr un adnodd neu fwy o adnoddau yn cael eu defnyddio mewn achosion sy'n arwain at dreial.¹⁰

Roedd yr holl gostau'n rhyddhau arian parod. Roedd yr holl fuddion yn rhai nad oeddent yn rhyddhau arian parod, sy'n golygu bod pris cysgod wedi cael ei gyflwyno i'w troi'n werthoedd ariannol. Mae'r dull penodol a ddefnyddiwyd yn cael ei nodi yn yr is-adrannau canlynol.

⁹ Sylwch nad oedd yn ymarferol casglu'r data hwn gyda TTR ar gyfer y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO).

¹⁰ Gallai lleihau athreuliad dioddefwyr arwain at ragor o fuddion drwy sicrhau cyfiawnder drwy erlyn achosion yn llwyddiannus, a buddion dilynol pellach o bosibl o ganlyniad i leihau aildroseddu. Mae hyn yn tynnu sylw at werth hirdymor y VTP, ond ni chafodd ei gofnodi ar y cam hwn o'r rhaglen.

2. Fframwaith Dadansoddi Cost a Budd

2a. Trosolwg

Nodi costau, manteision ac anfanteision posibl rhaglen yw conglfaen asesiad gwerth am arian. Mae CBA yn cynnwys costau uniongyrchol¹¹ y rhaglen i'r CPS. Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys y buddion uniongyrchol, anuniongyrchol a'r buddion ehangach sy'n rhyddhau arian parod a'r buddion nad ydynt yn rhyddhau arian parod (e.e. llesiant dioddefwyr) i'r CPS, dioddefwyr a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach.

Mewn CBA, fel yr amlinellir yng nghanllawiau Llyfr Gwyrdd¹² a Llyfr Magenta¹³ Trysorlys EF, mae costau'n golygu defnyddio mewnbwn i gynnal rhaglen/ymyriad, a allai fod yn gost ariannol. Mae buddion yn cynrychioli'r canlyniadau neu'r manteision cadarnhaol sy'n deillio o ymyriad, fel twf economaidd, gwell llesiant, gwell effeithlonrwydd, ac enillion amgylcheddol. I'r gwrthwyneb, mae anfanteision yn cyfeirio at y canlyniadau neu'r anfanteision negyddol sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag ymyriad. Gall y rhain gynnwys effeithiau niweidiol ar iechyd, yr amgylchedd, neu lesiant cymdeithasol ac economaidd.

Ar gyfer y VTP, o ystyried bod y costau'n rhai gwirioneddol a'r costau a ragwelwyd yn seiliedig ar lefydd gwag wedi'u cadarnhau, ni ddefnyddiwyd tuedd optimistiaeth ar gyfer costau. Nodwyd y costau a'r buddion yn erbyn y ToC a'r Fframwaith Canlyniadau i sicrhau eu bod yn cael eu priodoli i'r VTP.

2b. Dull gweithredu

Diffiniwyd cwmpas clir ar gyfer y costau, y manteision a'r anfanteision disgwyliedig i'w hystyried yn y Dadansoddiad Cost a Budd gan ddefnyddio'r camau canlynol.

1. Nodwyd rhestr hir gychwynnol o gostau, manteision ac anfanteision drwy ddatblygu'r ToCs lefel rhaglen a lefel gwasanaeth. Cynhaliwyd cyfres o weithdai ToC a Mesur Canlyniadau ar gyfer pob gwasanaeth, dan arweiniad Crest, i hysbysu'r gwerthusiad cyffredinol. Drwy'r gweithdai hyn, sicrhodd Fortia Insight fod yr holl gostau a buddion perthnasol yn cael eu hadlewyrchu yn y ToCs.
2. Datblygwyd rhestr hir gychwynnol o'r costau, y manteision a'r anfanteision disgwyliedig ar sail y Fframwaith Canlyniadau a'r ToCs ar lefel rhaglen ac ymyriad. Roedd y costau wedi'u

¹¹ Mae costau a buddion uniongyrchol i'r sefydliad gwreiddiol, mae costau a buddion anuniongyrchol i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, ac mae costau a buddion ehangach i gymdeithas y DU yn rhai i unigolion.

¹² Trysorlys EF (2026). THE GREEN BOOK UK GOVERNMENT GUIDANCE ON APPRAISAL. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/698dbcd17da91680ad7f4308/The_Green_Book_2026.pdf.

¹³ Trysorlys EF (2020). Magenta Book: Central Government guidance on evaluation. [ar-lein] Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/879438/HMT_Magenta_Book.pdf.

halinio â mewnbynnau ToC. Roedd y manteision wedi'u halinio ag allbynnau ac effeithiau ToC. Cofnodwyd canlyniadau negyddol posibl disgwyledig fel anfanteision.

3. Nodwyd manteision i'r CPS, y System Cyfiawnder Troseddol ehangach, a dioddefwyr. Nodwyd tri math o fanteision ac anfanteision: effeithlonrwydd, canlyniad i ddioddefwyr, ac athreuliad dioddefwyr.
4. Cafodd y rhestr hir ei chyfyngu i set graidd o gostau a manteision ar gyfer y CBA ar sail dichonoldeb moneteiddio ac argaeledd data.

Fel y dangosir yn Adran 2c CBA, nid oedd y buddion yn rhyddhau arian parod, sy'n golygu yr amcangyfrifwyd pris cysgod er mwyn moneteiddio'r buddion. Er mwyn amcangyfrif cost uned adnoddau, mae Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF yn argymhell defnyddio prisiau'r farchnad lle maent ar gael. Fel arall, tybir bod pris cysgod yn amcangyfrif gwerth nwydd neu wasanaeth lle nad yw prisiau'r farchnad ar gael neu lle na fyddai'n adlewyrchu cyfanswm y costau a'r manteision. Felly, defnyddiwyd dull moneteiddio tri cham ar gyfer pob budd:

Cam 1: Canfod a mesur effaith

Penderfynu lle mae'r rhaglen yn creu newid mesuradwy, fel arbed amser (effeithlonrwydd), gwella llesiant dioddefwyr (canlyniad dioddefwyr), neu leihau nifer yr achosion sy'n cael eu cwblhau oherwydd athreuliad dioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys casglu data o arolygon, cofnodion gweinyddol a modelau ystadegol.

Cam 2: Meintioli'r newid

Defnyddio dulliau priodol i amcangyfrif maint yr effaith:

- Cyfrifir arbedion amser gan ddefnyddio TTR (gweler y nodyn dull CBA ar ddiwedd yr adran hon am fanylion) a data costau staff.
- Asesir llesiant dioddefwyr drwy ddadansoddiad atchweliad sy'n cysylltu profiad y gwasanaeth â boddhad â bywyd.
- Mae effeithiau athreuliad dioddefwyr yn cael eu mesur drwy amcangyfrif nifer yr achosion y mae'r VTP wedi effeithio arnynt.

Cam 3: Moneteiddio'r budd

Trosi'r newidiadau meintioledig yn werthoedd ariannol:

- Lluosi'r amser a arbedir â chostau staff bob awr i gynhyrchu gwerth effeithlonrwydd.
- Defnyddio dull WELLBY Trysorlys EF i drosi gwelliannau llesiant yn dermau ariannol.
- Defnyddio amcangyfrifon costau i'r System Cyfiawnder Troseddol i roi gwerth ar osgoi gwastraffu adnoddau oherwydd llai o athreuliad dioddefwyr.

Ar gyfer arfarnu a gwerthuso, mae'n hanfodol y cynhelir CBA drwy ddilyn y dulliau arferion gorau a nodir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF¹⁴.

2c. Costau a Manteision VTP

Costau VTP

Mae'r data cost y gofynnwyd amdano gan y CPS yn Nhabl 13.

Tabl 13: Costau VTP (2025/26)

Categori Data	Disgrifiad
Gwir gostau staff	Cyfanswm taliadau staff ar gyfartaledd (cyflog ynghyd â chyfraniadau YG a phensiwn ynghyd ag unrhyw daliadau ariannol / anariannol eraill) yn ôl gradd.
Gwir niferoedd staff	Nifer y staff Cywerth ag Amser Llawn ym mhob gwasanaeth a thîm rheoli rhaglen fesul gradd.
Gwir gostau heb fod yn gostau staff	Eitemau gwariant mwy, gan gynnwys: • Ystâd • Argraffu/postio • TG • Llogi lleoliad/teithio ar gyfer cyfarfodydd • Costau digidol • Costau hyfforddi.
Cofnodion/cyfrifon gwariant ariannol y rhaglen	Datganiadau ariannol o wariant, yn ddelfrydol ar gyfer rheoli pob gwasanaeth a rhaglen.

Darparwyd y gwir gostau a thybiaethau ar gyfer y costau a ragwelir (e.e. nifer y swyddi gwag, gradd a chyflog) gan y CPS. Y cyfnod ar gyfer y dadansoddiad yw 2025/26. Nid oedd y manylder ar gyfer y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol ar gael yn gyson (e.e. ar gyfer costau nad ydynt yn gostau staff); felly, cyfrifwyd cyfanswm y costau. Amcangyfrifwyd y costau a ragwelwyd gan y CPS a'u cyfuno â'r gwir gostau i ffurfio cyfanswm costau VTP ar gyfer 2025/26. Roedd yr holl gostau'n rhyddhau arian parod. Ni wnaed unrhyw addasiadau pellach.

Defnyddiwyd y data costau staff a nodir yn y tabl hefyd i amcangyfrif gwerth arbedion amser i foneteiddio arbedion effeithlonrwydd.

Manteision VTP

¹⁴ ibid.

Mae manteision y Fframwaith Canlyniadau i'w gweld yn Nhabl 14, Tabl 15 a Thabl 16.

Tabl 14: Effeithlonrwydd yn ôl gwasanaeth VTP

Manteision/anfanteision cynllun peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Manteision/anfanteision cynllun peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a RASSO
Mwy o ddioddefwyr yn cysylltu â Gwasanaeth Cyffredinol y CPS i gael rhagor o wybodaeth	Cyfran uwch o ymholiadau perthnasol yn cael eu derbyn gan yr OIC/WCU/VLOs
Nifer/amlder cynyddol o dioddefwyr yn cysylltu â'r CPS yn gofyn pam y penderfynwyd cyhuddo yn eu hachos	Nifer ac amlder cynyddol o ddioddefwyr ac eiriolwyr dioddefwyr yn cysylltu â VLOs
Cyfran is o negeseuon e-bost/llythyrau/galwadau ffôn a dderbyniwyd gan y Tîm Cyffredinol wedi cael eu hailgyfeirio atynt gan dîm CPS arall neu'r Uned Gofal Tystion	Mwy o ddioddefwyr yn cysylltu â Gwasanaeth Cyffredinol y CPS /OIC/WCU i gael rhagor o wybodaeth
Llai o gwynion a defnyddio cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR) gan ddioddefwyr oherwydd gwybodaeth anghywir neu anghyflawn	Nifer/amlder cynyddol o ddioddefwyr yn cysylltu â'r CPS yn gofyn pam y penderfynwyd cyhuddo yn eu hachos
Llai o ddioddefwyr yn cysylltu â Gwasanaeth Cyffredinol y CPS /OIC/WCU i gael rhagor o wybodaeth	VLOs yn derbyn llai o gwestiynau am y broses mewn treial
Llai o amser yn cael ei dreulio gan OIC yn rhoi gwybod am benderfyniad y CPS ynghylch cyhuddo	Eiriolwyr dioddefwyr (ISVAs, IDVAs) yn derbyn llai o gwestiynau am y broses mewn treial
Gostyngiad yn nifer/amlder y dioddefwyr sy'n cysylltu â'r CPS yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am eu hachos	Llai o amser yn cael ei dreulio gan lysoedd (ar y diwrnod) yn chwilio am ddioddefwyr/tystion
Gostyngiad yn nifer/amlder y dioddefwyr sy'n cysylltu â'r CPS yn gofyn am ddiweddariad ar eu hachos (ar ôl anfon llythyr VCL)	Gostyngiad yn nifer/amlder yr ymholiadau cyn-treial a dderbynnir gan yr OIC, yn dilyn PtM gyda dioddefwr
Gostyngiad yn nifer / amlder y dioddefwyr sy'n cysylltu â'r CPS yn gofyn pam y penderfynodd y CPS beidio ag erlyn / cau achos / newid cyhuddiad yn sylweddol	Llai o amser yn cael ei dreulio gan OIC yn rhoi gwybod am benderfyniad y CPS ynghylch cyhuddo
Gostyngiad yn nifer/amlder y dioddefwyr sy'n cysylltu â'r CPS yn gofyn sut cafodd y penderfyniad i gyhuddo ei wneud	Gostyngiad yn nifer/amlder yr ymholiadau cyn-treial a dderbynnir gan yr WCU, yn dilyn PtM gyda dioddefwr

Gostyngiad yn nifer/amlder y dioddefwyr sy'n cysylltu â'r CPS yn gofyn beth oedd y penderfyniad cyhuddo yn eu hachos	Gostyngiad yn nifer ac amlder y dioddefwyr sy'n cysylltu â swyddogion yr heddlu am y cyfarfod PtM
Gostyngiad yn nifer/amlder y dioddefwyr sy'n cysylltu â'r heddlu yn gofyn beth oedd y penderfyniad cyhuddo ar eu hachos	Gostyngiad yn nifer/amlder y dioddefwyr sy'n cysylltu ag eiriolwyr dioddefwyr (ISVAs/IDVAs) ynghylch cyfarfod PtM
	Llai o gwynion a defnyddio cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR) gan ddioddefwyr oherwydd gwybodaeth anghywir neu anghyflawn
	Llai o ddioddefwyr yn cysylltu â Gwasanaeth Cyffredinol y CPS /OIC/WCU i gael rhagor o wybodaeth
	Gostyngiad yn nifer/amlder y dioddefwyr sy'n cysylltu â'r CPS yn gofyn sut cafodd y penderfyniad i gyhuddo ei wneud
	Gostyngiad yn nifer/amlder y dioddefwyr sy'n cysylltu â'r CPS yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am eu hachos
	Gostyngiad yn nifer/amlder y dioddefwyr sy'n cysylltu â'r CPS yn gofyn am ddiweddariad ar eu hachos (ar ôl anfon llythyr VCL)
	Gostyngiad yn nifer / amlder y dioddefwyr sy'n cysylltu â'r CPS yn gofyn pam y penderfynodd y CPS beidio ag erlyn / cau achos / newid cyhuddiad yn sylweddol
	Gostyngiad yn nifer/amlder y dioddefwyr sy'n cysylltu â'r CPS yn gofyn beth oedd y penderfyniad cyhuddo yn eu hachos

Tabl 15: Canlyniad Dioddefwyr yn ôl gwasanaeth VTP

Manteision/anfanteision cynllun peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Manteision/anfanteision cynllun peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a RASSO
Cyfran uwch o ddioddefwyr yn dweud bod y gwasanaeth a gawsant gan y CPS wedi gwella eu hyder yn y CPS a'r System Cyfiawnder Troseddol	Cyfran uwch o ddioddefwyr yn dweud bod y gwasanaeth a gawsant gan y CPS wedi gwella eu hyder yn y CPS a'r System Cyfiawnder Troseddol

Cyfran uwch o ddioddefwyr yn dweud bod y gwasanaeth a gawsant gan y CPS wedi cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant	Cyfran uwch o ddioddefwyr yn dweud bod y gwasanaeth a gawsant gan y CPS wedi cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant
---	---

Tabl 16: Athreuliad Dioddefwyr yn ôl gwasanaeth VTP

Manteision/anfanteision cynllun peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Manteision/anfanteision cynllun peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a RASSO
Cyfran lai o achosion yn cael eu stopio ar ôl i ddiffynnydd gael ei gyhuddo oherwydd nad yw dioddefwr yn cefnogi'r erlyniad mwyach	Cyfran uwch o ddioddefwyr yn dod i'r llys
Cyfran lai o achosion lle nad yw'r erlyniad yn cynnig tystiolaeth oherwydd nad yw'r dioddefwr bellach yn cefnogi erlyniad	Cyfran is o dreialon aneffeithiol o ganlyniad i ddioddefwyr yn tynnu'n ôl
Cyfran is o dreialon aneffeithiol o ganlyniad i ddioddefwyr yn tynnu'n ôl	Cyfran is o dreialon yn cael eu dadrestru o ganlyniad i ddioddefwyr yn tynnu'n ôl
Cyfran uwch o ddioddefwyr yn gadael y system o'r cyfnod cyn y llys i'r cyfnod ar ôl cyhuddo	Llai o bobl yn gadael y system ar ôl eu PtM Newid yng nghyfran y dioddefwyr sy'n gadael y system o'r cyfnod cyn y llys, i'r cyfnod ar ôl y cyfarfod PtM

Buddion y Gellir eu Moneteiddio

Ar sail y data sydd ar gael, mae'r buddion canlynol a gafodd eu moneteiddio ar gyfer yr adroddiad hwn yn Nhabl 17.

Tabl 17: Buddion VTP y Gellir eu Moneteiddio

Math o Fudd	Budd y Gellir ei Foneteiddio	Gwasanaeth	Ffynhonnell Data
Effeithlonrwydd	Cyfran lai o amser ar weithgareddau cyfathrebu VCL	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	- TTR - Costau staff fesul awr wedi'u pwysoli (Graddau B1 a B2¹⁵)
		Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol	

¹⁵Dim ond staff ar Raddfeydd B1 a B2 a gofnododd eu hamser gan ddefnyddio'r ffurflen TTR.

	Llai o gwynion gan ddioddefwyr oherwydd gwybodaeth anghywir neu anghyflawn	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	• Crest (dull rheoli synthetig sy'n defnyddio data cwynion) • TTR • Costau staff fesul awr wedi'u pwysoli (Graddau B1 a B2)
		Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol	
	Llai o geisiadau VRR gan ddioddefwyr oherwydd gwybodaeth anghywir neu anghyflawn	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	• Crest (dull rheoli synthetig sy'n defnyddio data cwynion) • TTR • Costau staff fesul awr wedi'u pwysoli (Graddau B1 a B2)
		Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol	
Canlyniadau Dioddefwyr	Cyfran uwch o ddioddefwyr yn dweud bod y gwasanaeth a gawsant gan y CPS wedi cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant	Gwasanaeth Cyffredinol	• Crest (Arolwg penderfynu cyhuddo, arolwg NFA, arolwg cyn-PtM) • WELLBY Trysorlys EF • Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW)
		Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol	
		RASSO	
Athreuliad Dioddefwyr	Cyfran is o dreialon aneffeithiol/yn cael eu dadrestru o ganlyniad i ddioddefwyr yn tynnu'n ôl	Gwasanaeth Cyffredinol	• Crest (dull rheoli synthetig gan ddefnyddio data athreuliad dioddefwyr y CPS) • Heeks et al. (2018) gan RER

Roedd yr holl fuddion yn rhai nad oeddent yn rhyddhau arian parod, sy'n golygu bod pris cysgod wedi cael ei gyflwyno i'w troi'n werthoedd ariannol.

2d. Ffynonellau data

Dyma'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y buddion y gellid eu monetiddio:

- 1) Arolygon TTR gyda thimau'r Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol
- 2) Cynhaliwyd y TTR ar gyfer y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol i gofnodi: (i) set o gwestiynau i'w hychwanegu at draciwr cyfathrebu â dioddefwyr y CPS i olrhain yr amser a dreulir ar weithgareddau cyfathrebu â dioddefwyr, a (ii) traciwr gweithgarwch nad yw'n ymwneud â chyfathrebu i olrhain yr amser a dreulir ar

weithgareddau eraill, fel cyfarfodydd neu hyfforddiant. Cynlluniwyd yr adnoddau hyn i gasglu gwybodaeth am yr amser a gymerir i gyflawni tasgau penodol. Mae rhagor o wybodaeth am y TTR ar gael yn y nodyn dull CBA ar ddiwedd y bennod hon.

- 3) Dadansoddiad o'r dull rheoli synthetig gan ddefnyddio cwynion a data VRR gan Crest
- 4) Data costau staff gan y CPS
- 5) Ymatebion i'r arolwg o ganlyniadau dioddefwyr gan Crest
- 6) Data ar degwch, parch a llesiant gan CSEW
- 7) Gwerthoedd WELLBY¹⁶ gan Drysorlys EF
- 8) Dadansoddiad o'r dull rheoli synthetig gan ddefnyddio data athreuliad dioddefwyr y CPS gan Crest
- 9) Ymchwil academiaidd o'r adolygiad cyflym o dystiolaeth
- 10) Gweithdy casglu data a chyfweliadau gyda thimau data a chyflawni'r CPS i greu rhagdybiaethau.

2e. Dulliau gwrthffeithiol

Mae cysylltiad agos rhwng mesur a phriodoli buddion a gwerthuso effaith. Priodoli, a elwir hefyd yn ychwanegedd, yw'r broses o nodi faint o unrhyw fudd a wireddwyd y gellid ei briodoli i'r rhaglen. Mewn geiriau eraill, mae'n adlewyrchu'r newid gwirioneddol mewn gwerth cymdeithasol na fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y rhaglen. Mae cysylltiad agos rhwng hyn a'r dulliau meintiol a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad effaith sy'n ceisio canfod effaith achosol y rhaglen ar ganlyniadau.

Ar gyfer pob budd, aseswyd dulliau gwrthffeithiol yn seiliedig ar effaith y rhaglen yn ôl Graddfa Dulliau Gwyddonol Maryland (MSMS)¹⁷, yn amrywio o lefel pump ar gyfer dulliau arbrolfol i lefel un ar gyfer cymariaethau cyn ac ar ôl heb ddefnyddio grŵp rheoli. Ar sail y dulliau sydd ar gael ar gyfer pob budd, ystyriwyd cymaryddion posibl y gellid eu defnyddio i nodi senario wrthffeithiol. Pan nad oedd grŵp rheoli ar gael, fe wnaethom ystyried sefyllfaoedd gwrthffeithiol 'seiliedig ar dybiaeth'. Cyflwynir y rhain yn Nhabl 18.

Tabl 18: Mesur gwrthffeithiol ac MSMS¹⁸

¹⁶ Trysorlys EF (2021). *Wellbeing Guidance for Appraisal: Supplementary Green Book Guidance*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/60fa9169d3bf7f0448719daf/Wellbeing_guidance_for_appraisal_-_supplementary_green_book_guidance.pdf.

¹⁷ Farrington, D., Gottfredson, D., Sherman, L. and Welsh, B. (2002). *Maryland Scientific Methods Scale (From Evidence-Based Crime Prevention, T 13-21, 2002, Lawrence W. Sherman, David P. Farrington, et al, eds., -- Gweler NCJ-198648)*. U.S. Department of Justice - Office of Justice Programs. Ar gael yn: <https://www.ojp.gov/ncjrs/virtual-library/abstracts/maryland-scientific-methods-scale-evidence-based-crime-prevention-13-21>.

¹⁸ What works centre for local economic growth (2015). *The Maryland Scientific Methods Scale (SMS)*. Ar gael yn: <https://whatworksgrowth.org/resource-library/the-maryland-scientific-methods-scale-sms/>.

Math Fudd	o	Budd y Gellir ei Foneteiddio	Gwasanaeth	Mesur Gwrthffeithiol	MSMS
Effeithlonrwydd		Cyfran lai o amser ar weithgareddau cyfathrebu VCL	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Gwahaniaeth mewn costau rhwng rolau cyfreithiol a Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr (VLO).	3
			Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a RASSO	Gwahaniaeth mewn costau rhwng rolau cyfreithiol a Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr.	3
		Llai o gwynion gan ddioddefwyr oherwydd gwybodaeth anghywir neu anghyflawn	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Dull rheoli synthetig gan ddefnyddio data cwynion.	3
			Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a RASSO	Dull rheoli synthetig gan ddefnyddio data cwynion.	3
		Llai o geisiadau VRR gan ddioddefwyr oherwydd gwybodaeth anghywir neu anghyflawn	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Dull rheoli synthetig gan ddefnyddio data VRR.	3
			Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a RASSO	Dull rheoli synthetig gan ddefnyddio data VRR.	3
Canlyniadau Dioddefwyr		Cyfran uwch o ddioddefwyr yn dweud bod y gwasanaeth a gawsant gan y CPS wedi cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Cymharu arolygon VTP ag arolwg cenedlaethol (e.e. arolwg Comisiynwyr Dioddefwyr).	3
			Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a RASSO	Cymharu arolygon VTP ag arolwg cenedlaethol (e.e. arolwg Comisiynwyr Dioddefwyr).	3

Athreuliad Dioddefwyr	Cyfran is o dreialon aneffeithiol/yn cael eu dadrestru o ganlyniad i ddioddefwyr yn tynnu'n ôl	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Dull rheoli synthetig gan ddefnyddio data athreuliad dioddefwyr y CPS.	4
		Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a RASSO	Dull rheoli synthetig gan ddefnyddio data athreuliad dioddefwyr y CPS.	4

Mae defnyddio'r sefyllfa wrthffeithiol yn caniatáu i'r budd y gellir ei foneteiddio gael ei ynysu i'r VTP.

2f. Tuedd optimistiaeth

Tuedd optimistiaeth yw'r duedd i werthuswyr fod yn or-optimistaidd ynghylch paramedrau allweddol prosiectau, gan gynnwys costau cyfalaf, costau gweithredu, hyd prosiectau a chyflawni buddion. Mae defnyddio tuedd optimistiaeth yn lleihau'r amcangyfrif o'r manteision enwol ac yn cynyddu'r costau enwol. Gan fod y costau a ddarparwyd ar gyfer y Dadansoddiad Cost a Budd yn rhai gwirioneddol a'r rhagolygon wedi'u cadarnhau, nid oedd unrhyw duedd optimistiaeth yn cael ei chymhwyso i'r costau. O ystyried natur seiliedig ar dybiaethau'r buddion, cymhwyswyd tuedd optimistiaeth o 15%, yn seiliedig ar ganllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF¹⁹ ar duedd optimistiaeth, i bob budd er mwyn troi gwerthoedd enwol yn werthoedd economaidd enwol.

2g. Disgowntio ac addasu ar gyfer y gyfradd chwyddiant

Gan fod y flwyddyn ariannol gyfredol, 2025/26, yn cael ei defnyddio fel y flwyddyn sylfaen lle digwyddodd yr holl gostau a buddion, mynegwyd yr holl werthoedd yn nhermau'r presennol. Felly, ni chafodd unrhyw addasiadau disgownt na chwyddiant eu cymhwyso yn y Dadansoddiad Cost a Budd blynyddol.

2h. Amcangyfrif gwerth am arian

Defnyddir dau fetrig allweddol i asesu gwerth am arian drwy CBA, y gymhareb cost a budd (BCR) a'r gwerth presennol net (NPV), a ddiffinnir fel:

$$\text{Benefit Cost Ratio} = \frac{\text{Total present value of all benefits}}{\text{Total present value of all costs}}$$

¹⁹ Trysorlys EF (2013). *Green Book supplementary guidance: optimism bias*. GOV.UK. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/green-book-supplementary-guidance-optimism-bias>.

$$\text{Net Present Value} = \text{Total present value of all benefits} - \text{Total present value of all costs}$$

Mae gwerth presennol buddion hefyd yn cael ei alw'n fanteision economaidd gwirioneddol, wedi'u disgowntio. Mae gwerth presennol costau hefyd yn cael ei alw'n gostau economaidd gwirioneddol, wedi'u disgowntio.

2i. Dadansoddiad o sensitifrwydd

Mae cynnal CBA, naill ai ar gyfer arfarnu neu werthuso, fel arfer yn cynnwys llawer o dybiaethau ynghylch pa gostau a buddion i'w cynnwys, a'r hyn y mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu yw amcangyfrif rhesymol o faint y buddion a'u gwerth ariannol. Mae hyn yn golygu bod ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon BCR ac NPV. Mae dadansoddiad sensitifrwydd yn cynnwys archwilio sensitifrwydd canlyniadau disgwyledig y VTP i newidiadau posibl mewn newidynnau mewnbnw allweddol. Gellir ei ddefnyddio i brofi effaith newidiadau mewn tybiaethau drwy amcangyfrif y senarios sefyllfa orau a gwaethaf ar gyfer pob budd. Yna, dylid amcangyfrif y BCR a'r NPV yn y ddwy senario er mwyn darparu ystod lle gellir disgwyl y bydd gwir BCR ac NPV y rhaglen yn bodoli, o ystyried y dystiolaeth orau sydd ar gael.

3. Costau

3a. Trosolwg

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r costau allweddol y gellir eu moneteiddio ar gyfer CBA y VTP. Mae moneteiddio yn cyfeirio at y broses o aseinio gwerth ariannol i fuddion, gan eu galluogi i gael eu cynnwys mewn metrigau allweddol a ddefnyddir i asesu gwerth am arian, gan ddefnyddio'r BCR a'r NPV. Fel y soniwyd yn Adran 2c CBA, darparodd y CPS y costau canlynol:

1. Gwir gostau staff - darparwyd hyn fel cyflog yn ôl graddfa a chostau uned llety
2. Gwir gostau nad ydynt yn gostau staff - mae'r rhain yn cynnwys rheoli rhaglenni, datblygu drafftwy'r llythyrau deallusrwydd artifisial digidol, a gwariant gwerthuso
3. Cofnodion neu gyfrifon gwariant ariannol y rhaglen - darparwyd hyn ar gyfer 2025/26.

Gofynnwyd hefyd am wir niferoedd y staff gan y CPS i gyfrifo cyfanswm cost y staff. Yn y CBA blynyddol, roedd y costau'n cwmpasu 2025/26.

3b. Costau y Gellir eu Moneteiddio yn y CBA blynyddol

Mae'r ffigurau staff a ddefnyddir yn y CBA yn cynnwys cyfuniad o ddata gwirioneddol a data rhagweld. O ganlyniad, mae cyfanswm y costau staff a nodwyd yn cynnwys gwariant gwirioneddol a rhagamcanol. Ar adeg cynnal y CBA, dim ond hyd at fis Tachwedd 2025 yr oedd data costau

gwirioneddol ar gael. Felly, mae costau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2025 a mis Mawrth 2026 wedi cael eu rhagweld a'u rhannu gan y CPS. Ar ben hynny, mae'r dadansoddiad yn dangos bod effeithlonrwydd VRR yn anfantais yn hytrach nag yn fantais oherwydd bod y cynnydd mewn ceisiadau VRR (oherwydd gwell ymwybyddiaeth o'r hawl) yn cynyddu costau'r CPS oherwydd yr adnoddau sydd eu hangen i ymateb iddynt. Felly, cafodd ei drin fel cost ychwanegol yn y CBA (gweler Adran 4b CBA). Cyflwynir cyfanswm y costau i'r VTP ar gyfer yr adroddiad hwn yn Nhabl 19 isod.

Tabl 19: Cost VTP - Enwol

Categori	2025/26 - Costau VTP
Staff y rhaglen	£5.0M
Gwariant Blynnyddol Cyffredinol (GAE) a Chyfalaf	£3.5M
RASSO	£4.7M
Anfanteision effeithlonrwydd VRRs	£0.8K
Cyfanswm	£13.2M

Ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a disgowntio, y costau economaidd gwirioneddol, wedi'u disgowntio oedd £13.2M, fel y dangosir yn Nhabl 20 isod.

Tabl 20: Cost VTP - Gwirioneddol Wedi'i Disgowntio

Categori	2025/26 - Costau VTP
Cyfanswm Cost Enwol	£13.2M
Cyfanswm y Gost Wirioneddol, wedi'i Disgowntio	£13.2M

Gelwir y rhain hefyd yn werth presennol y costau. Defnyddiwyd y costau hyn yn y CBA ar gyfer yr asesiad gwerth am arian.

4. Buddion

4a. Trosolwg

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r buddion allweddol y gellir eu moneteiddio ar gyfer CBA y VTP. Mae moneteiddio yn cyfeirio at y broses o aseinio gwerth ariannol i fuddion, gan eu galluogi i gael eu cynnwys mewn metrigau allweddol a ddefnyddir i asesu gwerth am arian, gan ddefnyddio'r BCR a'r NPV.

Er bod moneteiddio yn gam hanfodol yn y broses werthuso, nid yw'n hawdd mesur yr holl fuddion mewn termau ariannol. Y buddion hyn na ellir eu moneteiddio yw'r asesiad gwerth am arian, a byddant yn cael eu cynnwys ar y cyd â'r fframwaith CBA. Sylwch, gan nad oes modd moneteiddio'r buddion hyn (h.y. nid ydynt yn cael eu mesur fel gwerth ariannol), ni ellir eu cynnwys wrth gyfrifo'r BCR a'r NPV

Bydd y CBA yn cynnwys y tri phrif fath canlynol o fuddion:

1. Effeithlonrwydd
2. Canlyniadau dioddefwyr
3. Athreuliad dioddefwyr.

Mae'r dulliau'n defnyddio'r Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth (RER), felly maent yn hysbys mewn ymchwil. Mae'n bwysig nodi bod amcangyfrif buddion wedi'u moneteiddio yn dibynnu ar y gallu i fesur y manteision yn effeithiol a'u priodoli i'r VTP. Gan fod yr holl fanteision ac anfanteision a nodwyd yn deillio o'r ToC, roedd pob un wedi'i gynnwys yn y Fframwaith Canlyniadau. Rhoddwyd blaenoriaeth i ganlyniadau lle'r oedd data ar gyfer amcangyfrif y manteision a'r anfanteision ar gael yn ogystal â phriodoli i'r VTP yn bosibl.

4b. Effeithlonrwydd

Mae manteision effeithlonrwydd fel arfer yn cael eu mesur fel gostyngiad yn yr adnoddau sydd eu hangen i gwblhau tasg neu gynhyrchu lefel benodol o allbwn. O fewn y VTP, mae'r manteision hyn yn gysylltiedig yn bennaf â gostyngiadau yng nghylogau staff oherwydd newidiadau yng nghyfansoddiad staff, ond mesurir y budd mewn amser.

Mae manteision effeithlonrwydd yn cael eu moneteiddio drwy ddilyn cyfrifiad syml, ar yr amod bod swm yr adnoddau sy'n cael eu harbed, a'r gost gysylltiedig, yn hysbys neu gellir eu hamcangyfrif yn ddibynadwy. Gellir pennu gwerth ariannol buddion effeithlonrwydd drwy ddefnyddio'r hafaliad canlynol:

$$\text{Monetary value of efficiency benefit} = \text{Units of resource saved} \times \text{Unit cost of resource}$$

Yn achos gostyngiadau yng nghylogau staff o ganlyniad i symud gweithgareddau cyfathrebu a gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chyfathrebu o'r timau cyfreithiol i Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr, gellir cyfrifo buddion effeithlonrwydd drwy luosi nifer yr oriau a dreuliwyd â'r newidiadau yng nghost gyfartalog staff fesul awr (y pris cysgod). Mae'r gost fesul awr yn adlewyrchu cyfanswm y gost i'r cyflogwr, gan gynnwys cyflog gros, Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr, a chyfraniadau pensiwn. Gan fod y tasgau wedi cael eu cyflawni gan staff ar raddfeydd cyflog gwahanol, defnyddiwyd cyfartaledd pwysedig o gostau staff. Roedd hyn yn seiliedig ar gyfran cyfanswm yr amser a dreuliwyd ar y dasg gan staff ar wahanol raddau i sicrhau

adlewyrchiad cywir o'r enillion effeithlonrwydd cyffredinol. Mae'r dull hwn hefyd yn ymgorffori'r sefyllfa wrthffeithiol.

Sefyllfa Wrthffeithiol ar gyfer Effeithlonrwydd

Fel y disgrifir yn Adran 2e CBA, roedd y sefyllfa wrthffeithiol ar gyfer y budd Effeithlonrwydd yn deillio o cyn y VTP a'r dybiaeth bod y staff sy'n cyflawni'r gweithgareddau cyfathrebu a gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chyfathrebu yn symud o'r timau cyfreithiol i Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr, y mae eu cyflogau'n is na chyflogau'r timau cyfreithiol. Mae hyn hefyd yn seiliedig ar y dybiaeth bod y timau cyfreithiol a'r Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn cymryd yr un faint o amser i gwblhau gweithgareddau cyfathrebu a gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chyfathrebu.

Cyfrifwyd ychwanegolrwydd drwy gymryd y gwahaniaeth rhwng y costau ar ôl a chyn y VTP, gan dybio bod cyfran y gweithgareddau (neu'r tasgau) sy'n cael eu cwblhau gan y timau cyfreithiol yn gostwng yn unol â'r cynnydd yng nghyfran y gweithgareddau sy'n cael eu cwblhau gan Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr.

Cyfrifo Effeithlonrwydd

Fel y disgrifir yn Adran 2c CBA, cyflwynir gwerth y manteision Effeithlonrwydd yn Nhabl 21. Troswyd yr amser yn oriau i sicrhau unedau cyson ar gyfer y cyfrifiad.

Tabl 21: Manteision Effeithlonrwydd

Budd y Gellir ei Foneteiddio	Gwasanaeth	Ffynhonnell Data	Gwerth
Cyfran lai o amser ar weithgareddau cyfathrebu VCL	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	TTR.	298.12 awr y mis.
		Cost staff fesul awr wedi'i bwysoli.	£69.14 ar gyfer cyfreithiol; £29.47 ar gyfer VLO.
	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a RASSO	TTR.	0.78 awr y mis.
		Cost staff fesul awr wedi'i bwysoli.	£69.14 ar gyfer cyfreithiol; £29.47 ar gyfer VLO.

Llai o gwynion gan ddioddefwyr oherwydd gwybodaeth anghywir neu anghyflawn	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Crest (dull rheoli synthetig sy'n defnyddio data cwynion).	-0.51 o gwynion ²⁰ .
		TTR.	0.54 awr y mis.
		Cost staff fesul awr wedi'i bwysoli.	£29.47 ar gyfer VLO.
	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a RASSO	Crest (dull rheoli synthetig sy'n defnyddio data cwynion).	-0.51 o gwynion ²¹ .
		TTR.	0.54 awr y mis.
		Cost staff fesul awr wedi'i bwysoli.	£29.47 ar gyfer VLO.
Llai o geisiadau VRR gan ddioddefwyr oherwydd gwybodaeth anghywir neu anghyflawn	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Crest (dull rheoli synthetig sy'n defnyddio data VRR).	+1.72 VRRs ²²
		TTR.	0.43 awr y mis.
		Cost staff fesul awr wedi'i bwysoli.	£29.47 ar gyfer VLO.
	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a RASSO	Crest (dull rheoli synthetig sy'n defnyddio data VRR).	+0.33 VRRs ²³
		TTR.	0.43 awr y mis.
		Cost staff fesul awr wedi'i bwysoli.	£29.47 ar gyfer VLO.

Sylwer: 1) Mae costau staff ym mhrisiau 2025/26. 2) Gan fod y dadansoddiad yn dangos bod effeithlonrwydd VRR yn cynrychioli anfantais yn hytrach na budd, cafodd ei drin fel cost ychwanegol o fewn y CBA (gweler CBA Adran 3c).

Mae'r data a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad rhagarweiniol hwn yn cynnwys yr amser a dreuliwyd ar y gweithgareddau cyfathrebu a gyflwynir yn Nhabl 22.

Tabl 22: Gweithgareddau Cyfathrebu'r Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol

Gwasanaeth Cyffredinol	Gwasanaeth Ychwanegol
Amser a dreulir ar alwadau (gan gynnwys ymgais gyntaf, ail a thrydydd ymgais i gysylltu, cyfathrebiadau i mewn ac allan)	Yr amser a dreuliwyd yn adolygu manylion achosion ar y system rheoli achosion (CMS)

²⁰gwerth-p = 0.08. 95% CI [-2.12, 0.10].

²¹Fel uchod.

²²gwerth-p = 0.27. 95% CI [-1.37, 4.82]

²³gwerth-p = 0.44. 95% CI [-0.50, 1.15]

Yr amser a dreuliwyd ar negeseuon e-bost (gan gynnwys drafftio, adolygu ac anfon yr e-bost, cyfathrebiadau i mewn ac allan)	Yr amser a dreuliwyd ar alwadau (gan gynnwys galwadau ac ymgeisiau cychwynnol, galwadau dilynol, galwadau sy'n dod i mewn)
Yr amser a dreuliwyd ar llythyrau (gan gynnwys drafftio, adolygu, argraffu ac anfon y llythyr)	Yr amser a dreuliwyd yn anfon pecyn gwybodaeth
Yr amser a dreuliwyd yn diweddarau'r CMS ar ôl cyfathrebu (gan gynnwys yr ymgais gyntaf, ail a thrydydd ymgais i gysylltu)	Yr amser a dreuliwyd yn diweddarau'r CMS ar ôl cyfathrebu
Yr amser a dreuliwyd yn adolygu manylion achos ar CMS (gan gynnwys yr ymgais gyntaf, ail a thrydydd ymgais i gysylltu)	Yr amser a dreuliwyd ar gymorth IDVA
Yr amser a gymerwyd i gwblhau'r achos (o ddyrannu'r achos nes i'r llythyr gael ei anfon)	

Mae'r data a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad rhagarweiniol hwn yn cynnwys yr amser a dreuliwyd ar y gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chyfathrebu a gyflwynir yn Nhabl 23.

Tabl 23: Gweithgareddau'r Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol nad ydynt yn ymwneud â Chyfathrebu

Gwasanaeth Cyffredinol	Gwasanaeth Ychwanegol
Gweithgareddau cynefino neu hyfforddi	Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoli
Gweithgareddau heb fod yn rhai cyfathrebu sy'n ymwneud â chyfrifoldebau dioddefwyr	Gweithgareddau cynefino neu hyfforddi
Gweithgarwch profi digidol	Gweithgareddau heb fod yn rhai cyfathrebu sy'n ymwneud â chyfrifoldebau dioddefwyr
Gweithgareddau cyffredinol o ddydd i ddydd (a oedd yn arfer cael eu galw'n "gyfrifoldebau corfforaethol")	Gweithgarwch profi digidol
Gweithgareddau eraill	Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chwynion
	Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â VRR
	Gweithgareddau cyffredinol o ddydd i ddydd
	Gweithgareddau eraill

Ar gyfer y Gwasanaeth Cyffredinol, roedd 'Gweithgareddau eraill' yn cynnwys rhediadau bot, ysgrifennu a drafftio llythyrau Dim Camau Pellach (NFA), a gwylio recordiadau o gyfarfodydd. Ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol, roedd 'Gweithgareddau eraill' yn cynnwys galwadau i ddesg gymorth TG y CPS a drafftio llythyrau VCL.

Cafodd y TTR ei gwblhau sawl gwaith gan yr un unigolion. Nid yw'n glir ar hyn o bryd faint o adroddiadau a gwblhawyd fesul unigolyn; mae maint effeithiol y sampl yn llai na nifer crai yr arsylwadau. Cyflwynir nifer yr arsylwadau yn ôl pwyntiau data yn Nhabl 24 ar gyfer y Gwasanaeth Cyffredinol ac yn Nhabl 25 ar gyfer y Gwasanaeth Ychwanegol.

Tabl 24: Nifer arsylwadau'r Gwasanaeth Cyffredinol (h.y. pob cofnod tasg a gofnodwyd) yn ôl pwyntiau data

Arsylwadau	19/3/25	26/03/25	26/06/25	05/08/25	31/10/25	26/01/26
Gweithgareddau Cyfathrebu	273	204	208	376	233	192
Gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â Chyfathrebu	65	110	88	147	45	51

Ar draws pwyntiau data, roedd nifer yr arsylwadau'n amrywio rhwng 192 a 376 ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu, a rhwng 45 a 147 ar gyfer gweithgareddau nad oeddent yn ymwneud â chyfathrebu.

Tabl 25: Nifer arsylwadau'r Gwasanaeth Ychwanegol yn ôl pwyntiau data

Arsylwadau	Ardal	8/7/25	05/08/25	31/10/25	26/01/26
Cyfathrebu	Llundain	0	0	0	15
	Swydd Efrog a Humberside	145	260	265	36
	Wessex	0	52	221	13
	Mersi-Swydd Gaer	213	296	547	93
Heb fod yn Gyfathrebu	-	109	104	184	156

Roedd nifer yr arsylwadau'n amrywio rhwng 0 a 15 ar gyfer Llundain (yn sgil y ffaith mai dim ond mewn un pwynt data y buont yn cymryd rhan), rhwng 36 a 265 ar gyfer Swydd Efrog a Humberside, rhwng 0 a 221 ar gyfer Wessex (yn sgil y ffaith na wnaethant gymryd rhan yn y pwynt data cyntaf), a rhwng 93 a 547 ym Mersi-Swydd Gaer ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu. Roedd nifer yr arsylwadau ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chyfathrebu yn amrywio rhwng 104 a 184.

Yn benodol, roedd rhai ymatebion ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn cynnwys delio â chwynion, ond nid oedd cwestiwn unigryw ar gyfer delio â chwynion wedi'i gynnwys yn fersiwn peilot y TTR a anfonwyd at ymatebwyr. Hefyd, ar gyfer y Gwasanaeth Ychwanegol, roedd y cwestiwn unigryw ar gwynion hefyd yn cynnwys VRR. Roedd y dadansoddiad rhagarweiniol yn

tybio bod unigolyn naill ai wedi treulio ei amser ar gŵyn neu VRR, nid y ddau. Gwnaed addasiadau i'r TTR cyn y rownd derfynol o gasglu data TTR.

Hefyd, mae'r TTR yn amodol ar gofnodi ac adrodd yn gywir ar yr amser a dreulir yn ystod diwrnod gwaith yr unigolyn. Cydnabyddir y gall rhai unigolion danamcangyfrif neu oramcangyfrif eu hamser neu ddarparu amcangyfrifon ar ddiwedd eu hwythnos waith yn hytrach na phob diwrnod gwaith. Mae hyn yn golygu y gall yr amser a gofnodir gynnwys anghywirdebau ac, felly, efallai na fydd modd ei ailadrodd.

Mae yna gafeatau pwysig ynghylch sut cafodd y data hwn ei gasglu a'i ddehongli:

1. **Cofnodion ailadroddus gan unigolion:** Cafodd y TTR ei gwblhau sawl gwaith gan yr un unigolion, ond nid yw'n glir ar hyn o bryd faint o gofnodion a gyflwynodd pob unigolyn ym mhob cam casglu data. Mae hyn yn creu ansicrwydd ynghylch annibyniaeth arsylwadau a gallai effeithio ar ddibynadwyedd amcangyfrifon o amser cyfartalog.
2. **Dadansoddiad ar sail arsylwi:** Cynhaliwyd y dadansoddiad gan ddefnyddio arsylwadau unigol (h.y. pob tasg a gofnodwyd), yn hytrach nag unigolion unigryw. Mae hyn yn golygu bod y data'n adlewyrchu amllder lefel tasg, nid ymddygiad lefel person o reidrwydd.

Fodd bynnag, cynhaliwyd dadansoddiad disgrifiadol i asesu gwasgariad; roedd yr amrywiad yn agos at y cymedr ar gyfer canlyniadau pob cwestiwn unigryw. Mae hyn yn golygu bod y gwasgariad o'r canol yn isel. Cofnodwyd amser tebyg gan unigolion. Er, gan ddefnyddio'r amrediad rhyngchwartel i amcangyfrif terfynau is ac uchaf, roedd yna allanolynnau (uwchben y terfyn uchaf) ar gyfer yr amser a dreuliwyd ar alwadau a diweddariadau ôl-gyfathrebu ar CMS.

4c. Llesiant Dioddefwyr

Mesurwyd canlyniadau dioddefwyr gan ddefnyddio'r dull llesiant a gynigiwyd gan Drysorlys EF. Mae'r dull gweithredu yn aseinio gwerth ariannol i newidiadau mewn canlyniadau llesiant. Mae'r dull wedi cael ei ymestyn i ganlyniadau eraill sy'n gysylltiedig â llesiant. Er enghraifft, cymhwysodd Peytrignet et al. (2020)²⁴ y dull i foneteiddio newidiadau mewn unigrwydd hunan-gofnodedig drwy:

1. Amcangyfrif effaith ymylol newidiadau mewn unigrwydd ar foddhad â bywyd, gan ddefnyddio data o'r Arolwg Bywyd Cymunedol; a
2. Defnyddio effaith newidiadau mewn incwm ar foddhad â bywyd i sefydlu gwerth ariannol sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn boddhad â bywyd, gan ddefnyddio'r dull a ddatblygwyd gan Fujiwara (2013).

²⁵

Fodd bynnag, er bod data'r arolwg dioddefwyr a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn cofnodi effaith y VTP (h.y. tegwch a pharch tybiedig), nid oedd yn cynnwys mesurau llesiant uniongyrchol

²⁴ [Peytrignet et al. \(2020\)](#)

²⁵ [Fujiwara \(2013\)](#)

gan y byddai'n heriol ynysu effaith y gwasanaeth oddi wrth y cyfathrebu (a allai fod yn gadarnhaol neu'n negyddol). O ganlyniad, nid oedd yn bosibl amcangyfrif budd llesiant y dioddefwr yn uniongyrchol (h.y. newid mewn llesiant y gellir ei briodoli i'r VTP) gan ddefnyddio data'r arolwg yn unig. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cynhaliwyd dadansoddiad atchweliad ychwanegol gan ddefnyddio'r data allanol i amcangyfrif sut mae newidiadau ym mhrofiad dioddefwyr yn debygol o droi'n newidiadau mewn llesiant.

Mesurir llesiant yn gyffredin gan ddefnyddio mesurau llesiant personol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ONS4.²⁶ Mae'r mesurau hyn yn cynnwys pedair agwedd allweddol ar llesiant, gan gynnwys boddhad â bywyd, teimlad gwerth chweil, hapusrwydd a gorbryder. Roedd set ddata Y Gwasanaeth Ymchwil Ddiogel (SRS) Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (CSEW) yn cynnwys y ddau ddangosydd llesiant ONS4 hyn a chwestiynau'n ymwneud â phrofiadau dioddefwyr o'r System Cyfiawnder Troseddol. Ar ben hynny, roedd y ddau gwestiwn CSEW a oedd yn ymwneud â phrofiadau dioddefwyr o'r System Cyfiawnder Troseddol yn cyd-fynd yn agos â'r rheini a ddefnyddiwyd yn arolygon dioddefwyr Crest, fel y dangosir yn Nhabl 26. Gyda'i gilydd, roedd hyn yn golygu bod set ddata SRS CSEW yn addas iawn ar gyfer amcangyfrif y berthynas rhwng triniaeth dybiedig a llesiant.

Tabl 26: Cysondeb rhwng cwestiynau arolwg canlyniadau dioddefwyr CSEW a Crest

Cod CSEW	Cwestiwn CSEW	Cwestiwn arolwg canlyniadau dioddefwyr Crest
CJSINF1	Ydych chi'n meddwl bod [y CPS] wedi eich trin yn deg?	Roedd y CPS wedi delio â'r achos yn deg
CJSINF2	A wnaeth [y CPS] eich trin â pharch?	Cefais fy nhrin â pharch gan y CPS

Mae'n bwysig nodi bod gan y dull llesiant dueddiadau posibl, sy'n ymwneud â sefydlu perthynas rhwng tegwch a pharch tybiedig a llesiant dioddefwyr. Mae ffynonellau tuedd posibl yn cynnwys hepgor tuedd amrywiol, lle mae newidyn nad yw'n cael ei weld yn achosi newidiadau o ran tegwch neu barch tybiedig a llesiant dioddefwyr, neu achosiaeth wrthdro, lle gall dioddefwyr sydd â llesiant uwch ateb cwestiynau ar degwch neu barch tybiedig yn fwy ffafriol na'r rheini sydd â llesiant is.

Defnyddiwyd dadansoddiad atchweliad i amcangyfrif y berthynas rhwng tegwch/parch a llesiant tybiedig, gan reoli ar gyfer nodweddion eraill dioddefwyr a ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddau. Gan fod cysylltiad agos rhwng canfyddiadau o degwch a pharch, ac y gallai eu heffeithiau amcangyfrifedig felly ddylanwadu ar ei gilydd pan gânt eu cynnwys ar y cyd, amcangyfrifwyd dau fanyleb enghreifftiol ar wahân er mwyn asesu eu cysylltiad â llesiant yn unigol. Defnyddiwyd y manylebau canlynol:

²⁶ Office for National Statistics (2018). *Personal well-being user guidance* - ONS. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/methodologies/personalwellbeingsurveyuserguide>.

$$ONS4 = \beta_0 + \beta_1 CJSINF1 + \delta X + \varepsilon$$

$$ONS4 = \beta_0 + \beta_2 CJSINF2 + \delta X + \varepsilon$$

Ble:

- Roedd **CJSINF1** a **CJSINF2** yn cynrychioli tegwch a pharch tybiedig, yn y drefn honno.
- Mae **X** yn cynnwys set eang o newidynnau rheoli ar gyfer nodweddion dioddefwyr a chanlyniadau troseddau.
- Mae β_1 and β_2 yn amcangyfrif effaith ymylol tegwch a pharch ar lesiant.

Roedd y newidynnau rheoli yn cynnwys nodweddion dioddefwyr (e.e. oedran, rhyw a statws priodasol) a rheolaethau daearyddol ac amserol perthnasol (e.e. blwyddyn yr arolwg), yn amodol ar argaeledd data yn set ddata SRS a maint y sampl. Cafodd y data llesiant eu trawsnewid cyn eu dadansoddi er mwyn sicrhau cysondeb â'r raddfa lesiant a ddefnyddiwyd yn arolwg Crest. Cynhaliwyd yr aliniad hwn i gefnogi cymaroldeb rhwng setiau data ac i sicrhau y gellid cymhwyso'r cyfernodau amcangyfrifedig yn briodol i'r data llesiant a ddefnyddiwyd i gael effaith y VTP.

Roedd y cyfernodau amcangyfrifedig ar degwch a pharch tybiedig yn dangos tystiolaeth gyfyngedig o gysylltiad ystadegol arwyddocaol â chanlyniadau llesiant. Roedd gostyngiad un pwynt mewn tegwch neu barch tybiedig yn gysylltiedig â newidiadau bach ar draws y pedwar mesur llesiant. Yr unig ganlyniad ystadegol arwyddocaol oedd ar gyfer gorbryder: roedd gostyngiad un pwynt mewn parch tybiedig yn gysylltiedig â chynnydd o 2.23 pwynt mewn gorbryder a adroddwyd ($p = 0.04$). Nid oedd gweddill yr amcangyfrifon yn ystadegol arwyddocaol ar lefel hyder o 95%. Felly, mae'r canlyniadau hyn yn rhoi amcangyfrif dangosol o'r berthynas rhwng profiad y dioddefwr a llesiant y dioddefwr, gan adlewyrchu'r dystiolaeth orau sydd ar gael i hysbysu'r asesiad o fanteision llesiant yn y CBA. Mae Tabl 27 yn cyflwyno'r effeithiau ymylol amcangyfrifedig.

Tabl 27: Amcangyfrif o'r cysylltiad rhwng triniaeth dybiedig a llesiant²⁷

Mesurau ONS4	Gostyngiad un pwynt mewn tegwch tybiedig		Gostyngiad un pwynt mewn parch tybiedig	
	Cyfernod	Gwerth-P	Cyfernod	Gwerth-P
Boddhad â bywyd	-0.18 (-0.97, 0.61)	0.65	+0.15 (-1.47, 1.77)	0.85
Teimlad gwerth chweil	-0.07 (-0.73, 0.59)	0.83	+0.32 (-1.44, 2.09)	0.71

²⁷Sylwer: Mae'r rhifau mewn cromfachau o dan bob cyfernod yn dangos y cyfwng hyder o 95%. Mae hyn yn rhoi ystod lle mae'r gwir werth yn debygol o ostwng ar sail y data.

Hapusrwydd	-0.14 (-0.85, 0.56)	0.68	+0.11 (-1.36, 1.58)	0.88
Gorbryder	+0.10 (-1.42, 1.61)	0.90	+2.23 (0.09, 4.36)	0.04

Ar sail cofnodion olrhain cyfathrebu a gofnodwyd gan dimau darparu VTP, rhwng mis Gorffennaf 2025 a mis Ionawr 2026, roedd Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol wedi cyfathrebu â 3,303 o ddiodefwyr.²⁸ Ni chafodd y data ei gasglu'n drylwyr cyn mis Gorffennaf 2025. Er mwyn amcangyfrif cyfanswm nifer y diodefwyr a gymerodd ran yn ystod y flwyddyn ariannol lawn ar gyfer y CBA blynyddol, defnyddiwyd y cyfrif a gofnodwyd ar gyfer y mis cyntaf o gasglu data trylwyr ar gyfer Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol (361 o ddiodefwyr) fel procsi ar gyfer pob mis cyn mis Gorffennaf 2025, yn ôl i ddechrau'r flwyddyn ariannol. Ar gyfer gweddill misoedd y flwyddyn ariannol ar ôl mis Ionawr 2026, defnyddiwyd nifer misol cyfartalog y diodefwyr a oedd yn ymgysylltu â Chynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol. Mae cyfuno'r data a welwyd â'r amcangyfrifon hyn yn rhoi amcangyfrif o gyfanswm nifer y diodefwyr a oedd yn ymgysylltu â Chynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn ystod y flwyddyn ariannol. Defnyddiwyd yr un dull gyda Chynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol.

Yn yr un modd, cynhaliodd y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) gyfarfodydd cyn-treial gydag amcangyfrif o 1,402 o ddiodefwyr rhwng dechrau'r flwyddyn ariannol ac Ionawr 2026. Amcangyfrif yw hwn, yn seiliedig ar ddata monitro sydd wedi cael ei gasglu ers mis Mai 2025. Ar gyfer gweddill misoedd y flwyddyn ariannol ar ôl mis Ionawr 2026, defnyddiwyd nifer misol cyfartalog y diodefwyr a oedd yn ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) i amcangyfrif yr ymgysylltiad hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Tabl 28. Amcangyfrif o nifer y diodefwyr bob blwyddyn yr ymgysylltwyd â nhw'n llwyddiannus gan bob gwasanaeth

	Nifer y diodefwyr yr ymgysylltwyd â nhw'n llwyddiannus (wedi'u cofnodi gan dimau cyflenwi VTP)	Cyfrif wedi'i gofnodi ar gyfer y mis cyntaf	Amcangyfrif o nifer y diodefwyr yr ymgysylltwyd â nhw'n llwyddiannus bob blwyddyn
Gwasanaeth Cyffredinol	3,303 (Gorffennaf 2025 - Ionawr 2026)	361 (Gorffennaf 2025)	5,328
Gwasanaeth Ychwanegol	3,608 (Mehefin 2025 - Ionawr 2026)	212 (Mehefin 2025)	4,934

²⁸Oherwydd y ffordd y mae'r data'n cael ei gasglu, mae'n debygol y bydd rhywfaint o gyfri ddwywaith y diodefwyr yr ymgysylltwyd â nhw ar wahanol bwyntiau cyswllt yn ystod y cyfnod data hwnnw.

RASSO	1,802 (Medi 2024 - Ionawr 2026)	Amh	1646
-------	---------------------------------	-----	------

Cyfrifo Canlyniadau Dioddefwyr

Fel y disgrifir yn CBA Adran 2c, cyflwynir gwerthoedd buddion Canlyniadau Dioddefwyr yn Nhabl 29 isod.

Tabl 29: Buddion Canlyniadau Dioddefwyr

Budd y Gellir ei Foneteiddio	Gwasanaeth	Ffynhonnell Data
Cyfran uwch o ddioddefwyr yn dweud bod y gwasanaeth a gawsant gan y CPS wedi cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant	Gwasanaeth Cyffredinol	4.43 ar gyfer tegwch; 4.52 ar gyfer parch.
		£13,000 (prisiau 2019).
		5,328 o ddioddefwyr.
		Gweler yr amcangyfrif o'r cysylltiad rhwng y driniaeth dybiedig a llesiant yn Nhabl 27.
	Cynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol	3.00 ar gyfer tegwch; 2.80 ar gyfer parch.
		£13,000 (prisiau 2019).
		4,934 o ddioddefwyr.
		Gweler yr amcangyfrif o'r cysylltiad rhwng y driniaeth dybiedig a llesiant yn Nhabl X2.
	RASSO	4.20 ar gyfer tegwch; 4.00 ar gyfer parch.
		£13,000 (prisiau 2019).
		1,646 o ddioddefwyr.
		Gweler yr amcangyfrif o'r cysylltiad rhwng y driniaeth dybiedig a llesiant yn Nhabl 27.

Sylwer: Mae'r gost fesul uned mewn prisiau 2019.

Cafodd y llinell sylfaen ei chreu gan ddefnyddio Arolwg Dioddefwyr 2021 y Comisiynydd Dioddefwyr.²⁹ Datgelodd y canfyddiadau diffyg hyder yn y system. Roedd llawer o ddioddefwyr yn teimlo'n siomedig gyda'r ffordd y cawsant eu trin, yn enwedig gan y CPS. Roedd dioddefwyr yn aml yn teimlo fel gwylwyr yn hytrach na'u bod yn cymryd rhan weithredol yn y broses, oherwydd nodwyd bod y CPS yn aml yn anystyriol o anghenion dioddefwyr. Yn ogystal, dywedodd 29% o'r dioddefwyr eu bod wedi cael eu trin yn deg a gyda pharch gan gyfreithwyr. Ar sail yr wybodaeth

²⁹ Victims Commissioner (2021). *Victims' Experience: Annual Survey*. Ar gael yn: https://cdn.websitebuilder.service.justice.gov.uk/uploads/sites/6/2021/12/VC-2021-survey-of-victims- amended-27_9_21-1.pdf.

hon, tybiwyd sgôr sylfaenol o 1.45 allan o 5 ar gyfer tegwch a pharch fel procsi ar gyfer amodau cyn VTP.

Ar ôl VTP, mae dioddefwyr a gafodd gymorth drwy Gynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn nodi canfyddiadau uwch o degwch a pharch o'i gymharu â'r llinell sylfaen. I'r gwrthwyneb, mae'r rhai a gafodd gymorth drwy Gynllun Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol yn nodi sgoriau is o'i gymharu â'r llinell sylfaen, sy'n awgrymu naill ai llai o foddhad neu gyfyngiadau data posibl (e.e. maint sampl bach, amseru'r arolwg).

4d. Athreuliad Dioddefwyr

Mae athreuliad dioddefwyr yn y gwerthusiad hwn yn cyfeirio at achosion lle mae dioddefwyr yn ymddieithrio oddi wrth y broses cyfiawnder troseddol cyn i'w hachos gyrraedd treial, ar ôl cyhuddo. Mae monitro newidiadau yn athreuliad dioddefwyr yn dilyn dull tebyg o ymdrin â buddion effeithlonrwydd, gan ei fod yn seiliedig ar amcangyfrif y gostyngiad mewn adnoddau sy'n cael eu gwastraffu. Drwy leihau athreuliad dioddefwyr, gall y VTP arbed adnoddau mewn dwy ffordd:

- Os bydd dioddefwr a fyddai wedi ymddieithrio'n ddiweddarach yn gwneud hynny'n gynharach oherwydd cyfathrebiadau VTP, gan leihau'r adnoddau a wariwyd ar yr achos cyn i'r dioddefwr dynnu'n ôl; ac
- Os bydd dioddefwr a fyddai wedi ymddieithrio yn parhau i gymryd rhan, gan arwain at yr achos yn symud ymlaen i dreial. Er y byddai'r CPS yn dal i ddyrannu adnoddau i'r achos, ni fyddai'r adnoddau hyn yn cael eu hystyried yn wastraff mwyach.

Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth bod dioddefwyr sy'n cael cymorth yn gallu llywio drwy'r system gyfiawnder yn well, yn deall y broses, ac yn cael eu clywed.³⁰ Mae'r adran hon yn amlinellu'r dull gweithredu ar gyfer moneteiddio'r manteision hyn gyda'r data sydd ar gael, y prif ffynonellau data a'r bylchau, a'r gofynion ar gyfer casglu data ychwanegol.

Mae'r dull moneteiddio yn seiliedig ar amcangyfrif cost gyfartalog adnoddau'r CPS a ddefnyddir mewn achosion lle mae athreuliad dioddefwyr yn digwydd. Mae hyn yn dilyn y fformiwla safonol a ddefnyddir ar gyfer buddion effeithlonrwydd:

$$\text{Monetary value of reduced victim attrition} \\ = \text{Units of resource saved} \times \text{Unit cost of resource}$$

Ble:

³⁰ Victims Commissioner (2025). *Troubling number of London victims are walking away from justice process, new report finds* - Victims Commissioner. Ar gael yn: <https://victimscommissioner.org.uk/news/london-victim-attribution-report-troubling-sign-victims-continue-being-let-down-victims-commissioner/>.

- Mae unedau o adnodd a wastreffir a arbedir yn cyfeirio at adnoddau'r CPS a fyddai wedi cael eu gwario ar achosion lle mae dioddefwyr yn ymddieithrio oddi wrth y broses. Gallai hyn gynnwys amser staff, costau gweinyddol, a threuliau eraill sy'n gysylltiedig ag erlyn.
- Cost uned o adnodd yw'r gost gyfartalog fesul achos y mae'r CPS yn ei hysgwyrddo mewn achosion lle mae athreuliad dioddefwyr yn digwydd.

Cyfrifo Athreuliad Dioddefwyr

Fel y disgrifir yn CBA Adran 2c, cyflwynir gwerthoedd buddion Athreuliad Dioddefwyr yn Nhabl 30.

Tabl 30: Buddion Athreuliad Dioddefwyr

Budd y Gellir ei Foneteiddio	Ffynhonnell Data	Gwerth
Cyfran is o dreialon aneffeithiol/yn cael eu dadrestru o ganlyniad i ddioddefwyr yn tynnu'n ôl - Gwasanaeth Cyffredinol	Crest (dull rheoli synthetig gan ddefnyddio data athreuliad dioddefwyr y CPS).	-0.23 achos ³¹ .
	Heeks et al. (2018) gan RER.	£2,917

Sylwer: Mae'r gost fesul uned mewn prisiau 2015/16.

Mae Heeks et al. (2018) yn darparu amcangyfrifon o gostau uned ar gyfer gwahanol rannau o'r System Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys troseddau rhywiol, gan ddefnyddio data a gasglwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r dull gweithredu o'r ymchwil hwn yn sail ar gyfer amcangyfrif cost gyfartalog adnoddau'r CPS sy'n gysylltiedig ag athreuliad dioddefwyr.

Mae angen ystyried sawl peth wrth adeiladu ar ddull Heeks et al. (2018) i amcangyfrif cost gyfartalog adnoddau'r CPS ar achosion lle mae athreuliad dioddefwyr yn digwydd, gan gynnwys:

- Mae Heeks et al. (2018) yn amcangyfrif costau uned fesul trosedd, sy'n sylweddol is na chost gyfartalog achosion a brosesir gan y CPS (gan fod llai o achosion na throseddau). Byddai angen i gostau uned fesul trosedd gael eu cynyddu i gost gyfartalog yr achosion sy'n cael eu prosesu gan y CPS. Tybiwyd bod cymhareb trosedd-i-achos yn 0.2, ar sail y dybiaeth bod 1 o bob 5 trosedd yn arwain at anfon achos at y CPS (mae manylion hyn yn nodyn methodolegol CBA ar ddiwedd yr adran hon).
- Mae'r dadansoddiad yn Heeks et al. (2018) yn seiliedig ar ddata o 2013/14 (a oedd hefyd yn rhannol seiliedig ar ddata o 2005/06). Yn ddelfrydol, byddai'r dadansoddiad yn cael ei ailadrodd gan ddefnyddio data mwy diweddar. Fodd bynnag, gan nad yw'r data hwn ar gael i'r cyhoedd eto, cafodd costau eu huwchraddio i adlewyrchu chwyddiant cyflogau'r sector cyhoeddus.

³¹gwerth-p = 0.92. 95% CI [-4.58, 4.11].

- Mae costau Heeks et al. (2018) yn seiliedig ar bob achos a brosesir gan y CPS, gan gynnwys y rhai sy'n mynd i dreial a'r rhai nad ydynt yn mynd i dreial. Maent yn cynnwys ystod eang o gostau nad ydynt yn codi mewn achosion lle mae athreuliad dioddefwyr yn digwydd (e.e. gwasanaeth rheithgor, cymorth cyfreithiol). Amcangyfrifwyd cost gyfartalog achosion Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol i wasanaethau eraill y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer y troseddau isod:
 - Achosion yr ymdriniwyd â hwy gan y Llys Ynadon neu fathau o achosion Llys y Goron
 - HEB eu fflagio fel Cam-drin Domestig
 - HEB eu fflagio fel Trais Rhywiol
 - HEB eu fflagio fel Dioddefwr sy'n Blentyn
 - Ac Eithrio Lladdiad o Gategori'r Prif Drosedd.

4e. Trosolwg o'r BCR blynyddol

Mae Tabl 31 yn cyflwyno canlyniadau'r CBA blynyddol. Mae'r dadansoddiad yn cymharu'r PVB a gynhyrchwyd gan y VTP mewn blwyddyn â'r PVC sy'n gysylltiedig â'i gyflawni. Amcangyfrifir bod y VTP yn cynhyrchu gwerth presennol net (NPV) o £87.0 miliwn i £167.3 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli'r manteision economaidd net ar ôl ystyried costau'r rhaglen.

Tabl 31: Asesiad CBA blynyddol

PVB	£128.7M
PVC	£13.2M
NPV (PVB – PVC)	£80.0M - £154.6M
BCR (PVB / PVC)	7.1 - 12.7

Amcangyfrifir bod y BCR cyfatebol rhwng 7.1 a 12.7. Mae hyn yn golygu, am bob £1 a fuddsoddir yn y VTP, disgwylir y bydd rhwng £7.1 a £12.7 o fuddion economaidd yn cael eu cynhyrchu. Mae hyn yn awgrymu bod disgwyl i'r VTP ddarparu gwerth da am arian.

Cyfyngiadau a risgiau - dulliau CBA

Er bod CSEW wedi galluogi amcangyfrif o'r berthynas rhwng tegwch a pharch yn y System Cyfiawnder Troseddol a llesiant dioddefwyr ar lefel genedlaethol, nid oedd y rhan fwyaf o gysylltiadau'n ystadegol arwyddocaol. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu pŵer ystadegol cyfyngedig, yn bennaf oherwydd y sampl cymharol fach o ddioddefwyr CSEW a ddywedodd eu bod wedi dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol ac a gwblhaodd y cwestiynau llesiant perthnasol. Efallai fod dioddefwyr, fel grŵp agored i niwed, wedi bod yn llai tebygol o gymryd rhan mewn arolygon neu eu cwblhau yn dilyn eu profiad o droseddu. Mae'r Swyddfa Ystadegau

Gwladol wedi nodi bod y mater hwn yn agwedd barhaus a heriol ar gasglu data CSEW³². Ar ben hynny, efallai na fydd rhai dioddefwyr yn riportio troseddau i'r heddlu ac felly nid ydynt yn ymgysylltu â'r System Cyfiawnder Troseddol³³, gan leihau nifer yr ymatebwyr sy'n gymwys i ateb cwestiynau am degwch a pharch tybiedig. O ganlyniad, roedd y dadansoddiad yn seiliedig ar sampl gyfyngedig, a allai fod wedi cyfyngu ar gywirdeb yr effeithiau amcangyfrifedig.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod y dull llesiant wedi bod yn destun ffynonellau tuedd posibl. Roedd y rhain yn cynnwys hepgor tuedd amrywiol, lle gallai ffactorau nad arsylwyd fod wedi dylanwadu ar driniaeth a llesiant tybiedig, ac achosiaeth gwrthdro, lle gallai unigolion â llesiant sylfaenol uwch fod wedi adrodd am ganfyddiadau mwy cadarnhaol o degwch neu barch. Roedd y fanyleb atchweliad yn lliniaru'r risgiau hyn, ond nid oedd yn eu dileu, drwy gynnwys rheolaethau y gellir eu harsylwi.

Nodyn ar Fethodoleg CBA - Cymhareb Trosedd i Achos

Y Gymhareb Trosedd i Achos yw'r ffactor graddio a gafodd ei greu i godi'r pris cysgod yn Heeks et al. (2018), sy'n defnyddio cost uned fesul trosedd, ar gyfer y budd Athreuliad Dioddefwyr. Cafodd ei amcangyfrif gan ddefnyddio data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o 2024 ac ar sail erlyniadau llwyddiannus.

Yn seiliedig ar Ystadegau Llys Troseddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer Hydref i Ragfyr 2024³⁴:

- Troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu = 6.6 miliwn; a
- Diffynyddion y dygwyd achos yn eu herbyn (h.y. a gafodd eu herlyn) = 1,305,863.

Cyfrifwyd y gyfradd drosi, neu'r gymhareb, drwy rannu'r olaf â'r cyntaf:

$$\text{Crime – to – Case Ratio} = \frac{\text{Defendants prosecuted}}{\text{Police – recorded crimes}}$$

Drwy fewnosod y ffigurau uchod, y gymhareb trosedd i achos yw 0.1986, neu 19.9%. Cafodd hyn ei dalgrynnu i 0.2 ar gyfer y CBA. Mae hyn yn awgrymu bod 1 o bob 5 trosedd yn arwain at achos.

³² Canolfan Trosedd a Chyfiawnder y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). *Evaluating a new measure of domestic abuse*. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/methodologies/evaluatinganewmeasureofdomesticabuse>.

³³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025). *Crime in England and Wales QMI - Office for National Statistics*. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/methodologies/crimeinenglandandwalesqmi>.

³⁴ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2025). *Criminal court statistics quarterly: October to December 2024*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-court-statistics-quarterly-october-to-december-2024>.

Sylwch, fodd bynnag, y gall hyn fod yn amcangyfrif rhy isel oherwydd ei fod yn tybio canlyniad llwyddiannus (gall achosion fynd i'r llys a bod yn aflwyddiannus).

Nodyn ar Fethodoleg CBA - Cofnodi Amser Tasgau

Casglu data ychwanegol

Ar sail yr asesiad o fodel costau'r VTP a'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid, penderfynwyd y byddai angen casglu data ychwanegol i gasglu gwir gostau staff sy'n gysylltiedig â'r VTP. Byddai casglu gwir ddata ar yr amser a gymerir i gyflawni tasgau wedyn yn galluogi costio mwy cywir ar sail tasgau, sy'n hanfodol er mwyn deall gwir gost darparu'r VTP, nodi gwelliannau effeithlonrwydd, a hysbysu amcangyfrifon o gostau yn y dyfodol.

Mewn trafodaeth â staff y CPS, penderfynwyd nad REMs fyddai'r llwyfan mwyaf priodol ar gyfer casglu data, gan y teimlid y byddai hyn yn creu baich gormodol i staff y gwasanaeth. Yn hytrach, teimlwyd y byddai'n well ychwanegu cwestiynau ar yr amser a gymerir i gyflawni gweithgareddau cyfathrebu â dioddefwyr at gofnod cyfathrebu â dioddefwyr a oedd eisoes yn cael ei ddatblygu a'i dreialu i'w ddefnyddio gan dimau'r Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol. Gan fod staff yn gyfarwydd â llenwi Microsoft Forms, gellid creu ffurflen gyfathrebu ychwanegol nad yw'n ymwneud â dioddefwyr i gofnodi gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chyfathrebu â dioddefwyr.

Gofynion data

Gweithiodd Fortia Insight gyda'r CPS i nodi cyfres o weithgareddau staff sydd wedi'u cynnwys mewn rolau swyddi ar gyfer y Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol.

Gweithgareddau cyfathrebu â dioddefwyr

Roedd y broses hon yn nodi'r gweithgareddau cyfathrebu â dioddefwyr penodol, a restrir yn Nhabl 32, yr oedd angen casglu data amser tasgau ar eu cyfer (yr amser a gymerir i gyflawni tasgau penodol). Er bod data amser tasgau eisoes wedi'i gynnwys yn y traciwr cyfathrebu â dioddefwyr ar gyfer rhai gweithgareddau, ychwanegwyd cwestiynau ychwanegol i gasglu data ar weithgareddau nad oeddent wedi'u cynnwys. Cynlluniodd Fortia Insight gwestiynau ychwanegol i'w hychwanegu at y traciwr cyfathrebu â dioddefwyr i gasglu'r data hwn. Roedd y traciwr cyfathrebu â dioddefwyr wedi'i fireinio yn rhoi amcangyfrif i Fortia Insight o gyfanswm yr amser a dreuliwyd ar gyfathrebiadau i mewn ac allan â dioddefwyr.

Tabl 32: Gofynion data TTR ar gyfer cyfathrebu â dioddefwyr

Data amser eisoes wedi'i gynnwys yn y traciwr cyfathrebu â dioddefwyr	Data amser heb ei gynnwys yn y traciwr cyfathrebu â dioddefwyr
- Galwadau ffôn gan ddiodefwyr; - Gohebiaeth ysgrifenedig; - Ymateb i ohebiaeth sy'n dod i mewn; - Galwadau ffôn dilynol gyda phecynnau gwybodaeth yn cael eu hanfon drwy e-bost/llythyr.	- Adolygu manylion achosion gyda dogfennau perthnasol; - Dod o hyd i PMOC diodefwyr; - Llenwi ffurflen olrhain; - Ymateb i flwch derbyn; - Argraffu a rhoi llythyrau mewn amlenni ac anfon; - Diweddarau'r CMS yn dilyn cyfathrebiadau.

Gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chyfathrebu

Ni fyddai'n bosibl casglu data ar weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chyfathrebu o fewn y traciwr cyfathrebu â diodefwyr. Felly, datblygodd Fortia Insight, ar y cyd â'r CPS, adnodd monitro ar wahân ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chyfathrebu³⁵, gyda'r nod o dracio amser staff ar y canlynol:

1. Hyfforddi;
2. Cyfrifoldebau corfforaethol;
3. Cyfrifoldebau diodefwyr;
4. Cwynion;
5. VRR; a
6. Datblygu digidol/profi gan ddefnyddwyr.

Drwy'r traciwr cyfathrebu â diodefwyr wedi'i fireinio a'r ffurflen gweithgarwch nad yw'n ymwneud â chyfathrebu sydd newydd gael ei datblygu, casglodd Fortia Insight ddata ar yr amser a dreuliyd ar weithgareddau cyfathrebu â diodefwyr a gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chyfathrebu.

Treialu ffurflenni tracio cyfathrebu â diodefwyr a chyfathrebu nad yw'n ymwneud â diodefwyr

Cafodd y cwestiynau ychwanegol a ychwanegwyd at y log cyfathrebu â diodefwyr a'r ffurflen tracio cyfathrebu nad yw'n ymwneud â diodefwyr eu treialu gan aelodau o'r Cynllun Peilot

³⁵ Mae cael dwy ffurflen ar wahân ar gyfer cofnodi amser tasgau yn creu'r posibilrwydd o gofnodi amser yn anghyson, lle gall staff dangyfrif neu orgyfrif nifer yr oriau y maent wedi gweithio mewn wythnos. Ystyriodd Fortia Insight a fyddai modd cysylltu'r ddwy ffurflen, er mwyn i'r ffurflenni allu sicrhau bod staff wedi cofnodi'r nifer cywir o oriau yn ystod yr wythnos. Fodd bynnag, canfuwyd bod y dull hwn yn ormod o faich ar y CPS, gan y byddai angen llawer iawn o adnoddau digidol i'w sefydlu.

Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol am gyfnod o bythefnos, i asesu'r baich amser roeddent yn ei roi ar staff, unrhyw broblemau yr oedd staff yn eu hwynebu wrth lenwi'r ffurflenni, nodi meysydd i'w gwella ac asesu ansawdd y data a gasglwyd. Ar sail data o'r treial hwn a rannwyd â Fortia Insight gan y CPS, roedd casglu data amser tasgau drwy'r ddwy ffurflen tracio hyn yn ymarferol. Roedd Fortia Insight yn gallu darparu amcangyfrifon cychwynnol o'r amser cyfartalog (cymedr a chanolrifol) a gymerwyd i gyflawni gweithgareddau, a gafodd ei fireinio drwy adborth i'r CPS.

Adborth defnyddwyr

Cynhaliodd Fortia Insight gyfweiliadau â phedwar aelod o staff Cynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot i gasglu adborth defnyddwyr. Dyma'r prif ganfyddiadau:

- **Yr amser a gymerwyd i gwblhau'r tracwyr** - dywedodd staff fod modd ymdopi â'r gwaith o gwblhau'r tracwyr a'i fod yn cyd-fynd â'u gweithgareddau dyddiol. Roedd y traciwr cyfathrebu â dioddefwyr wedi'i wreiddio fel proses i'w chwblhau yn dilyn pob gweithgaredd cyfathrebu â dioddefwyr ac nid oedd yr amser ychwanegol a gymerwyd i ofyn cwestiynau wedi ychwanegu'n amlwg at yr amser a gymerwyd i gwblhau'r tracwyr. Dywedodd rhai staff eu bod yn teimlo bod cwblhau'r traciwr cyfathrebu nad yw'n ymwneud â dioddefwr ychydig yn fwy beichus, gan fod hyn yn golygu eu bod yn myfyrio ar ddiwedd y dydd ar faint o amser a gymerodd gweithgareddau penodol.
- **Categoriâu gweithgareddau** - dywedodd rhai staff eu bod wedi canfod nad oedd y categorïau gweithgareddau ar y ffurflen cyfathrebu nad yw'n ymwneud â dioddefwyr fel petaent yn adlewyrchu'r prif weithgareddau yr oeddent am eu cofnodi. I rai, arweiniodd hyn atynt yn cofnodi llawer o weithgareddau fel 'arall' ac yna'n ychwanegu rhagor o fanylion. Argymhellwyd bod rhai o'r categorïau'n cael eu hail-labelu a'u hehangu i gynnwys y gweithgareddau a oedd yn cael eu cofnodi fel rhai 'arall'. Ar y sail hon, diwygiwyd y ffurflen TTR yn ystod y cynllun peilot i adlewyrchu'r prif weithgareddau a wnaed ac i gynnwys sawl enghraifft i egluro pob gweithgaredd.

Ansawdd data

Adolygodd Fortia Insight ddata o wythnos gyntaf y cynllun peilot i chwilio am ddata coll a gwirio cysondeb. Roedd hyn wedi nodi'r materion canlynol:

- **Cofnodi amser** - ar gyfer rhai gweithgareddau yn y traciwr nad yw'n ymwneud â chyfathrebu, roedd yn ymddangos bod rhai staff yn cofnodi nifer yr oriau yr oeddent yn eu treulio ar weithgaredd pan oedd y cwestiwn yn gofyn am nifer y munudau. Efallai mai'r traciwr sydd wedi achosi'r dryswch, drwy gynnwys rhai cwestiynau a oedd yn gofyn am ddata amser mewn oriau ac eraill mewn munudau. Argymhellwyd bod y traciwr yn cael ei olygu fel bod pob cwestiwn mewn munudau yn hytrach nag oriau.

- **Defnyddio blwch gweithgareddau ‘arall’** - yn y ffurflen nad yw’n ymwneud â chyfathrebu, cafodd nifer fawr o weithgareddau ‘arall’ eu cofnodi (fel y byddid yn ei ddisgwyl o ystyried yr adborth gan staff a gasglwyd uchod). Darparodd Fortia Insight argymhellion i’r CPS ar olygu categorïau wedi i’r cynllun peilot gael ei gwblhau.

Isafswm maint sampl

Cafodd y TTR ei roi ar waith ddechrau 2025/26 er mwyn gallu rhoi amcangyfrifon mwy cywir o’r amser a gymerir i gyflawni gweithgareddau. O ystyried nifer y staff yn nhimau’r Cynllun Peilot Gwasanaeth Cyffredinol ac Ychwanegol, roeddem yn argymhell bod yr holl staff sy’n ymwneud â darparu gweithgareddau cyfathrebu yn llenwi’r ffurflenni.³⁶

Amllder casglu data

Casglwyd data gan y CPS a’i rannu â Fortia Insight mewn fformat Excel. Cynhaliodd Fortia Insight waith sicrhau ansawdd ar y set ddata, gan gynnwys gwirio am ddata coll, nodi allanolynnau a gwallau cofnodi posibl (er enghraifft, amser a gofnodwyd mewn oriau yn hytrach na munudau), a dadansoddi’r amser cyfartalog a dreuliwyd ar wahanol weithgareddau.

Disgrifir y sypiau data a dderbyniwyd ac a ddadansoddwyd yn CBA Adran 4b.

³⁶ Ar gyfer staff rheoli rhaglenni nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau cyfathrebu â dioddefwyr, ni fydd angen casglu data TTR.

Ystyriaethau moesegol

Mae fframwaith moesegol yn sail i bob dull. Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar broses asesu risg Crest a'r canllawiau moesegol a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Trosedddeg Prydain a Chymdeithas Gymdeithasegol Prydain, ac mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i Ganllawiau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Cafodd y fframwaith ei gymeradwyo'n fewnol drwy brosesau fframwaith moesegol Crest ar 4 Mehefin 2024 a'i ddiwygio drwy gydol y prosiect ar sail adborth y CPS a dealltwriaeth ehangach o brosesau ar gyfer ymgysylltu â dioddefwyr. Mae'r fframwaith wedi'i strwythuro ar sail chwe egwyddor a ddatblygwyd gan Arweinydd Moeseg Crest gan gyfeirio at ddogfennau canllaw a ysgrifennwyd gan y ffynonellau uchod:

1. Dylai ymchwil greu budd clir a diffiniedig i'r cyhoedd
2. Dylai ymchwil fod yn seiliedig ar ddulliau ymchwil cadarn ac amddiffyn rhag rhagfarn wrth ddehongli canfyddiadau
3. Dylai ymchwil alluogi cyfranogiad y grwpiau y mae'n ceisio eu cynrychioli
4. Dylid cynnal ymchwil mewn ffordd sy'n lleihau niwed personol a chymdeithasol i'r eithaf
5. Dylai cyfranogiad mewn ymchwil fod yn seiliedig ar gydsyniad penodol a gwybodus
6. Dylai ymchwil gadw at reoliadau diogelu data a sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn ddiogel.

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi sut rydym wedi rhoi'r egwyddorion hyn ar waith yn ymarferol, gan fynd ati'n rhagweithiol i nodi a lliniaru risgiau.

Pwrpas yr ymchwil

Egwyddor 1: Dylai ymchwil greu budd clir a diffiniedig i'r cyhoedd.

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar werthuso'r VTP drwy wneud y canlynol:

- Defnyddio tystiolaeth a gwybodaeth amserol i gefnogi'r CPS i weithredu'r VTP yn effeithiol
- Cefnogi'r CPS i ddangos effaith y VTP ar ganlyniadau allweddol sydd o fudd i randdeiliaid ac i ddefnyddwyr gwasanaethau
- Sicrhau bod y VTP yn cael ei arwain gan ddioddefwyr ac yn ystyriol o drawma er mwyn deall sut y gall ddysgu ac addasu i ddiwallu anghenion ei ddefnyddwyr.

Risg foesegol a dull lliniaru

Mae'n bosibl bod y risgiau o gynnal yr ymchwil yn gorbwyso'r buddion o wneud hynny. I lliniaru hyn, fe wnaethom geisio rhagweld y risgiau a'r niwed posibl y gallai cyfranogwyr a'r cyhoedd eu hwynebu yn ein fframwaith moesegol drwyddo draw. Yn erbyn y risgiau hyn, roeddem yn cynnig sut byddai pob risg yn cael ei lliniaru, er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yn cael effaith fuddiol yn gyffredinol.

Roeddem hefyd wedi ystyried sut gallai lledaenu canfyddiadau gyfyngu ar fanteision posibl yr ymchwil pe na bai canfyddiadau'n cael eu cyflwyno mewn ffordd a oedd yn hygyrch i'r holl gynulleidfaoedd perthnasol. I liniaru hyn, roeddem wedi defnyddio iaith a geiriad a oedd yn briodol i'r gynulleidfa darged ac wedi gweithredu safonau hygyrchedd y llywodraeth lle bo hynny'n briodol, fel defnyddio isafswm maint ffont ac osgoi lliwiau sy'n anodd eu gwahaniaethu.

Prosesau ymchwil ac ymgysylltu

Egwyddor 2: Dylai ymchwil fod yn seiliedig ar ddulliau ymchwil cadarn ac amddiffyn rhag rhagfarn wrth ddehongli canfyddiadau.

Risg foesegol a dull lliniaru

Er mwyn darparu gwerthusiad cadarn o'r VTP, roedd dyluniad ymchwil addas yn hanfodol. Roedd yn rhaid i ddulliau ymgysylltu fod yn briodol i ymgysylltu â rhanddeiliaid proffesiynol (gan gynnwys staff y CPS a phartneriaid ehangach yn y System Cyfiawnder Troseddol fel plismona ac Eiriolwyr Dioddefwyr) a dioddefwyr troseddau. Os cânt eu dylunio'n wael, gallai dulliau ymgysylltu fethu â chofnodi profiadau rhanddeiliaid perthnasol yn ddigonol. I liniaru hyn, defnyddiodd dyluniad yr ymchwil ddulliau dibynadwy o ymgysylltu ansoddol, a defnyddiwyd ffynonellau data meintiol lle byddai hyn yn egluro'r canfyddiadau. Cafodd y dulliau ymchwil hyn eu mireinio gyda'r CPS drwy gydol y gwerthusiad, gan addasu ar gyfer data newydd neu ddata coll i sicrhau bod y gwerthusiad yn gadarn. Buom yn gweithio'n agos gyda'r CPS i nodi rhanddeiliaid perthnasol ac i gynyddu ein cyrhaeddiad o ran ymgysylltu â dioddefwyr.

Roedd tueddiadau wrth adrodd ac wrth ddadansoddi yn risg arall a nodwyd a allai effeithio ar gadernid y gwerthusiad. Gallai tuedd negatif ystumio safbwyntiau cyfranogwyr o'u profiad, y gallai dadansoddiad fethu â'u rhoi mewn cyd-destun a'u cywiro, gan arwain at adroddiadau anghywir. Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, gwnaethom ddylunio canllawiau trafod yn ofalus i sicrhau bod ein hymchwylwyr yn annog cyfranogwyr i fyfyrion gytbwys ar eu profiadau. Gwnaethom hefyd gynnal prawf straen ar ganfyddiadau ymchwil gydag arbenigwyr mewnol ac allanol a oedd yn herio ac yn beirniadu'n drylwyr, gan gefnogi cadernid ein canfyddiadau a'n hargymhellion. Wrth fesur effaith, fe wnaethom nodi a lliniaru tueddiadau posibl mewn data meintiol drwy ddilyn canllawiau'r llywodraeth fel yr amlinellir yn y Llyfr Magenta.

Egwyddorion 3 a 4: Dylai ymchwil alluogi cyfranogiad y grwpiau y mae'n ceisio eu cynrychioli. Dylid cynnal ymchwil mewn ffordd sy'n lleihau niwed personol a chymdeithasol i'r eithaf.

Risg foesegol a dull lliniaru

Yn gysylltiedig â'r uchod, dylai ymchwil gadarn alluogi unigolion o ystod eang o grwpiau demograffig i gymryd rhan fel y gellir deall safbwyntiau unigolion ag anghenion amrywiol. Roedd

hyn yn berthnasol iawn i'n hymgysylltiad â dioddefwyr. Yn benodol, roeddem wedi mynd ati'n rhagweithiol i ragweld a rhoi cyfrif am anghenion grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd iddynt gymryd rhan yn yr ymchwil hwn. Yn ymarferol, roedd hyn yn golygu ei bod yn haws i bobl o bob cefndir gymryd rhan yn yr ymchwil. Drwy leihau'r rhwystrau i gymryd rhan, roeddem yn gallu manteisio i'r eithaf ar fuddion personol a chymdeithasol yr ymchwil. Roedd y rhwystrau i gyfranogiad a nodwyd gennym yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Rhwystrau iaith ac anghenion prosesu gwybodaeth
- Cyfyngiadau amser
- Cyfyngiadau ariannol
- Amheuaeth o'r ymchwil.

Rhwystro iaith ac anghenion prosesu gwybodaeth

Cynhyrchwyd deunyddiau cyfranogi ar gyfer yr ymchwil yn Saesneg gydag opsiynau ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg pan ofynnwyd am hynny. Er mwyn lliniaru'r rhwystr i gyfranogiad a achosir gan anghenion iaith a phrosesu gwybodaeth, gwnaethom ddefnyddio iaith glir, gan osgoi jargon a geiriad cymhleth ym mhob deunydd ymchwil. Buom hefyd yn gweithio gyda'r CPS i sicrhau bod arolygon a dogfennau cyfweiliadau yn cael eu hanfon at gyfranogwyr mewn fformat hygyrch. Yn benodol, fe wnaethom addasu'r arolwg dioddefwyr o'i fformat ar-lein cychwynnol er mwyn gallu llenwi'r arolwg dros y ffôn ac ar bapur hefyd. Drwy gyflwyno'r arolwg dros y ffôn, fe wnaethom ei wneud yn hygyrch i ystod ehangach o unigolion a chasglu pum ymateb ychwanegol i'r arolwg. Roedd hyn hefyd yn cefnogi'r rheini sydd â chyfyngiadau amser i lenwi'r arolwg yn brydlon.

Cyfyngiadau amser

Fe wnaethom sicrhau bod hyd rhesymol i'r holl ymgysylltu i leihau'r baich amser ar gyfranogwyr. Cafodd y cyfranogwyr wybodaeth lawn am hyd yr ymgysylltu er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad gwybodus am eu cyfranogiad. Roedd y terfyn amser uchaf ar gyfer pob dull ymgysylltu fel a ganlyn:

- Amcangyfrifwyd na fyddai arolygon dioddefwyr yn cymryd mwy na 10 munud i'w cwblhau ar-lein a 15 munud i'w cwblhau dros y ffôn.
- Fe wnaethom awgrymu i'r cyfranogwyr fod y cyfweiliadau wedi'u cyfyngu i awr, er bod cyfweiliadau â dioddefwyr yn cael eu harwain gan y cyfranogwyr i gyd-fynd â'u cyflymder dewisol.
- Roedd cyfweiliadau â rhanddeiliaid wedi'u cyfyngu i awr.
- Cyfyngwyd y grwpiau ffocws rhanddeiliaid i 90 munud.

Roeddem hefyd wedi creu ffurflen adborth i ddioddefwyr rannu ymatebion ysgrifenedig am eu profiad yn eu hamser eu hunain. Roedd hyn yn galluogi'r rheini heb lawer o amser i roi cymaint neu gyn lleied o adborth ag yr oeddent yn ei ddymuno.

Cyfyngiadau ariannol

Er mwyn lleihau'r baich ariannol o gymryd rhan, roedd yr holl ymgysylltu'n cael ei gynnig ar-lein, gan ddileu costau teithio. Ar gyfer dioddefwyr a ddywedodd eu bod yn ffafrio cyfweliad wyneb yn wyneb, cynhaliwyd cyfweliadau mewn lleoliad a oedd yn gyfleus iddynt. Gwnaethom hefyd ad-dalu costau teithio cyfranogwyr ac unrhyw un a oedd yn mynychu'r cyfweliad i gefnogi'r cyfranogwr. Fe wnaethom roi taleb i bob cyfranogwr ar ôl y cyfweliad i ddiolch iddynt am gymryd rhan yn yr ymchwil.

Amheuaeth o'r ymchwil

Er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chefnogi dealltwriaeth o'r gwerthusiad, fe wnaethom weithio mewn partneriaeth â Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr ac Eiriolwyr Dioddefwyr y CPS, gan gynnwys Eiriolwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVAs) ac Eiriolwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVAs), i recriwtio cyfranogwyr ar gyfer cyfweliadau â dioddefwyr. Buom yn gweithio gyda'r porthorion hyn i ledaenu gwybodaeth i ddioddefwyr am y gwerthusiad a sut y gallent gymryd rhan. Drwy ledaenu'r wybodaeth hon drwy unigolyn dibynadwy a allai ateb eu cwestiynau am gymryd rhan, roeddem yn gallu clywed safbwyntiau dioddefwyr â phrofiadau eang ar draws gwahanol leoliadau daearyddol. Roeddem hefyd wedi ceisio lliniaru amheuaeth o'r ymchwil drwy alluogi dioddefwyr i ddod ag unigolyn dibynadwy i'w cefnogi yn y cyfweliad.

Fe wnaethom gasglu data demograffig ar yr holl ddioddefwyr a gymerodd ran mewn cyfweliadau a oedd wedi cytuno i rannu'r wybodaeth hon er mwyn i ni allu dadansoddi pa mor gynrychioliadol oedd ein sampl. Ni wnaethom adrodd ar y data hwn oherwydd maint bach y sampl, a oedd, pe bai'n cael ei adrodd, yn achosi risg o beryglu cyfrinachedd cyfranogwyr.

Egwyddor 5: Dylai cyfranogiad mewn ymchwil fod yn seiliedig ar gydsyniad penodol a gwybodus.

Risg foesegol a dull lliniaru

Rhannwyd taflenni gwybodaeth i gyfranogwyr a hysbysiadau preifatrwydd i'r holl gyfranogwyr ymchwil cyn cymryd rhan. Ar gyfer cyfweliadau â dioddefwyr, roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth fanwl mewn iaith glir i egluro:

- Pwrpas yr ymchwil
- Manteision yr ymchwil a'r hyn y byddant/na fyddant yn ei gael drwy gymryd rhan. Cafodd y cyfranogwyr gymhellion ar ffurf talebau i ddiolch iddynt am eu hamser ac am rannu eu profiadau.³⁷ Y tu hwnt i'r daleb, cafodd cyfranogwyr wybod, er efallai na fyddant yn elwa'n

³⁷ Mae'n arfer safonol darparu cymhellion ariannol i gyfranogwyr ymchwil. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn peri risg gan y gallai effeithio ar yr egwyddor o gyfranogiad gwirfoddol a chydsyniad gwybodus a roddir yn rhydd. Er mwyn lliniaru'r risg hon, fe wnaethom ddilyn Canllawiau Prifysgol

uniongyrchol o gymryd rhan yn y prosiect, bod hwn yn gyfle i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ar bwnc sy'n berthnasol iddyn nhw/eu cymheiriaid ac a oedd yn cyfrannu at y corff ymchwil yn y maes hwn

- Pam mae eu cydsyniad gwybodus yn bwysig
- Eu hawl i dynnu'n ôl a sut y gellir gwneud hyn (gan gynnwys cyfyngiadau a osodir gan amserlenni ar gyfer dadansoddi, ac adrodd ar eu gallu i dynnu'n ôl yn ôl-weithredol o'r ymchwil)
- Cyfrinachedd ac anhysbysrwydd
- Sut a ble bydd y cyfweiliad yn cael ei gynnal (gan gynnwys trosolwg o'r hyn a fydd yn cael ei drafod)
- Sut byddwn yn delio ag unrhyw ddatgeliadau o ymddygiad troseddol neu bryderon diogelu
- Beth fydd yn digwydd i'r data sy'n cael ei gasglu

Roedd hyn ochr yn ochr â ffurflen gydsynio ysgrifenedig a lofnodwyd gan ddioddefwyr i gadarnhau eu bod yn deall yr wybodaeth hon ac yn cydsynio i gymryd rhan yn y cyfweiliad ar y sail honno. Ar ddechrau cyfweiliadau, grwpiau ffocws ac arolygon dros y ffôn, aeth yr hwylusydd drwy brif bwyntiau'r daflen wybodaeth eto i sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn deall yr ymchwil ac yn cydsynio i gymryd rhan. Rhoddwyd cyfle i'r cyfranogwyr ofyn cwestiynau. Fe'u hatgoffwyd bod eu cyfranogiad yn gwbl wirfoddol ac y gallent dynnu'n ôl heb reswm yn ystod neu ar ôl yr ymgysylltu.

Cydymffurfio â gofynion diogelu data

Egwyddor 6: Dylai ymchwil gadw at reoliadau diogelu data a sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn ddiogel.

Gwnaethom gynnal y gwaith ymchwil hwn gan sicrhau:

- Y cadwyd at y GDPR, Deddf Diogelu Data (2018) a gofynion diogelu data eraill y llywodraeth
- Cyfrinachedd wrth gasglu data, gan roi sylw penodol i ddiogelu cyfrinachedd cyfranogwyr wrth weithio gyda phorthorion
- Cyfrinachedd ym mhob dadansoddiad ac adroddiad.

Risg foesegol a dull lliniaru

Er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr ymchwil yn deall sut y byddai eu data personol yn cael ei ddefnyddio a'r camau a gymerwyd gennym i ddiogelu eu cyfrinachedd rhag y risg o dorri diogelwch data, colli a llygru, rhesom hysbysiad preifatrwydd i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwil. Roedd hyn yn egluro ein cydymffurfiaid â deddfwriaeth diogelu data fel yr oedd yn

Rhydychen - roedd gwybodaeth recriwtio i gyfranogwyr a thaflenni gwybodaeth yn nodi y bydd taliad yn cael ei wneud, ond ni fydd gwerth y taliad yn cael ei hysbysebu mewn deunyddiau recriwtio.

ymwneud â'u data personol, gan gynnwys mynediad cyfyngedig at ddata crai a phrosesau mewnol llym i sicrhau bod yr holl ddata personol yn cael ei ddinistrio ddim hwyrach na chwe mis ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau. Roedd y daflen wybodaeth i gyfranogwyr a ddarparwyd hefyd yn nodi polisi preifatrwydd Crest ynghylch casglu, storio, prosesu a defnyddio data, ac yn amlinellu eu hawliau cyfatebol.

Prosesau lliniaru fesul grŵp cyfranogwyr

- Rhoddodd rhanddeiliaid proffesiynol a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws gydsyniad llafar i gymryd rhan ar ddechrau'r ymgysylltu.
- Llofnododd dioddefwyr a gymerodd ran mewn cyfweiliadau ffurflen gydsynio ysgrifenedig i gadarnhau eu bod yn deall ac yn derbyn yr amodau hyn.
- Cafodd dioddefwyr a lenwodd yr arolygon wybod ar y dechrau bod eu cyfranogiad yn wirfoddol ac yn ddienw.